# Pecyn Cyhoeddus

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

19 Hydref 2022

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn Siambr y Cyngor - Penmorfa, Dydd Iau, 27 Hydref 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Cyflwyno'r Strategaeth Ddementia Ranbarthol a ddatblygwyd gan Grwp Llywio Dementia Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Tudalennau 3 - 74)**

**4. ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL CHWARTER 4 2021 – 2022 (Tudalennau 75 - 106)**

**5. Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer (Tudalennau 107 - 160)**

**6. Blaenraglen Waith Ddrafft 2022-2023 (Tudalennau 161 - 166)**

**7. I gonsidro cofnodion y cyfarfod blaenorol (Tudalennau 167 - 172)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

# Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **DYDDIAD:** | **27 Hydref 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Y Strategaeth Ddementia Ranbarthol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno'r Strategaeth Ddementia Ranbarthol a ddatblygwyd gan Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru** |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Er mwyn craffu ar y strategaeth a gwneud argymhellion i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion.** |

**CEFNDIR:**

Yn sgil cyhoeddi nifer o ddogfennau cenedlaethol gan gynnwys yr Archwiliad Cenedlaethol o Ofal Dementia, Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018 – 2022, Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru 2021 ac yn fwy diweddar, Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru, gwelwyd bod angen gwella gofal a phrofiad pobl sy'n byw â dementia yng ngorllewin Cymru.

Mae Partneriaeth Gofal Canolbarth Cymru yn dod â sefydliadau o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol ynghyd er mwyn integreiddio a thrawsnewid iechyd, gofal a chymorth yn y rhanbarth.
Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol statudol yn goruchwylio gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.
Mae'r Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol yn dod o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Bartneriaeth. Mae'n cynnig ffordd ar gyfer datblygu dull gweithredu rhanbarthol wrth ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Wrth ddatblygu'r Strategaeth, mae'r Grŵp hwn yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr allanol o'r enw Attain, a bydd ganddo rôl allweddol wrth fwrw ymlaen â chamau nesaf y gwaith.
Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (y Gronfa Gofal Integredig gynt) i gefnogi gwelliannau mewn gofal a chymorth ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Caiff y cyllid hwn ei reoli drwy'r Grŵp Llywio Dementia a bydd yn hanfodol bwysig wrth gyflawni'r blaenoriaethau a gytunwyd iddynt yn y Strategaeth.

Ym mis Chwefror 2021, penododd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Attain i weithio gyda'r partneriaid i ddatblygu strategaeth ddementia ranbarthol a model llwybr gofal ar gyfer y gwasanaethau. Yn ogystal â'r gwaith hwn, cynhaliom adolygiad o'r prosiectau dementia

rhanbarthol a ariannwyd gan y Gronfa Gofal Integredig. Trwy wneud hyn, cawsom arweiniad am y gwasanaethau a ddylai barhau i gael eu hariannu ynghyd â rhyw syniad o unrhyw gynlluniau ychwanegol y dylid eu cyflwyno yn 2021/22. Un o'r blaenoriaethau a nodwyd oedd gofyn i Attain ddatblygu achos busnes ar gyfer cyflwyno cysylltydd llesiant dementia yn seiliedig ar arfer gorau a fyddai'n rôl annatod o fewn Llwybr Llesiant Dementia Gorllewin Cymru.

Dyma roi'r gwaith hwn yn ei gyd-destun. Mae gwledydd y byd yn canolbwyntio fwyfwy ar ddementia ac effaith dementia ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall, yn bennaf am fod pobl yn byw'n hŷn, yn enwedig o fewn economïau incwm uchel.

Er mwyn esbonio ei strategaeth ddementia, ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022'.
Roedd y weledigaeth ar gyfer Cymru fel a ganlyn: 'cenedl sy'n deall dementia ac sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia, sy'n eu gwerthfawrogi ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau'.
Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Gwelliant Cymru Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru. Mae Grŵp Llywodraeth Cymru ar gyfer Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia yn cadw golwg ar y gwaith hwn, yn unol â gofynion Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia.
Mae'r ugain safon yn cael eu hystyried yn rhai dynamig a byddant yn cael eu gwerthuso'n barhaus a'u haddasu yn seiliedig ar dystiolaeth gefnogol. Maent yn perthyn i bedair thema: Hygyrch, Ymatebol, Taith, Partneriaethau a Pherthnasoedd wedi'u hategu gan Garedigrwydd a Dealltwriaeth.
Datblygwyd y safonau gan ddefnyddio Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru a rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau ynghylch y Fframwaith Cyflawni dwy flynedd i'r rhanbarthau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2023.
Cyn rhoi'r Fframwaith ar waith, mae Attain wedi llunio'r strategaeth hon ar y cyd â chydweithwyr, pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr ar draws gorllewin Cymru. Mae'r strategaeth lefel uchel hefyd yn darparu strwythur llywodraethu i'r rhaglen a sylfaen y gellir ei defnyddio i ariannu gwasanaethau yn unol â Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Naddo**<br>**Os naddo, nodwch pam – Adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn** | |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Bydd y strategaeth yn darparu glasbrint ar gyfer datblygu cymorth a gwasanaethau Dementia at y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Integreiddio:** | Strategaeth integredig yw hon |
| **Cydweithio:** | Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio ar gydweithio â phobl ar draws yr asiantaethau a chyda chymunedau lleol ac unigolion y mae dementia wedi effeithio arnynt. |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Mae atal yn rhan allweddol o'r Strategaeth gan fod y Strategaeth yn canolbwyntio ar alluogi pobl sy'n byw gyda dementia i fod mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau eu hunain. |

**ARGYMHELLIAD:**

Cyflwynir yr adroddiad hwn er gwybodaeth ond gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cabinet cyn y caiff y Strategaeth ei chymeradwyo.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

**Ddim yn berthnasol**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Donna Pritchard |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 27 Hydref 2022 |
| **Acronymau:** | |

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain
Improving health and wellbeing

# Strategaeth Ddementia
## Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru



Chwefror 2022
V19_0 **DRAFFT**

# Cynnwys


| Tudalen | Manylion |
|---|---|
| 3 | 1. Cefndir |
| 7 | 2. Crynodeb o Ddadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth |
| 11 | 3. Cynlluniau Gweithredu Presennol, Prosiectau Trawsffurfio Rhanbarthol |
| 15 | 4. Beth mae Arfer Gorau yn ei Ddweud Wrthym? |
| 22 | 5. Adborth o Gyfweliadau Strwythuredig |
| 26 | 6. Gweledigaeth a Llwybr Llesiant Gwasanaeth Dementia Gorllewin Cymru |
| 39 | 7. Ein Dull o Weithredu Llwybr Llesiant Dementia |
| 51 | 8. Y Camau Nesaf ar gyfer 2022/23 |
| 53 | 9. Atodiad 1: Dadansoddiad o Boblogaeth Gorllewin Cymru |
| 60 | 10. Atodiad 2: Adborth o'r Cyfweliadau Strwythuredig Cychwynnol |
| 64 | 11. Atodiad 3: Dull o reoli'r rhaglen waith |

# 1. Cefndir

# Cefndir

- Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (WWCP) yn dwyn ynghyd sefydliadau o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol gyda chylch gorchwyl o integreiddio a thrawsnewid iechyd, gofal a chefnogaeth yn y rhanbarth.
- Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) statudol yn goruchwylio gwaith y WWCP.
- Mae Grŵp Llywio Dementia rhanbarthol yn eistedd o dan y BPRh ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r Bartneriaeth. Mae'n darparu mecanwaith ar gyfer datblygu dull rhanbarthol o ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia (PBGD) a'u teuluoedd. Bu'r Grŵp hwn yn gweithio'n agos gydag Attain i ddatblygu'r Strategaeth ddrafft a bydd ganddo rôl allweddol wrth fwrw ymlaen i weithredu camau nesaf y gwaith.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy'r Gronfa Gofal Integredig (CGI) i gefnogi'r gwaith o wella gofal a chefnogaeth ar gyfer PBGD a'u teuluoedd. Rheolir y cyllid hwn drwy'r Grŵp Llywio Dementia a bydd yn gyfrwng i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y Strategaeth.
- Partneriaid allweddol ar y WWCP yw:
- 

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin

Cyngor Sir Penfro

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Cyngor Sir Ceredigion

# Cefndir

Ym mis Chwefror 2021, penododd WWCP Attain i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaeth ddementia ranbarthol a llwybr gofal model gwasanaeth. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, fe wnaethom gynnal adolygiad o brosiectau dementia rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig, a roddodd gyfeiriad ynghylch pa wasanaethau y dylid parhau i'w hariannu, yn ogystal ag arwydd o unrhyw fentrau ychwanegol y dylid ymgymryd â hwy yn ystod 2021/22. Un maes blaenoriaeth oedd i Attain ddatblygu achos busnes ar gyfer cyflwyno Cysylltydd Llesiant Dementia, sy'n seiliedig ar arfer gorau ac sy'n rôl gynhenid o fewn Llwybr Llesiant Dementia Gorllewin Cymru.

Mae'r cyd-destun ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys:

- Y ffocws cynyddol ledled y byd ar ddementia a'i effaith ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol; mae mynychder yr achosion yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn bennaf oherwydd bod pobl yn byw'n hirach, yn enwedig mewn economïau incwm uchel.
- Er mwyn egluro ei strategaeth ddementia, ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y 'Cynllun Gweithredu Dementia 2018-2022'.
- Y weledigaeth yw i Gymru fod yn 'genedl gyfeillgar i ddementia, sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau'.
- Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Gwelliant Cymru Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan. Caiff y gwaith hwn, dan gyfarwyddyd gofynion Cynllun Gweithredu Cymru ar Ddementia Cymru, ei oruchwylio gan Grŵp Goruchwylio Gweithredu ac Effaith Dementia (DOIIG) Llywodraeth Cymru.
- Bwriadwyd i'r ugain safon fod yn ddeinamig drwy ymateb i werthusiad a thystiolaeth ategol. Maent yn eistedd o fewn pedair thema: **Hygyrch, Ymatebol, Taith, Partneriaethau a Pherthnasoedd a Ategir gan Garedigrwydd a Dealltwriaeth.**
- Datblygwyd y safonau gan ddefnyddio Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru a disgwylir y bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu Canllaw Fframwaith Cyflawni dwy flynedd ar gyfer rhanbarthau Cymru dros y cyfnod Ebrill 2021 – Mawrth 2023.

Cyn i'r Fframwaith gael ei gweithredu, mae Attain wedi cyd-ddylunio'r strategaeth hon gyda chydweithwyr, pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr ledled Gorllewin Cymru. Mae'r strategaeth lefel uchel hefyd yn darparu strwythur llywodraethu rhaglen a'r sylfaen ar gyfer ariannu gwasanaethau sy'n cyd-fynd â Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru.

# Gofynion a Gweithgareddau'r Prosiect

Mae'r sleid hon yn amlinellu gofynion y prosiect, canlyniadau'r gwaith a wnaed a chamau gweithredu allweddol.

## Yr hyn a ddisgwylir:

**1. Strategaeth a Chynllun Cyflawni Trosfwaol ar Ddementia**

- Hwyluso cyd-gynhyrchu strategaeth ddementia ranbarthol gyda rhanddeiliaid, PBGD a'u gofalwyr
- **Datblygu model cynaliadwy a chynllun cyflawni cysylltiedig ar gyfer y strategaeth yn y tymor canolig i'r tymor hwy,** defnyddio ffrydiau ariannu presennol ac yn y dyfodol i gefnogi hyn a rhoi cyfrif i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ar gyflawni ac effaith
- **Ystyried gofynion perchnogaeth ranbarthol** ac arweinyddiaeth **y rhaglen yn y dyfodol** i weithredu a chyflawni'r strategaeth ddementia
- Mae angen ystyried y strategaeth ddementia a'r cynllun cyflawni cysylltiedig yng nghyd-destun **demograffeg sy'n newid ar draws y rhanbarth**, effaith hirdymor COVID-19 ar bobl â dementia a'r effaith ar y ffrydiau gwaith presennol fel tystiolaeth

**2. Datblygu achos busnes ar gyfer rôl rheolwr achosion dementia**

- Yn unol â safonau dementia Cymru Gyfan a'r strategaeth gofal lliniarol a diwedd oes a ddatblygwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd Iechyd, datblygu achos busnes ar gyfer rôl rheolwr achosion dementia

**3. Gyda golwg ar y tasgau uchod roedd gofyn i Attain:**

- Gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, arweinwyr systemau, rheolwyr gwasanaethau, clinigwyr ac ymarferwyr, aelodau etholedig ac annibynnol ynghyd â defnyddwyr a gofalwyr fel y bo'n briodol.
- Cynhyrchu cynigion ac adroddiadau o ansawdd uchel ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd

## Mae Attain wedi gwneud y canlynol:

**1. Strategaeth a Chynllun Cyflawni Trosfwaol ar Ddementia:**

- Cynhyrchu adroddiad yn dilyn adolygu arfer gorau yn genedlaethol a rhyngwladol
- Gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu **strategaeth ranbarthol, gweledigaeth a llwybr model gwasanaeth yn seiliedig ar arfer gorau**
- Mae'r strategaeth hon yn cynnwys **rhaglen a strwythur llywodraethu arfaethedig** sy'n cyd-fynd â Llywodraeth Cymru a strwythurau Rhanbarthol
- Mae'r strategaeth yn cynnwys crynodeb o'r **galw a'r mynychder presennol ac yn y dyfodol ymhlith y boblogaeth.** Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am effaith COVID-19 ar y rhai â dementia
- Mae rhanddeiliaid wedi nodi bod COVID-19 wedi effeithio ar ddiagnosis prydlon oherwydd cyflwyno'n hwyr a'r analluogrwydd i gael mynediad at wasanaethau asesu

**2. Datblygu achos busnes ar gyfer rôl cysylltydd llesiant dementia:**

- Cynnal adolygiad bwrdd gwaith ar arfer gorau mewn cyd-drefnu/rheoli achosion dementia a lefel baich achosion ar gyfartaledd
- Datblygu achos busnes gyda mewnbwn gan aelodau grŵp llywio dementia WWCP

**3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid:**

- Mae Attain wedi gweithio gyda rhanddeiliaid lluosog ar draws y rhanbarth pobl sy'n byw gyda dementia (PBGD) a'u gofalwyr a staff rheng flaen. Mae holl Bartneriaid Gofal Gorllewin Cymru wedi chwarae rhan lawn a chefnogol iawn yn natblygiad y strategaeth hon

## Argymhellion allweddol

**1. Gweithredu strategaeth a llwybr llesiant dementia**

- Unwaith y bydd y strategaeth wedi'i chymeradwyo'n ffurfiol gan WWCP, cymdeithasoli argymhellion y strategaeth, a'r llwybr llesiant dementia er mwyn sicrhau bod cydweithwyr, PBGD a'u gofalwyr ledled Gorllewin Cymru yn cymryd meddiant ohoni.
- Dylid datblygu cynllun cyfathrebu i redeg am oes y strategaeth
- WWCP i fabwysiadu'r strwythur llywodraethu arfaethedig a recriwtio rheolwr rhaglen Dementia Rhanbarthol
- Dylid datblygu achos busnes llawn er mwyn symud ymlaen i sefydlu rôl cysylltydd llesiant dementia
- Dylid adolygu'r strategaeth, y weledigaeth a'r llwybr model gwasanaeth unwaith y bydd gwybodaeth ar gael am effaith COVID-19 ar y rhai â dementia a'u gofalwyr.
- Dylid adolygu a monitro'r amser disgwyl am ddiagnosis; dylid dod o hyd i atebion i fynd i'r afael ag amseroedd aros hir, gan gynnwys cydgynllunio a datblygu'r llwybr diagnosis dementia rhanbarthol

**2. Cynllun Dementia y Gronfa Gofal Integredig (CGI):**

- Mae'r strategaeth yn argymell y dylid cynnal adolygiad o BOB menter a ariennir ar hyn o bryd gan y Gronfa, gan gynnwys edrych ar dystiolaeth o ganlyniadau, alinio cyllid i weithredu'r blaenoriaethau strategol, a sicrhau bod adnoddau llawn ar gyfer unrhyw ffordd newydd o weithio
- Datblygu dull strategol a chydgysylltiedig rhanbarthol o gefnogi gofalwyr – ystyried brigdorri cyllid dementia'r Gronfa i gynyddu elfen y gofalwyr er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau, gan gefnogi'r rhai sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia.

# 2. Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y dadansoddiad o'r boblogaeth gweler atodiad 1**

# Rhagamcaniad o boblogaeth y rheiny sydd â dementia yng Ngorllewin Cymru

wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

Attain

## 1 mewn 6

Mae Cymdeithas Alzheimer's y DU yn amcangyfrif bod dementia yn effeithio ar un ym mhob chwech o bobl 80+. Dengys cofnodion Gorllewin Cymru fod gan 1 ym mhob 10 o bobl dros 85 ddementia.

Mae Ymchwil Alzheimer's yn amcangyfrif mai 53% yw cyfradd y diagnosis* ar draws Cymru, sy'n awgrymu angen **presennol** nad yw'n cael ei ddiwallu o 2,400 o gleifion ar draws Hywel Dda

Dengys y tabl isod BOB diagnosis o ddementia a **ragwelir** yn seiliedig ar gofrestrau Meddygon Teulu Gorllewin Cymru, gan ystyried y cynnydd yn nifer y rhai dros 85 oed a'r amcangyfrif o angen heb gael diagnosis. Nid oedd data ar restrau aros ar gael ond mae'n bwysig dod o hyd i ffyrdd o fonitro hyn wrth i'r galw gynyddu.

| Sir | Pobl â diagnosis ar hyn o bryd (ar gofrestr meddyg teulu) | Amcangyfrif o'r nifer presennol heb gael diagnosis | Cyfanswm mynychder presennol a amcangyfrifir | 2040 amcangyfrif o'r nifer â diagnosis** (seiliedig ar y gyfradd diagnosis bresennol) | 2040 nifer a amcangyfrifir heb dderbyn diagnosis** | 2040 amcangyfrif o gyfanswm y mynychder |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 1,363 | 1,208 | 2.571 | 2,035 | 1,793 | 3,828 |
| Ceredigion | 578 | 512 | 1,090 | 863 | 760 | 1,623 |
| Sir Benfro | 871 | 772 | 1,643 | 1,300 | 1,145 | 2,445 |
| **Gorllewin Cymru** | **2,812** | **2,492** | **5,304** | **4,198** | **3,698** | **7,896** |

**7,896 erbyn 2040** (yn cynnwys y bobl heb gael diagnosis)

I roi hyn mewn persbectif…

Mae hyn yn gymaint â phawb ym **Mhenfro** yn byw â dementia.

*Cyfradd diagnosis yw canran y diagnosis o gymharu â'r amledd gwirioneddol a amcangyfrifir

** Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar gyfradd y diagnosis yn aros yr un fath ag yw yn awr, hon yw'r senario "Peidio â gwneud dim"

# Diagnosis Dementia Gorllewin Cymru

**Benywaidd** yn bennaf **(62%)** yn rhannol oherwydd disgwyliad oes hirach merched

Mae **65%** o gleifion dementia yn y DU yn ferched ac maent hefyd yn ffurfio **dros 60% o'r gofalwyr**

Mae **45% o gleifion dros 85 mlwydd oed** a bydd y boblogaeth hon yn tyfu ar draws Hywel Dda

**Prif achos marwolaeth** yn y DU (cyn-COVID-19) ac mae'n cynrychioli 12.7% o'r holl farwolaethau

**Mynychder Diagnosis** ar draws **Ceredigion yn uchaf**: 0.8% o'r rhestr lawn

**Yng Ngheredigion** y ceir y gyfran uchaf o bobl **dros 65, sef 26%**; y cyfartaledd ar gyfer Hywel Dda yw 25%

Mae poblogaeth Hywel Dda yn heneiddio, **bydd dros 10% dros 85 erbyn 2040**

Mae poblogaeth yr oedolion yn gostwng ar draws pob ardal, yn enwedig yng **Ngheredigion (-11% 2040)**


Mae gostyngiad ym mhoblogaeth yr oedolion yn lleihau'r gofal cefnogol ar gyfer y boblogaeth hŷn

Mae **84 o gleifion** ar y gofrestr â dementia cynnar (0.06% o'r oedolion)


**Mae 56% o** oedolion â diagnosis cynnar* **yn ddynion** (mae 24 yn Sir Gaerfyrddin a 10 yng Ngheredigion)

* Dementia cynnar yw dechrau dementia pan fydd person o dan 65 oed. Ar draws Gorllewin Cymru mae 84 o gleifion ar y cofrestrau sydd o dan 65 oed. O'r rheiny, mae 55 yn y grŵp oedran 60-65 oed. Mae hyn yn rhoi cyfradd o 0.04% i Orllewin Cymru ar draws y boblogaeth oedolion, sy'n debyg iawn i'r gyfradd a welir ar draws cofrestrau Cymru yn genedlaethol.

**Cleifion ar gofrestrau Meddygon Teulu â diagnosis dementia yng Ngorllewin Cymru**




**Prif achosion marwolaeth, y DU hyd at 2018 (yn dangos y % ddiweddaraf o gyfanswm y marwolaethau)**



West Wales Care Partnership
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Attain

# 3. Cynlluniau gweithredu presennol, prosiectau trawsnewid rhanbarthol

Tudalen 15


# Dogfennau dementia perthnasol i Gymru:

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain

Bydd y strategaeth hon a'r rhaglen gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn y dyfodol yn tynnu ar fentrau allweddol presennol:

## Heneiddio'n Dda yng Nghymru




**Lansiwyd yn 2014**


**Heneiddio yng Nghymru: Trosolwg o safbwynt Ewropeaidd**

**5 blaenoriaeth i wella iechyd a llesiant pobl hŷn yng Nghymru:**

- Cymunedau cyfeillgar i henaint
- Cymunedau sy'n cefnogi Dementia
- Atal codymau
- Unigrwydd ac arwahanrwydd
- Cyfleoedd i ddysgu a gweithio

Gall tai addas i bobl hŷn fod o gymorth i fynd i'r afael â phob un o'r uchod.

## Fframwaith Gwaith Da, Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru





**Cyhoeddwyd yn 2016**

Yn gyffredinol, nod y Fframwaith yw cefnogi pobl i nodi'n rhydd, yn greadigol ac yn gyfrifol beth yw eu hanghenion dysgu a datblygu penodol hwy eu hunain a mynd i'r afael â'r rhain o fewn cyd-destun eu bywydau a'u hamgylchiadau, lle bynnag y digwyddant fod. Bwriad y Fframwaith yw nid cyfyngu pobl drwy ddarparu rhestr rhy ragnodedig o bwy sydd angen gwybod a gwneud beth.

Bwriadwyd i'r Fframwaith hwn gefnogi'r hyn sy'n cyfrif fwyaf i bobl Cymru, yn ogystal ag ysbryd a gofynion polisïau, deddfwriaeth ac arweiniad Cymru ynghylch gofalu, cefnogi a galluogi pobl â dementia, eu gofalwyr a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan





**Ym mis Chwefror 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru**

**'Cynllun Gweithredu Dementia 2018-2022'**

Mae'r Cynllun Gweithredu yn egluro strategaeth glir ar gyfer Cymru i fod yn 'Genedl gyfeillgar i ddementia sy'n cydnabod hawliau pobl sy'n byw gyda dementia i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau'.

## Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan




Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Gwelliant Cymru Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan. Goruchwylir y gwaith hwn, a gyfarwyddir gan ofynion Cynllun Gweithredu Cymru ar Ddementia, gan Grŵp Goruchwylio, Gweithredu ac Effaith Dementia (DOIIG) Llywodraeth Cymru. Bwriadwyd i'r 20 safon fod yn ddeinamig drwy ymateb i werthusiad a thystiolaeth ategol. Maent yn eistedd o fewn pedair thema: **Hygyrch, Ymatebol, Taith, Partneriaethau a Pherthnasoedd a Ategir gan Garedigrwydd a Dealltwriaeth.** Datblygwyd y safonau gan ddefnyddio Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru a bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu Canllaw Fframwaith Cyflawni dwy flynedd ar gyfer y rhanbarthau ledled Cymru dros y cyfnod Ebrill 2021 – Mawrth 2023.

# Darpariaeth Gofal Diwedd Oes benodol ar gyfer dementia y Bwrdd Iechyd – ardal Gorllewin Cymru

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain

Mae Cynllun Cyflawni Gofal Diwedd Oes a Lliniarol Law yn Llaw at Iechyd BIPHDd 2016 -2020 yn amlinellu'r Adnoddau Gofal Diwedd Oes sydd ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo pobl â dementia:

Ffynhonnell: Cynllun Cyflawni Gofal Diwedd Oes a Lliniarol Law yn Llaw at Iechyd BIPHDd 2016 -2020

**Gwasanaethau Presennol:**

- Gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru a hwyluswyd gan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, comisiynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Paul Sartori a Marie Curie i ddarparu hyfforddiant ar Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw a Dementia.
- Mae Uwch Nyrsys Marie Curie yn cynorthwyo cleifion â dementia datblygedig i gael mynediad at wasanaethau gofal lliniarol a diwedd oes ar draws y rhanbarth. Mae'r nyrsys yn cefnogi timau amlddisgyblaethol i gwrdd ag anghenion gofal pobl â dementia yn yr ysbyty, gartref ac mewn cartrefi gofal. Maent hefyd yn helpu i drosglwyddo gofal yn ddiogel ar draws lleoliadau gofal.
- Mae Sefydliad Paul Sartori hefyd yn darparu addysg i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, i'w staff eu hunain ond hefyd i eraill ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys ar bynciau fel dementia.
- Yn Sir Benfro mae aelodau amrywiol o'r tîm hefyd wedi cyfrannu at ddigwyddiadau addysgol eraill, gan gynnwys addysgu am Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw mewn cynhadledd ddementia.

**Meysydd ar gyfer Gwella:**

- Mae angen mwy o waith i ganfod y rhai sy'n byw gyda dementia yn gynnar a darparu'r cymorth sydd ei angen. Bydd hyn yn cynnwys addysg i gydweithwyr ym maes gofal sylfaenol i ystyried pan fydd rhywun â dementia yn nesáu at ddiwedd eu hoes a chynorthwyo i gynnwys y grŵp hwn mewn cofrestrau gofal lliniarol.
- Gwella'r gwaith o ganfod a gofalu'n gynnar am bobl fregus sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys y rheiny â dementia, gyda'r bwriad penodol o gynnal llesiant ac annibyniaeth.
- Cydnabod yr angen i roi ffocws neilltuol i brofiad grwpiau penodol gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau dysgu, dementia, problemau clyw neu olwg a'r rhai sy'n oedrannus ac yn fregus. Mae gofalwyr yn grŵp arbennig o bobl sy'n aml heb eu cydnabod.
- Yn ogystal â datblygu'r Llwybr Cleifion Gofal Hirdymor, mae pob Nyrs Arbenigol Gofal Hirdymor yn datblygu diddordeb arbennig mewn maes neilltuol o arbenigedd; mae'r meysydd hyn yn cynnwys rheoli poen, gofal diwedd oes, gofal dementia, maeth, rheoli meddyginiaeth ac agweddau eraill ar ofal sylfaenol. Defnyddir y sgiliau hyn i gefnogi darparu gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Er bod gwasanaethau yn eu lle yng Ngorllewin Cymru, mae gweithredu blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Dementia Cymru wedi cael eu cynnwys yng nghynllun y rhaglen liniarol a diwedd oes a bydd yn cael effaith sylweddol ar ansawdd gwasanaethau Gofal Diwedd Oes i'r rhai â dementia.

# 4. Beth mae arfer gorau yn ei ddweud wrthym?

# Dementia – meysydd ffocws allweddol

- Nododd yr adolygiad o arfer gorau cenedlaethol a rhyngwladol ac arloesedd mewn dementia, lawer o feysydd o arfer gorau, ymchwil ac arloesi ar draws sbectrwm cyfan gofal dementia.
- Mae dementia yn gyflwr sy'n torri ar draws gwasanaethau system gyfan ac felly'n fusnes i bawb. Mae'n bwysig deall a chydnabod bod angen i wasanaethau dementia gael eu hymgorffori yn y system gyfan o ddarpariaeth.
- Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar feysydd allweddol i ysgogi gwelliant ac arloesedd ar draws Gorllewin Cymru, sef:
  1. Gweithredu strategaethau i gael diagnosis cynnar
     - i. Cynorthwyo meddygon teulu, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (GPPI) a nyrsys i wneud asesiadau a gwella ansawdd atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol
     - ii. Canolbwyntio ar weithredu arfer gorau o fewn gofal cymdeithasol, gofal cartref, cartrefi gofal a gwasanaethau arbenigol
  2. Sefydlu llwybrau gofal, yn enwedig cymorth ôl-ddiagnostig
     - i. Cefnogaeth a chydgysylltiad ar gyfer PBGD a'u gofalwyr
  3. Cynorthwyo gofalwyr i ofalu am aelodau o'r teulu â dementia
     - i. Darparu cefnogaeth, hyfforddiant a chymorth i weithio drwy/cydgysylltu gwasanaethau i deuluoedd, meithrin gwytnwch a chynnal cydbwysedd ar draws pob agwedd ar eu bywyd
  4. Gwella gofal diwedd oes fel bod PBGD yn marw gydag urddas mewn lle o'u dewis
     - i. Cydgysylltiad rhwng darparwyr gofal gwahanol i sicrhau eu bod yn deall y cynllun diwedd oes

# Diagnosis cynnar – yn y gymuned

- **Mae canllawiau NICE yn awgrymu y dylai asesu a diagnosis ddigwydd mewn lleoliadau anarbenigol**. Mae hyn yn cefnogi **modelau rhyngwladol** lle gwneir **diagnosis mewn Gofal Sylfaenol lle bo modd.**
- Gall meddygon teulu, GPPI a nyrsys leihau'r pwysau ar wasanaethau arbenigol drwy;
    - Asesu a gwneud diagnosis mewn gofal sylfaenol
    - Gwella ansawdd atgyfeiriadau i ofal arbenigol
- Meddygon teulu a chydweithwyr o fewn gofal sylfaenol hefyd yn aml yw'r cyswllt cyntaf i rywun sy'n byw gyda dementia, ond dengys llawer o astudiaethau ar draws y DU ac yn rhyngwladol fod diffyg hyder ymhlith meddygon teulu, GPPI a nyrsys o fewn gofal sylfaenol i wneud diagnosis o ddementia
- Gall mwy o hyfforddiant, ymwybyddiaeth a modelau dementia newydd o fewn gofal sylfaenol i gyd helpu tuag at wneud y gorau o gapasiti adnoddau a sicrhau diagnosis o ddementia yn gynt
- Mae rhai modelau diagnosis yn awgrymu dull tair haen 1) asesiad cychwynnol mewn gofal sylfaenol 2) ail asesiad/diagnosis gan arbenigwyr gofal dementia o fewn gofal sylfaenol 3) atgyfeirio i glinigau cof ar gyfer diagnosis dementia.




**Gwella Asesiad / Diagnosis mewn gofal sylfaenol**

- Hyfforddiant i Feddygon Teulu, GPPI a nyrsys wedi ei alinio â Fframwaith 'Gwaith Da' ac arfer gorau rhyngwladol
- Cyllid/fframweithiau yn eu lle i annog Meddygon teulu a GPPI i fynychu hyfforddiant
- Cynyddu hyder meddygon teulu a GPPI i wella diagnosis/ ansawdd atgyfeiriadau dementia i wasanaethau arbenigol
- Fframwaith o gefnogaeth i Feddygon Teulu a GPPI - gan gynnwys pecynnau offer, canllawiau a hyfforddiant rheolaidd
- Mynediad cyflym at arbenigwyr dementia mewn gofal sylfaenol a chlinigau cof arbenigol

# Diagnosis cynnar

Asesiad Gofal Sylfaenol → Arbenigwyr Dementia Gofal Sylfaenol → Gofal Arbenigol

### Gofal Sylfaenol

- Hyfforddiant i feddygon teulu, GPPI a nyrsys yn seiliedig ar y 'Fframwaith Gwaith Da' ar gyfer ymwybyddiaeth o ddementia ac i adnabod arwyddion cynnar dementia
- Hyfforddiant i gynnal rhywfaint o brofion i nodi pobl a allai fod â dementia
- Lleihau straen ar glinigau cof arbenigol drwy wella ansawdd atgyfeiriadau
- Dileu rhwystrau i feddygon teulu a GPPI rhag mynychu hyfforddiant
- Ystyried darparu hyfforddiant ar-lein i wella hygyrchedd

### Arbenigwyr Dementia Gofal Sylfaenol

- Nodi carfan o feddygon teulu, GPPI a nyrsys a all weithredu fel arbenigwyr dementia (e.e. meddygon teulu, GPPI a nyrsys â diddordeb arbennig)
- Hyfforddiant arbenigol ar gyfer arbenigwyr dementia yn seiliedig ar y 'Fframwaith Gwaith Da'
- Gallai pobl a ganfu00wyd mewn gofal sylfaenol gael eu hatgyfeirio i gael asesiad ychwanegol
- Mynediad at offer diagnostig
- Gwella ansawdd atgyfeiriadau i glinigau cof arbenigol

### Clinigau Cof


- Gwasanaethau yn cael eu comisiynu yn unol â fframweithiau
- Gwasanaeth Achredu Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cof (MSNAP)
- Adolygu ac alinio ag arfer gorau o bob rhan o'r DU
- Protocolau sganio ymennydd gwell
- Canolbwyntio ar leihau'r amseroedd rhwng atgyfeirio a diagnosis; a rheoli'r capasiti a'r galw
- Canolbwyntio ar gyfraddau diagnosis
- Cyswllt di-dor â chymorth ôl-ddiagnostig

# Gweithredu Llwybrau Gofal

Mae Cynllun Gweithredu Dementia Cymru yn amlinellu'r angen i ddatblygu llwybrau gofal mwy ffurfiol ar gyfer PBGD ac mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth arfer gorau yn rhyngwladol.

Y model ôl-ddiagnostig yn yr Alban yw'r unig fodel sydd wedi ei ddogfennu ar hyn o bryd sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y byd.

Mae model yr Alban yn amlinellu'r ffordd orau i gefnogi PBGD wrth i'w cyflwr ddatblygu. Gan ddechrau gyda Chymorth Ôl-ddiagnostig (Model y 5 colofn), drwodd i'r Cymorth Seiliedig yn y Gymuned (8 Colofn) a Diwedd Oes (Model Dementia Uwch).




**Mae'r model:**

- Yn galluogi'r unigolyn a'i deulu i ddatblygu cynllun personol cadarn sy'n defnyddio'u rhwydweithiau cefnogi naturiol
- Yn cynnal mecanweithiau cymorth cyfoedion ochr yn ochr a chysylltiadau cymunedol presennol a rhai newydd
- Yn cynorthwyo pobl i fyw'n dda ac yn annibynnol gyda dementia gyhyd ag y bo modd

# Cyd-drefnu Cymorth a gofal

WWCP
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain

- Mae teuluoedd a gofalwyr yn chwarae rhan ganolog wrth alluogi PBGD i fyw'n annibynnol mewn cymunedau gyhyd ag y bo modd
- Hwy fydd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gofal, yn enwedig yn y camau cynnar os cafodd diagnosis cynnar ei wneud – mae strategaeth genedlaethol a rhyngwladol yn canolbwyntio ar yr angen i leihau effaith gofalu am rywun â dementia
- Mae arnynt angen cymorth i feithrin gwytnwch, datblygu'r sgiliau ar gyfer gofalu am rywun sy'n byw gyda dementia a pharhau i allu cynnal ansawdd bywyd y tu allan i'w gofal am y PBGD.
- Mae mynediad at ofal seibiant hyblyg yn hanfodol fel bod teuluoedd a gofalwyr yn gallu cynnal ansawdd bywyd
- Mae cymryd rhan a chefnogi'r aelod o'u teulu â dementia i wneud penderfyniadau ynghylch ei ofal yn hanfodol ac mae deall y gwasanaethau sydd ar gael yn allweddol i gyflawni hyn
- Mae canolfannau dementia yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn llawer o ardaloedd, gan ddarparu un pwynt mynediad a chymorth ar draws ystod o wasanaethau ar gyfer PBGD a'u gofalwyr

**Mae'r gwasanaethau a ddarperir mewn canolfan ddementia yn cynnwys:**

- Staff cefnogi, gan gynnwys gweithwyr cefnogi dementia, nyrsys Admiral ac yn y blaen.
- Grwpiau cymorth ar gyfer PBGD a'u gofalwyr
- Mynediad at wasanaethau dementia lleol
- Rhaglenni hyfforddiant i ofalwyr

- Gweithgareddau ar gyfer PBGD
- Caffi dementia
- Clinigau cof
- Mynediad at gyngor ynghylch cyllid/materion cyfreithiol/budd-daliadau
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil



# Gofal Diwedd Oes

- Yn achos dementia, gall fod yn anodd rhagweld pryd bydd person yn nesáu at farwolaeth. Mae'n bosibl y bydd yn dangos arwyddion sy'n awgrymu ei fod yn agos iawn at farwolaeth ond, mewn gwirionedd, ddangos yr arwyddion hyn am fisoedd lawer, neu hyd yn oed flynyddoedd.
- At hynny, gall y PBGD farw o gyflwr meddygol arall, er enghraifft canser neu glefyd y galon. Gall hefyd gael heintiau a mân afiechydon ar ben y cyflyrau parhaus hyn.
- Gall cyflyrau ac afiechydon eraill olygu bod y person yn derbyn gofal, neu'n marw yn y pen draw, mewn ysbyty neu gyfleuster nad yw'n arbenigo mewn gofal dementia.
- Er bod gwybodaeth am ofal diwedd oes wedi cynyddu'n sylweddol dros y deng mlynedd ddiwethaf, yn enwedig mewn meysydd fel gofal canser, mae llawer o PBGD nad ydynt yn derbyn gofal diwedd oes o ansawdd da.
- Lle bo modd, dylid cynllunio gofal ymlaen llaw fel y gall y PBGD wneud penderfyniadau am ei ofal - mae diagnosis cynnar o ddementia yn chwarae rhan allweddol gan y gall person wneud penderfyniadau am ei ofal diwedd oes ochr yn ochr â theulu/gofalwyr.
- Mae'n bwysig bod cynllunio gofal ymlaen llaw yn rhan lawn o gynlluniau gofal a llesiant personol, cynhwysol, ehangach ar gyfer dementia a bod cymorth ar gael i ofalwyr pan fydd y PBGD yn marw.
- Mae angen dull gweithredu cydgysylltiedig rhwng yr holl sefydliadau sy'n gofalu am y PBGD – fel bod pawb yn deall dymuniadau'r person a sut mae'n dymuno cael gofal ar ddiwedd ei oes



# 5. Adborth o gyfweliadau strwythuredig

Tudalen 25

# Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Datblygwyd y strategaeth hon rhwng mis Chwefror 2021 a mis Ionawr 2022. Cafodd ei harwain gan Attain (darparwr gwasanaethau cymorth iechyd annibynnol) a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ran WWCP i weithio gyda phartneriaid, PBGD a'u gofalwyr i ddatblygu strategaeth dementia, gweledigaeth a Llwybr Llesiant Dementia ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r gwaith wedi cael ei gefnogi'n dda gan randdeiliaid, PBGD a'u gofalwyr o bob rhan o'r rhanbarth, sydd wedi gweithio'n galed iawn i ddarparu gwybodaeth a mewnwelediad lleol, trwy drafodaethau strwythuredig â rhanddeiliaid. Ceir crynodeb o'r themâu a ddeilliodd o'r cyfweliadau ar y tudalennau canlynol.



wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Attain

Llawer o ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn y gwaith hwn:

| Enw |
|---|
| Rheolwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Timau Tîm Adfer Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cyfarwyddwyr gofal cymdeithasol oedolion Cyngor Sir Ceredigion |
| Rheolwyr Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant a Gofal wedi'i Gynllunio |
| Age Cymru Dyfed |
| Fforwm Ymarferwyr Cyngor Sir Penfro |
| Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Fforwm Darparwyr Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Tîm Cyflyrau Hirdymor Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD) |
| Tîm nyrsys Admiral rhanbarthol BIPHDd |
| Tîm Iechyd Meddwl Therapi Galwedigaethol BIPHDd - Oedolion Hŷn |
| Tîm Llesiant Dementia Ysbytai Acíwt BIPHDd |
| Tîm Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn BIPHDd |
| Penaethiaid gwasanaeth – Therapïau BIPHDd |
| Tîm Cymunedol Llesiant Dementia BIPHDd |
| Fforwm Darparwyr Cartrefi Gofal Rhanbarthol |
| Fforwm Sir Benfro Iachach |
| Clwstwr Tywi Taf |
| Clwstwr Aman Gwendraeth |
| Clwstwr Gogledd Ceredigion |
| Clwstwr De Ceredigion |
| Clwstwr Gogledd Sir Benfro |
| De Sir Benfro |

Mawr ddiolch i'r 16 o ofalwyr a roddodd eu hamser i ddarparu gwybodaeth am brofiadau'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn ogystal â'u profiad hwy eu hunain fel gofalwyr – ni fyddai'r strategaeth hon wedi bod yn bosibl heb eich cyfraniad chi.



21

## Mae'r themâu a ddeilliodd o'r cyfweliadau gyda gofalwyr wedi dylanwadu ar ddatblygiad llwybr y model gwasanaeth a'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn.

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain

| Llesiant, lleihau risg a gohirio cychwyniad, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth | | Adnabod, nodi a chymorth cychwynnol | | Asesiad a diagnosis |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant – Gorfod ei weithio allan eich hun yn bennaf yn enwedig ar ôl gadael yr ysbyty gyda cathetr. Roedd hynny yn hunllef llwyr | Mae gofalwyr angen hyfforddiant sut i ddelio ac ymdopi â'r person. Rydw i'n dysgu wrth fynd ymlaen. | Roedd yn rhaid imi weithio allan beth i'w wneud. Ein materion ariannol, busnes, popeth. Roedd yn drech na fi. | Dim gwybodaeth, cyngor na chymorth. Dim ond yn ddiweddar mae pobl yn dechrau fy helpu fi. | Methu â chael neb i gydnabod y diagnosis |
| Dim hyfforddiant o gwbl – gorfod dod o hyd i'r wybodaeth fy hun. Llawer o daflenni ond roedd arnaf angen rhywun fyddai'n eistedd i lawr efo fi ac yn egluro pethau. | Gormod braidd o alwadau ffôn dryslyd oddi wrth gymdeithas gofalwyr. Dim cymorth gan y Meddyg Teulu na chymdeithas y gofalwyr | Baglu ymlaen yn y tywyllwch. Digwydd cael cymorth wrth holi ynghylch y dreth gyngor | Roedd y wybodaeth a'r cyngor ar y dechrau yn wych ond doedd yna ddim meddwl cydgysylltiedig | Mynd at y Meddyg Teulu a chael diagnosis o ddementia – eisiau atgyfeiriad at y gwasanaethau iechyd meddwl rhag ofn bod modd cael trin y dementia. Cymerodd 2 flynedd |
| Cymerodd oesoedd i gysylltu â'r nyrs anymataliaeth. Yn awr yn ceisio cael drwodd at y deintydd | Dim gwybodaeth – roeddwn yn amharod i gael cymorth, roeddwn i'n meddwl y medrwn ymdopi. Ond roedd mor ddigalon | Mae gen i gymaint o waith papur, rydw i'n anghofio beth ydy beth. Hanner yr amser dydw i ddim yn gwybod beth i'w wneud a does arnaf i ddim eisiau sôn am y peth o hyd | Mae ar ofalwyr a PBGD angen gwybodaeth glir a hawdd ei deall sy'n eu cysylltu â grwpiau cyfoedion lleol am gymorth ar y dechrau | Dydw i erioed wedi deall y diagnosis. Dydw i ddim yn deall pa fath o ddementia sydd ganddo. Fe hoffwn i wybod pa fath o ddementia sydd ganddo. |
| Roedd canolfan ddydd yn arfer bod yn ein llyfrgell leol. Fe fyddai'n ddefnyddiol cael canolfan ddydd i fynd iddi (Aberystwyth) | Roedd gwybodaeth a hyfforddiant Llanelli dros 4 wythnos yn gymorth mawr – cyfeiriadau, rhifau, gwefannau, gwasanaethau | Pa ddarpariaeth sydd yna i amddiffyn pobl â dementia sy'n byw ar eu pen eu hunain? Dylent fod yn uchel ar y rhestr mewn meddygfeydd meddygon teulu oherwydd eu bod yn fregus. | Y bobl orau sydd wedi helpu – cymdeithas Alzheimer's, maen nhw'n ffonio bob mis ac yn rhoi cyngor sut i hawlio lwfans gofalu | Dim meddwl cydgysylltiedig yn yr adran Seiciatrig. Dim ond ein trosglwyddo i'r meddyg teulu, oedd yn gwneud dim |

# Mae'r themâu a ddeilliodd o'r cyfweliadau gyda gofalwyr wedi dylanwadu ar ddatblygiad llwybr y model gwasanaeth a'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn.

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain

## Asesiad a diagnosis

## Byw yn dda gyda dementia

## Yr angen am fwy o gymorth

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fe welsom ni gymaint o bobl yn y 12 mis cyntaf. Y cyswllt cyntaf oedd crossroads a chawsom ein cyfeirio at lawer o weithgareddau gwahanol e.e. Caffi dementia | Byddai'n braf cael person i ddatrys fy mhroblemau yn lle fy mod yn ceisio eu datrys fy hun a dod o hyd i'r ffordd | COVID – Wedi gwneud pethau 10 gwaith yn waeth gan na fedrwch chi weld neb. Mae gwasanaeth dydd yng Ngheredigian wedi cau a byddai wedi bod yn dda gallu mynd â hi yno | Roeddwn i'n arfer gwneud zoom - cerddoriaeth – cymryd dim sylw. Doedd o ddim yn gweithio i fy ngŵr ac mae gofalwyr eraill wedi dweud nad ydy zoom yn gweithio mewn gwirionedd i bobl â dementia | Daeth nyrs Admiral allan a mynd gyda'r gofalwyr i weld mam i'w cynorthwyo yn eu gwaith gofalu – os bydd mam yn gwrthod byddwn yn ei adael i'r teulu |
| Cefais ddiagnosis yn 2019. Gwelais yr ymgynghorydd ddwywaith a chefais bresgripsiwn a dydw i ddim wedi gweld neb ers hynny | Dydy o ddim yn ymddangos bod yna weithgareddau – rydym ni mewn ardal eithaf gwledig ac mae'n rhaid teithio am hanner awr i fynd i unrhyw le (Ceredigion) | Byddai'n dda cael canolfan ddydd benodol ar gyfer pobl â dementia neu fod pobl yno i gynorthwyo pobl â dementia | Mae angen i ymgynghorwyr mewn ysbytai gael eu hyfforddi am bŵer atwrnai ar gyfer iechyd. Mae ar staff ysbytai angen hyfforddiant – fe gollon nhw ei sbectol, ei gymhorthion clyw a'i ddannedd gwaelod | Mae pawb wedi bod yn wych ers i dad syrthio – gweithiwr cymdeithasol, fe wnaeth hi weithredu ar unwaith a thrafod gyda'r ysbyty a chael lle iddo mewn cartref nyrsio. |
| Cefais lwyth o daflenni a llawer o alwadau ffôn ond doedd gen i ddim syniad pwy oedden nhw, roedd yn gam i mewn i bwll dwfn iawn. | Mae cymaint o wasanaethau yn darparu cymorth ond ddim yn siarad â'i gilydd ac felly mae'n rhaid i mi ddweud wrthynt beth sydd wedi digwydd | Wedi dod drwy'r cyfnod clo heb seibiant a llai o seibiant yn awr. Wnewch chi ailsefydlu'r holl gyfleusterau gofal dydd, os gwelwch yn dda. Mae ar y gofalwyr a'r bobl â dementia eu hangen. | Rydw i'n byw y tu allan i'r ardal ac yn ei chael yn anodd gwybod pa wasanaethau sydd yna yn ardal fy mam. Mae meddygfa'r meddyg teulu yn ceisio cadw mewn cysylltiad | Euogrwydd a straen pan oedd raid iddo fynd i gartref, methiant, cwestiynu addunedau priodas – cael fy nhorri rhwng rhyddhad ac euogrwydd |
| Yn 2019 fe geisiodd y meddyg wneud prawf dementia ond doedd fy ngŵr ddim yn gallu clywed. Gofynnais am atgyfeiriad i'r ysbyty. Cafodd ei atgyfeirio ymhen blwyddyn | Yn awr ei fod wedi cael y diagnosis, rydw i'n teimlo y gallaf alw ar bobl ond does yna ddim lle i fynd. Gallwn fod yn eistedd yn y tŷ am 5 diwrnod yr wythnos – does yna ddim byd (Sir Gaerfyrddin) | Gofynnodd mwy nag un gofalwr am weithgareddau oedd ar gyfer pobl iau. Anfonwyd rhestr o weithgareddau i ofalwyr bob wythnos yn wych a llawer o bethau i'w gwneud yn Sir Benfro (Sir Benfro) | Taliad uniongyrchol: ardderchog gan y medrwch chi gael yr arian ond dim werth os na ellwch chi gael y gofal yn ei le | Siomedig iawn yn y gofal – ward arbenigol dementia oedd hi ond dim triniaeth benodol. Dim hyd yn oed yn sicrhau ei fod yn bwyta ac yn yfed. |

## Mae'r themâu a ddeilliodd o'r cyfweliadau gyda staff y rheng flaen wedi dylanwadu ar ddatblygiad llwybr y model gwasanaeth a'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn.

wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

Attain

| Llesiant, lleihau risg a gohirio cychwyniad, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth | | Adnabod, nodi a chymorth cychwynnol | | Asesiad a diagnosis |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen inni ddeall yn glir beth sy'n digwydd pan fydd pobl yn cael gwybodaeth e.e. at bwy y gallant droi am gymorth? | Gall staff derbynfa a meddyg teulu gyfeirio pobl am help gan wasanaethau'r 3ydd sector | Mae pobl yn dod i argyfwng ond heb gael diagnosis – anodd cael cymorth iechyd parhaus heb ddiagnosis | Dylid darparu cymorth waeth beth fo'r diagnosis, gan gynnwys cymorth iechyd parhaus , gan ei fod yn seiliedig ar angen | Hyfforddiant ar gyfer pawb- dealltwriaeth sylfaenol i reoli ymddygiadau cymhleth – galluogi pobl i adnabod arwyddion, beth i'w ddisgwyl i gynorthwyo PBGD |
| Mae angen inni gynyddu'r defnydd o DEWIS ar draws y rhanbarth gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd | Mae gohirio pethau yn arwain at dderbyniadau brys ac mae gan y rhai a dderbynnir gyflyrau mwy cronig | Mae angen datblygu a chyd-drefnu gweithgareddau cymunedol – Mae Sir Benfro'n fwy aeddfed | Mae llawer o fudiadau a chymunedau a gall fod yn rhwystr i PBGD/gofalwyr gael mynediad | Mae arnom angen dull safonol o gael diagnosis waeth ble y bydd yn digwydd |
| Mae gweld meddyg teulu, deintydd, clinigau clyw wedi mynd yn fwy anodd ers COVID – mae pobl yn wynebu rhwystrau sy'n cynyddu'r straen i'r gofalwr | Cynorthwyo staff cartrefi gofal drwy ddarparu gwybodaeth onest wrth ryddhau fel y gallant gwrdd â holl anghenion yr unigolyn. Cynorthwyo staff drwy hyfforddiant | Gallai tîm amlddisgyblaethol seiliedig mewn gofal sylfaenol wneud diagnosis yn uniongyrchol. Dylai Arbenigwr Asesu Meddygol ganolbwyntio ar ddiagnosis arbenigol | Mae ar ofalwyr a PBGD angen gwybodaeth glir a hawdd ei deall sy'n eu cysylltu â grwpiau cyfoedion lleol am gefnogaeth o'r cychwyn | Mae arnom angen llwybr asesu/diagnosis clir sydd y tu allan i'r gwasanaethau iechyd meddwl |
| Mae angen hyfforddi'r **holl staff** gan gynnwys gofal cartref a chartrefi gofal i adnabod arwyddion dementia, yn enwedig yn y rheiny sy'n fyddar, yn ddall ac yn siarad Cymraeg | Mae angen inni godi ymwybyddiaeth o ddementia cynnar ac mae angen llwybr a chynnig gwasanaeth clir | Mae mynediad at rwydweithiau lleol yn well mewn rhai ardaloedd nag eraill. Does dim dull strategol rhanbarthol o gefnogi gofalwyr | Sut mae pobl yn cael cymorth heb ddiagnosis? Mae Dementia yn cael ei ystyried ar wahân ond ddylai hynny ddim digwydd, mae'n rhan o fod yn fregus | Mae angen cysondeb yn y ffordd y mae pobl yn cael apwyntiadau meddyg teulu – efallai na fydd PBGD yn gallu cael heibio'r dderbynwraig neu'r brysbennu |

# Mae'r themâu a ddeilliodd o'r cyfweliadau gyda staff y rheng flaen wedi dylanwadu ar ddatblygiad llwybr y model gwasanaeth a'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn

.

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

## Asesiad a diagnosis

- Angen proses ffurfiol ar gyfer diagnosis ymgynghorydd gofal eilaidd a chod darllen wedi ei gynnwys yn y rhyddhad – sut mae cartrefi gofal a meddygon teulu yn cael gwybod
- Ydy hi'n bosibl datblygu: asesiad gwybyddiaeth ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg, pobl sy'n ddall ac asesiad cyflym ar gyfer dementia?
- Wrth i'r cyflwr ddatblygu mae'r trosglwyddo i'r gwasanaeth iechyd yn aml yn anodd ac angen bod yn well. Mae pobl mewn argyfwng ond ddim yn cael diagnosis
- Credu na all ddigwydd ond mewn lleoliad meddygol arbenigol. Mae angen dull tîm amlddisgyblaethol i gael diagnosis a rhagnodi yn y gymuned e.e. Meddygon Teulu /GPPI wedi eu hyfforddi'n llawn

## Byw yn dda gyda dementia

- Cynllunio gofal rhagweithiol cyfannol drwy dîm amlddisgyblaethol – dull cyson ar draws y rhanbarth, darparu cynllun cymorth a llesiant o gwmpas y person
- Efallai y bydd gwasanaethau dydd rhithwir yn gofyn am i ofalwr fod yn bresennol i hwyluso. Mae PBGD yn elwa o fod mewn grwpiau heb y gofalwr
- A all gofal cymdeithasol a'r 3ydd sector ddod yn rhan o'r tîm llesiant rhanbarthol?
- Y peth cyffredinol nad yw'n cael ei drafod yw'r gofal cofleidiol sylfaenol o amgylch y person, cyd-drefnydd ar hyd y daith
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg ar gyfer gweithwyr proffesiynol, PBGD a'u gofalwyr e.e. Cysylltu gofalwyr â chymorth drwy AP ar iPad gwely'r ysbyty
- Cynyddu llesiant y cleifion tra byddant yn yr ysbyty drwy restr wirio derbyniadau – wedi cael diagnosis, diagnosis i ddod ac yn y blaen. - defnydd gwell o Dîm Llesiant Dementia yn y Ward aciwt
- Mae angen dull cyson o fonitro, adolygu a rhagnodi meddyginiaeth mewn gofal sylfaenol ar draws y rhanbarth
- Mae llawer o bethau'n cael eu cynnig i ofalwyr ond dydy ffrwd gyllido gofalwyr y Gronfa heb ei chysylltu â ffrwd dementia'r Gronfa ac felly mae ymdrech yn cael ei dyblygu

## Yr angen am fwy o gefnogaeth

- Addysg - Hyfforddiant a chyngor gan Dîm Llesiant Dementia (DWT), ystyried ehangu'r aelodaeth i gynnwys gofal cymdeithasol a'r 3ydd sector
- Mae angen inni fod yn glir y bydd unrhyw ffordd newydd o weithio angen cael ei hariannu'n llawn
- Gall cydweithwyr cludiant cymunedol fod o gymorth i dimau amlddisgyblaethol drwy ddarparu gwybodaeth berthnasol ynghylch y claf
- Angen sicrhau bod cyflogwyr yn asesu ar gyfer addasiadau rhesymol ac yn eu gweithredu er mwyn galluogi gwasanaethau'r PBGD i weithio
- Cynllun gofal a chynllun gofal brys yn ei le ar gyfer y gofalwr
- Mae angen hyfforddiant ar mewn ymyriadau ymddygiadol gyfer gofalwyr a darparwyr gofal cartref– gan atal lleoliadau preswyl dianghenraid
- Gall offeryn adnabod Dementia fod o gymorth i ddatblygu cynlluniau rheoli ymddygiad, ymddygiadau allweddol a pha ymyriadau y ceir eu defnyddio
- Mae llawer o sefydliadau yn mynd i mewn i gartrefi pobl ac nid ydynt yn siarad â'i gilydd ac felly mae pobl yn gorfod ailadrodd eu hunain o hyd

Ceir themâu pellach yn deillio o sgyrsiau cychwynnol gyda rhanddeiliaid yn atodiad 2

# 6. Gweledigaeth a Llwybr Llesiant Gwasanaeth Dementia Gorllewin Cymru

**Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys gweledigaeth a Llwybr Llesiant y gwasanaeth dementia sy'n adeiladu ar adroddiad ymchwil Attain ar arfer gorau a ddosbarthwyd ym mis Ionawr 2021. Mae'r llwybr model gwasanaeth hwn wedi ymdrechu i ymgorffori gwasanaethau presennol yng Ngorllewin Cymru. Cafodd gweledigaeth a Llwybr Llesiant y gwasanaeth eu cydgynllunio drwy ymgysylltu â staff o bob cwr o'r rhanbarth, PBGD a'u gofalwyr.**

Cynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan 2018-2022: Fel llofnodwr i Ddatganiad Glasgow (1) mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o'r blaen i hyrwyddo hawliau, urddas ac ymreolaeth pobl sy'n byw gyda dementia. Trwy eu hymgysylltiad â rhanddeiliaid clywsant am waith cadarnhaol Dementia Action Alliance wrth ddatblygu cyfres o ddatganiadau gyda phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr (2). Rydym wedi cysoni'r datganiadau hyn â'n Llwybr Llesiant Dementia.

1) https://link.edgepilot.com/s/67f68721/ecxOvtDsBECT3n7Rjlzvhg?u=https://www.alzheimer-europe.org/Policy/Glasgow-Declaration-2014
2) https://link.edgepilot.com/s/8d37d66b/NmKURNiXoUaKCjtzSUiWhQ?u=https://www.dementiaaction.org.uk/nationaldementiadeclaration

# DRAFFT –Gweledigaeth Gorllewin Cymru ar gyfer gwasanaethau dementia

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

***'Cefnogi pob unigolyn i fyw yn dda ac yn annibynnol gyda dementia gyhyd ag y bo modd'***

**Elfennau allweddol i wneud cyflawni'n bosibl**


Cymorth gofal dementia arbenigol – yn y gymuned ac yn yr ysbyty

Gofal canolraddol i gefnogi pobl ar adeg o angen cynyddol. Rydym yn cynyddu cysur a llesiant – gan gynorthwyo pobl yn eu cartrefi eu hunain

Gofal rhagweithiol a Chynllunio Gofal fel tîm amlddisgyblaethol Gofal yn cael ei gyd-drefnu i sicrhau'r cymorth iawn ar yr amser iawn.

Atal, Cynllunio ac Addysg yn ein cymunedau

Cymunedau'n barod i gefnogi a chynorthwyo




- **Gweledigaeth**, **strategaeth** a **model gwasanaeth dementia rhanbarthol** clir yn unol ag arfer gorau.
- Datblygu arweinyddiaeth a **llywodraeth** broffesiynol a chlinigol **effeithiol** i sicrhau bod y model gwasanaeth a **swyddogaethau newydd** wedi eu cynllunio yn unol ag arfer gorau ac yn **rhan o'r holl system iechyd a gofal cymdeithasol**
- **Trefniadau comisiynu** strategol a chydweithredol **sy'n canolbwyntio ar y PBGD/gofalwr**
- Gweithio ar draws sefydliadau
- **Rheolaeth ariannol** a **rheoli perfformiad ar y cyd**

---

- **Cydgomisiynu** ar gyfer **gofal integredig**, sy'n sicrhau **mynediad** a **darpariaeth deg ar draws Gorllewin Cymru**
- **Gwneud y defnydd gorau o'r ystâd** – adeiladu ar gymunedau a **darparu cymorth yn nes adref** e.e. Mannau cyfarfod/ canolfannau lleol lle gall pobl gysylltu
- **Addasu TG** fel ei fod yn adlewyrchu gweithgaredd ac yn **sicrhau canlyniadau unigolyn-ganolog.**
- Rhaglenni a chynlluniau **cyffredin i drawsnewid y system**
- **PBGD** a'u **gofalwyr** a'r gymuned i gael eu **cynnwys yn systematig** wrth **gynllunio** a **datblygu'r model gwasanaeth newydd**

---

- Ffyrdd newydd o weithio yn ehangu capasiti fframwaith hyfforddiant Gwaith Da a **swyddogaethau newydd yn y gweithlu** e.e. **Swydd cysylltydd llesiant dementia**
- **Defnyddio technoleg i rymuso PBGD** a'u **gofalwyr** a'n **staff** ninnau.
- **Comisiynu** a darparu **gwasanaethau gofal sylfaenol ar raddfa fawr**
- Dehongli **data iechyd / gofal cymdeithasol y boblogaeth,**
- **Adborth PBGD/teulu**, cynllunio gwasanaethau ar gyfer rhwydweithiau **a thynnu cymorth i mewn oddi wrth wasanaethau ehangach**

# Sut mae da yn edrych ar gyfer Gorllewin Cymru – Llwybr Llesiant Dementia

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Gan weithio gyda **phartneriaid ar draws Gorllewin Cymru** rydym wedi datblygu **ein Llwybr Llesiant Dementia gyda'n gilydd** gan ganolbwyntio ar **symleiddio llwybrau** a **gosod y Bobl sy'n byw gyda Dementia** a'u **gofalwyr wrth ganol** y **gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu**. Byddwn yn **gweithredu strategaethau** i **gynyddu diagnosis cynnar**, gan **gefnogi meddygon teulu** a **GPPI** mewn **gofal sylfaenol** gyda **mewnbwn arbenigol lle bo angen** fel rhan o **ddull tîm amlddisgyblaethol** o **asesu a diagnosis cymunedol** ac i **wella ansawdd atgyfeiriadau** i **wasanaethau arbenigol**.

**Byddwn yn canolbwyntio ar weithredu arfer gorau o fewn gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol, cartrefi gofal, gofal cartref a gwasanaethau arbenigol**. Bydd gweithredu'r **Llwybr Llesiant Dementia** yn cynnwys datblygu'r llwybr diagnostig a chymorth ôl-ddiagnostig, **cymorth a chydgysylltu ar gyfer PBGD a'u gofalwyr** a chefnogi gofalwyr i ofalu am aelodau o'r teulu sy'n byw gyda dementia. Byddwn yn darparu **cymorth, hyfforddiant a chymorth i weithio drwy/cydgysylltu gwasanaethau i deuluoedd, meithrin gwydnwch** a **chadw cydbwysedd ar draws pob agwedd ar eu bywyd**. Byddwn yn **gwella gofal diwedd oes** fel bod **PBGD yn marw** gydag **urddas yn y lle o'u dewis**, ac **yn gwella cydgysylltu ar draws gwahanol ddarparwyr gofal i sicrhau eu bod yn deall y cynllun gofal diwedd oes**.

# Cynllun Gweithredu Dementia Cymru 2018-22

Fel llofnodwr i Ddatganiad Glasgow (1) mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o'r blaen i hyrwyddo hawliau, urddas ac ymreolaeth pobl sy'n byw gyda dementia. Trwy ymgysylltiad y Llywodraeth â rhanddeiliaid, clywsant am waith cadarnhaol y Gynghrair Gweithredu Dementia yn datblygu cyfres o ddatganiadau gyda phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr (2).

Mae Datganiadau Dementia yn adlewyrchu'r pethau y mae pobl â dementia a gofalwyr yn dweud sy'n hanfodol i ansawdd eu bywyd. Datblygwyd y datganiadau hyn gan bobl â dementia a'u gofalwyr, ac mae'r person â dementia yn ganolog i'r datganiadau hyn. Mae'r "ni" a ddefnyddir yn y datganiadau hyn yn cwmpasu pobl ag unrhyw fath o ddementia waeth beth fo'u hoedran, cam neu ddifrifoldeb; eu gofalwyr; teuluoedd; a phawb arall y mae dementia yn effeithio arnynt.

Mae'r hawliau hyn wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf Cydraddoldeb, deddfwriaeth Galluedd Meddyliol, deddfwriaeth Iechyd a gofal a chyfraith Hawliau Dynol Rhyngwladol ac maent yn alwad uchel i wella bywydau pobl â dementia. Mae'r Datganiadau hyn yn cydnabod na ddylai pobl â dementia gael eu trin yn wahanol oherwydd eu diagnosis.

Rydym wedi cysoni'r datganiadau dementia â Llwybr Llesiant Dementia newydd Gorllewin Cymru ac mae'r argymhellion yn y strategaeth hon hefyd wedi'u halinio.

Am fwy o wybodaeth gweler:


1. https://link.edgepilot.com/s/67f68721/ecxOvtDsBECT3n7RjIzvhg?u=https://www.alzheimer-europe.org/Policy/Glasgow-Declaration-2014
2. https://link.edgepilot.com/s/8d37d66b/NmKURNiXoUaKCjtzSUiWhQ?u=https://www.dementiaaction.org.uk/nationaldementiadeclaration

# Sut mae da yn edrych i Orllewin Cymru– Llwybr llesiant dementia drafft

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

**Llesiant, lleihau risg, gohirio cychwyniad, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth**

**Creu cymunedau cyfeillgar i ddementia, gwneud dementia yn fusnes i bawb**
Mae gennym yr hawl i barhau â bywyd o ddydd i ddydd a bywyd teuluol, heb wahaniaethu na chost annheg, i gael ein derbyn a'u cynnwys yn ein cymunedau a pheidio â byw ar wahân neu'n unig.





Yn seiliedig ar gynllun cyfathrebu, adnabod arbenigwyr drwy brofiad, mynediad at dechnoleg gynorthwyol. Gweithredu Fframweithiau Hyfforddiant Adnabod a Gwaith Da

# Sut mae da yn edrych i Orllewin Cymru–Llwybr llesiant dementia drafft

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Attain

## Adnabod, Nodi, Cefnogi a Hyfforddiant

**Mae pob person yn cael mynediad teg at ofal, waeth beth fo'r diagnosis**
Mae gennym yr hawl i gael ein hadnabod fel pwy ydym, i wneud dewisiadau ynghylch ein bywydau gan gynnwys cymryd risg, ac i gyfrannu i gymdeithas. Ni ddylai ein diagnosis ein diffinio, ac ni ddylem ychwaith fod â chywilydd ohono.





Yn seiliedig ar gynllun cyfathrebu, adnabod arbenigwyr drwy brofiad, mynediad at dechnoleg gynorthwyol. Gweithredu Fframweithiau Hyfforddiant Adnabod a Gwaith Da

# Sut mae da yn edrych i Orllewin Cymru– Llwybr llesiant dementia drafft

## Asesiad a diagnosis

**Caiff pob person ei weld fel unigolyn**
Mae gennym yr hawl i ddiagnosis cynnar a chywir, ac i dderbyn gofal a thriniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn briodol, yn dosturiol ac wedi'i ariannu'n briodol, gan bobl hyfforddedig sy'n ein deall a sut mae dementia yn effeithio arnom. Rhaid i hyn gwrdd â'n hanghenion, lle bynnag yr ydym yn byw.





Yn seiliedig ar gynllun cyfathrebu, adnabod arbenigwyr drwy brofiad, mynediad at dechnoleg gynorthwyol. Gweithredu Fframweithiau Hyfforddiant Adnabod a Gwaith Da

# Sut mae da yn edrych i Orllewin Cymru– Llwybr llesiant dementia drafft

## Byw yn dda gyda dementia

**Gofal yn cael ei gyd-drefnu**

Mae gennym yr hawl i gael ein parchu, a'n cydnabod fel partneriaid mewn gofal, i gael addysg, cymorth, gwasanaethau a hyfforddiant sy'n ein galluogi i gynllunio a gwneud penderfyniadau am y dyfodol. Mae gennym yr hawl i wybod a phenderfynu a ydym am fod yn rhan o ymchwil sy'n edrych ar achos, iachâd a gofalu am ddementia a chael ein cynorthwyo i gymryd rhan.




wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

Attain

Cynllunio gofal rhagweithiol CYFANNOL drwy dîm amlddisgyblaethol (cydweithwyr yn cael eu galluogi i fynychu'n rhithwir) – dull gweithredu rhanbarthol cyson, gan ddarparu cymorth sefydlog a chynllun llesiant o amgylch y person a'i ofalwr, lle bo'n briodol, waeth beth fo'r diagnosis gan gynnwys:

- Cysylltydd llesiant dementia
- Meddyg Teulu
- Eiriolwr
- Gofal cymdeithasol
- Nyrs Ardal(DN)
- GPPI e.e. Therapydd Galwedigaethol ffisiotherapydd, dietegydd, therapydd iaith a lleferydd ac yn y blaen
- Gweithwyr allweddol/ Arweinydd technoleg gynorthwyol
- Nyrs Admiral
- Gofal Sylfaenol
- 3ydd sector
- Fferyllydd
- Seicolegydd
- Cartrefi gofal
- Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Iechyd Meddwl Oedolion ar gyfer dementia cynnar
- Cyngor ynghylch hyfforddiant fel bo angen gan DWTs yn y gymuned a lleoliadau aciwt
- Gofal eilaidd ac ymgynghorwyr SPC fel bo angen


Yn seiliedig ar gynllun cyfathrebu, adnabod arbenigwyr drwy brofiad, mynediad at dechnoleg gynorthwyol. Gweithredu Fframweithiau Hyfforddiant Adnabod a Gwaith Da

# Sut mae da yn edrych i Orllewin Cymru– Llwybr llesiant dementia drafft

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Attain

## Mwy o gymorth pan fyddwch ei angen

**Mae'r staff I gyd yn barod i ofalu**
Ble bynnag ydw i, mae staff iechyd a gofal yn dod ag empathi, sgiliau ac arbenigedd ac yn rhoi gofal cymwys, hyderus a thosturiol i mi.




Cynllunio gofal rhagweithiol trwy dîm amlddisgyblaethol CYFANNOL (cydweithwyr yn cael eu galluogi i fynychu'n rhithwir) – dull gweithredu rhanbarthol cyson, gan ddarparu cymorth sefydlog a chynllun llesiant o amgylch y person a, lle bo'n briodol, ei ofalwr, waeth beth fo'r diagnosis gan gynnwys:


- Cysylltydd llesiant dementia
- Meddyg Teulu
- Eiriolwr
- Gofal cymdeithasol
- Nyrs Ardal(DN)
- GPPI e.e. Therapydd Galwedigaethol, ffisiotherapydd, dietegydd, therapydd iaith a lleferydd ac yn y blaen
- Gweithwyr allweddol/ Arweinydd technoleg gynorthwyol
- Nyrs Admiral
- Gofal Sylfaenol
- 3ydd sector
- Fferyllydd
- Seicolegydd
- Cartrefi gofal
- Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Iechyd Meddwl Oedolion ar gyfer dementia cynnar
- Cyngor ynghylch hyfforddiant fel bo angen gan dimau llesiant dementia yn y gymuned a lleoliadau aciwt
- Gofal eilaidd ac ymgynghorwyr SPC fel bo angen


**Gweithredu'r Fframwaith Gwaith Da** – mae angen inni ystyried **anghenion dysgu a datblygu pawb** y mae **dementia yn effeithio arnynt** mewn rhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr, staff rheng flaen, rheolwyr, comisiynwyr, rheoleiddwyr, ymchwilwyr, siopwyr, cymdogion drws nesaf ac yn y blaen.
Mae hyn yn arwain at bobl **wybodus**, pobl **fedrus** a phobl a **all weithredu fel dylanwadwyr**

**Yn cael ei danategu gan gynllun cyfathrebu, adnabod arbenigwyr drwy brofiad, mynediad at dechnoleg gynorthwyol ac yn y blaen. Gweithredu'r Fframweithiau Hyfforddiant Gwaith Da ac Adnabod**

# Sut mae da yn edrych i Orllewin Cymru– Llwybr llesiant dementia drafft

- Mae'r llwybr hwn yn gosod y PBGD a'i ofalwr wrth ganol cymorth y gwasanaeth. Mae'n dangos ffordd newydd fwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau. Mae'n seiliedig ar arfer gorau a gwasanaethau presennol yng Ngorllewin Cymru.
- Dylai'r model gwasanaeth gael ei ategu gan gyfres o weithdrefnau gweithredu gwasanaeth cytunedig y mae angen eu datblygu

















Yn cael ei danategu gan gynllun cyfathrebu, adnabod arbenigwyr drwy brofiad, mynediad at dechnoleg gynorthwyol ac yn y blaen. Gweithredu'r Fframweithiau Hyfforddiant Gwaith Da ac Adnabod

# Gwasanaethau sy'n cyd-fynd â'r llwybr llesiant dementia

Attain

## Llesiant, lleihau risg a gohirio cychwyniad, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

**Gwasanaethau pob dydd:**

- Rhwydweithiau a gweithgareddau cymunedol
- Gweithgareddau chwaraeon a hamdden
- Gweithgareddau iechyd a'r celfyddydau
- Llyfrgelloedd
- Sinemâu
- Siopau
- Meddygfeydd meddygon teulu
- Yr heddlu
- Y Gwasanaeth Tân
- Deintyddion
- Optegwyr
- Awdiolegwyr
- Fferyllwyr
- Addysg
- Tai
- Cludiant

## Adnabod, nodi, cymorth a hyfforddiant

**Gwybodaeth Cyngor a Chymorth – cyfrifoldeb statudol yr Awdurdod Lleol. Darperir cyngor a gwybodaeth cychwynnol wrth y pwynt mynediad cyntaf i ofal cymdeithasol.**

- Delta – ar gyfer Sir Caerfyrddin,
- Porth Gofal ar gyfer Ceredigion
- XXX ar gyfer Sir Benfro.
- Rhwydweithiau Cymunedol
- Gwasanaethau/gweithgareddau 'r 3ydd sector
- Cysylltwyr llesiant cymunedol/ dementia /rhagnodwyr cymdeithasol
- Staff yr awdurdod lleol e.e. gweithwyr cefnogi gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol, gofal cartref, Delta Connect,
- Meddygon Teulu a staff gofal sylfaenol
- Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd
- Nyrsys ardal
- Timau CRT/ART Cartrefi gofal
- Cludiant cymunedol
- Staff iechyd ysbyty
- Gwasanaeth ambiwlans Cymru
- Gwasanaethau pob dydd

## Asesiad a diagnosis

**Asesiad Tîm Amlddisgyblaethol (MDT) yn y gymuned gan staff hyfforddedig gyda chymorth gan MAS. Asesiad MAS yn yr ysbyty ar gyfer diagnosis arbenigol**

- MDT Cymunedol : Cysylltydd Llesiant Dementia , Meddygon Teulu, gweithwyr i gyd wedi derbyn hyfforddiant llawn) gweler y rhestr ar olwyn 3 MAS – seiliedig yn y gymuned
- MAS seiliedig yn yr ysbyty
- 3ydd sector – gwybodaeth gychwynnol a chymorth yn dilyn diagnosis
- Nyrs Admiral

## Byw yn dda gyda dementia

**Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol Cymunedol yn cynllunio gofal yn rhagweithiol gyda'r cydlynydd dementia**

- Gweithgareddau llesiant unigolyn ganolog ar gael ar draws y 3 sir i ateb anghenion y PBGD, yn hen ac yn ifanc.
- Gwasanaethau pob dydd

## Mwy o gymorth pan fydd arnoch ei angen

**Mynediad amserol at wasanaethau gan gynnwys asesiad CHC, pecynnau cymorth yn cael eu cytuno waeth beth fo'r diagnosis dementia**

- Cysylltydd llesiant dementia
- Nyrs Admiral
- CRT/ART – iechyd a gofal cymdeithasol
- Staff yr awdurdod lleol e.e. gweithwyr cefnogi gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol, gofal cartref, Delta Connect
- Cartrefi gofal
- Meddygon Teulu a staff gofal sylfaenol
- Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd
- Nyrsys ardal
- Gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol
- Gwasanaethau llesiant dementia cymunedol
- Gwasanaethau llesiant dementia ysbytai

**Dylai pobl â nam gwybyddol allu bod mor annibynnol â phosibl gyda phobl yn eu cefnogi yn eu bywyd bob dydd. Dylai mynediad at wasanaethau a chymorth fod ar gael waeth beth fo'r diagnosis. Mae'r llwybr wedi'i gynllunio i alluogi gofal cofleidiol i'r PBGD a'u gofalwr, gyda phobl yn cael mynediad at gymorth pan fydd arnynt ei angen**

WWCP
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain

# 7. Ein dull o weithredu Llwybr Llesiant Dementia

Mae'r sleidiau canlynol yn crynhoi'r meysydd blaenoriaeth sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r strategaeth dementia a'r llwybr llesiant newydd.

Ynghyd â chyd-gynllunio'r Llwybr Llesiant Dementia, mae'r meysydd blaenoriaeth wedi'u nodi ar ôl ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ledled Gorllewin Cymru ac ystyried arfer gorau yn ogystal â Chynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan a'r Safonau Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Cynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan 2018-2022: Fel llofnodwr i Ddatganiad Glasgow (1) mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o'r blaen i hyrwyddo hawliau, urddas ac ymreolaeth pobl sy'n byw gyda dementia. Trwy eu hymgysylltiad â rhanddeiliaid, clywsant am waith cadarnhaol Dementia Action Alliance yn datblygu cyfres o ddatganiadau gyda phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr (2). Rydym wedi cysoni'r datganiadau hyn â'n blaenoriaethau a'n hargymhellion.

1) https://link.edgepilot.com/s/67f68721/ecxOvtDsBECT3n7Rjlzvhg?u=https://www.alzheimer-europe.org/Policy/Glasgow-Declaration-2014
2) https://link.edgepilot.com/s/8d37d66b/NmKURNiXoUaKCjtzSUiWhQ?u=https://www.dementiaaction.org.uk/nationaldementiadeclaration

# Llesiant, lleihau risg, gohirio cychwyniad, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Attain

**Creu cymunedau cyfeillgar i ddementia, gwneud dementia yn fusnes i bawb**

Mae gennym yr hawl i barhau â bywyd o ddydd i ddydd a bywyd teuluol, heb wahaniaethu na chost annheg, i gael ein derbyn a'u cynnwys yn ein cymunedau a pheidio â byw ar wahân neu'n unig.

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r cynlluniau sydd gennym yn y maes hwn:**

| | |
|---|---|
| **Gweithredu'r fframwaith Gwaith Da – Hyfforddiant i BAWB** | • **Adnewyddu fframwaith hyfforddi dadansoddi anghenion dysgu Gorllewin Cymru** a gweithio gyda **phartneriaid** i'w **roi ar waith**. Sicrhau bod **yr hyfforddiant a ddarperir** yn **seiliedig ar dystiolaeth a hawliau lle bo'n briodol** a hefyd i gynnwys **hyfforddiant a ddarperir** gan **Lywodraeth Cymru** i helpu i **gyflawni'r dasg o weithredu Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (AWDCPS).**<br>• **Yr holl staff**, gan gynnwys y rheiny mewn gwasanaethau pob dydd ac mewn gwasanaethau fel **gofal cartref a chartrefi gofal**, i gael eu **hyfforddi i adnabod arwyddion dementia** a chael eu hyfforddi ynghylch **y ffordd orau i gefnogi PBGD** - sy'n briodol i lefel y cyswllt - o **ddealltwriaeth sylfaenol** i **reoli ymddygiad. sy'n fynegiant o angen heb ei ddiwallu** - galluogi gwasanaethau generig (e.e. **gwaith cymdeithasol, cynorthwywyr personol, gofal cartref, cartrefi gofal, nyrsio ardal, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi ac yn y blaen**) i **gefnogi PBGD yn arbennig y rhai sy'n fyddar, yn ddall ac yn siaradwyr Cymraeg.**<br>• **Hyfforddiant i'r holl staff** mewn dealltwriaeth sylfaenol o **reoli gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/mynegiant ymddygiadol o angen nas diwallwyd - galluogi pobl i adnabod arwyddion, beth i'w ddisgwyl er mwyn cefnogi PBGD.**<br>• **Trefnu** bod y **gweithwyr proffesiynol** hynny sydd â **diddordeb** yn cael eu **hyfforddi** trwy **gwrs diagnosis dementia cyfadran Cymru Gyfan** sydd ar gael i **bob gweithiwr proffesiynol - ystyried a fyddai hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol yn briodol ar gyfer rhanbarth Gorllewin Cymru**<br>• Sicrhau bod mynediad at **hyfforddiant mewn ymyriadau ymddygiadol** ar gyfer **gofalwyr a darparwyr gofal cartref – gan atal lleoliadau preswyl diangen**<br>Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (AWDCPS)<br>• **O fewn 12 wythnos i dderbyn diagnosis,** caiff **PBGD gynnig addysg** a **gwybodaeth** am bwysigrwydd **gweithgareddau iechyd corfforol i gefnogi** a **hybu iechyd.** (AWDCPS 9)<br>• **Gweithredu cyrsiau arbenigol trwy brofiad Cymru Gyfan (yn cael eu trwyddedu gan brifysgol Harvard)** – cynigir hyfforddiant dysgu, addysg a sgiliau i PBGD, gofalwyr a theuluoedd. Bydd y cynnig hwn yn **briodol i'r cam** ac yn cael ei ddarparu ar **rannau arwyddocaol** o **daith unigolyn**. Bydd yn cynnwys ystod o **gefnogaeth cymheiriaid** a **chyfleoedd profiad a rennir.** (AWDCPS 10)<br>• **Bydd pob aelod o staff sy'n darparu gofal** ar **bob lefel** o fewn **pob disgyblaeth** a **lleoliad** yn cael **y cyfle** i **gymryd rhan mewn dysgu a datblygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** gyda chymorth i'w **roi ar waith yn ymarferol bob dydd**. Bydd hwn yn **ddull rhanbarthol ar y cyd** o **nodi ystod** o **gyfleoedd dysgu** a **datblygu** gan gynnwys gwella ansawdd. (AWDCP 17) |
| **Cyfathrebu, codi ymwybyddiaeth galluogi mynediad at wybodaeth/gwasan-aethau amserol** | • **Hybu negeseuon iechyd** Llywodraeth y DU a Chymru i'r **cyhoedd** ar draws y rhanbarth.<br>• **Codi ymwybyddiaeth** o **ddementia cynnar** a **datblygu cynnig gwasanaeth clir.**<br>• Mae ar ofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia (PBGD) angen gwybodaeth glir a hygyrch i'w cysylltu â **grwpiau cyfoedion lleol** i gael **cymorth** o'r **cychwyn cyntaf**<br>• **Gweithwyr proffesiynol** a'r **cyhoedd** ar draws y rhanbarth i wneud y defnydd **gorau** o **DEWIS**<br>• Creu **dull safonol ar draws sefydliadau** ar gyfer **darparu gwybodaeth** i **PBGD** a'u **gofalwyr**<br>• **Gofal sylfaenol** i ystyried sut mae **PBGD yn cael mynediad at apwyntiadau meddyg teulu** - efallai na fydd PBGD yn gallu mynd heibio'r derbynnydd neu'r system brysbennu os ydynt yn byw ar eu pen eu hunain<br>• **Cyflwyno rôl cysylltydd llesiant Dementia**, a fydd yn gweithio gyda **gwasanaethau lleol** o fewn **y cymunedau** y maent yn **cyd-fynd â hwy** a bydd yn galluogi **gwell mynediad** at **wasanaethau bob dydd** fel deintyddion, optegwyr a meddygfeydd.<br>• **Datblygu ystod** o **ymyriadau** a **chyfleoedd corfforol** a **gweithgareddau unigol** a **grŵp** sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn** er mwyn i **PBGD** gael eu defnyddio<br>• **Cydnabod** bod **cludiant**, yn enwedig mewn **ardaloedd gwledig**, i **gael pobl** i **weithgareddau cymunedol** yn heriol a **nodi ffyrdd** o fynd i'r afael â hyn |

# Adnabod, nodi cefnogi a hyfforddi

Attain

## Mae pob unigolyn yn cael mynediad teg at ofal

*Mae gennym yr hawl i gael ein hadnabod fel y person yr ydym, i wneud dewisiadau ynghylch ein bywydau gan gynnwys cymryd risg, a chyfrannu I gymdeithas, Ni ddylai ein diagnosis ein diffinio, ac ni ddylem fod cywilydd ohono.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r cynlluniau sydd gennym yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Cynorthwyo pobl yn rhagweithiol** | • **Cryfhau mynediad** at **rwydweithiau lleol ar draws** y **rhanbarth** i'r rheiny â **nam gwybyddol ysgafn** ac i'r **rheiny** â **dementia**<br>• Sicrhau bod **dementia** yn **ddangosydd** fel rhan o **haeniad risg o fewn gofal sylfaenol** a bod PBGD a'u gofalwyr sydd angen cymorth yn **derbyn cynllunio gofal rhagweithiol gan y Tîm Amlddisgyblaethol** ynghyd â **chymorth gan y cysylltydd llesiant Dementia**<br>• **Datblygu dull rhagweithiol o reoli achos (rhannu gofal/gwneud penderfyniadau)** drwy **waith y Tîm Amlddisgyblaethol**, **yn datblygu cynlluniau** i **ostwng** y **tebygolrwydd** y bydd **PBGD yn profi argyfwng**, hyd yn oed i'r rheiny heb ddiagnosis<br><br>Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (AWDCPS)<br>• **Cynigir dewis i'r bobl sy'n byw gyda Nam Gwybyddol Ysgafn (MCI)** o **wasanaethau cyfannol yn monitro** eu **hiechyd corfforol a meddyliol** a'u **llesiant**, gydag **adolygiadau yn cael eu cynnal** bob **chwe mis o leiaf.** Bydd hyn yn cynnwys ystod o ddewisiadau yn cynnwys **cymorth cyfoedion.** Dylai **cyfeirio** ac **adnoddau cymunedol** fod **wrth ganol** pob ymyriad(AWDCPS 8). |
| **Cymorth waeth beth fo'r diagnosis** | • Gofalwyr a phobl yr amheuir eu bod fwy na thebyg yn byw gyda dementia i gael **mynediad clir** at **wybodaeth ddealladwy** yn eu cysylltu â **grwpiau cyfoedion lleol am gefnogaeth ar y cychwyn**.<br>• Gofalwyr a phobl yr amheuir eu bod fwy na thebyg yn byw gyda dementia i dderbyn **cyngor** a **chefnogaeth** o ran rheoli eu bywydau bob dydd ar hyd eu taith.<br>• Mae angen **datblygu** a **chyd-drefnu** gweithgareddau cymunedol ar gyfer pobl yr amheuir eu bod fwy na thebyg yn byw gyda dementia a'u gofalwyr – dylai'r **gweithgareddau** fod yn **canolbwyntio ar yr unigolyn** a bod **ar gael waeth beth fo'r diagnosis** |
| **Strwythurau sy'n galluogi** | • Datblygu **dull strategol/cydlynol rhanbarthol** o **gefnogi gofalwyr** – ystyried brigdorri cyllid dementia'r Gronfa i'w gynnwys yng nghyllid y Gronfa ar gyfer y gofalwyr, ac felly sicrhau bod holl wasanaethau gofalwyr yn cynnal y rheiny sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia.<br>• **Adolygu asesiadau CHC** sydd wedi digwydd dros y 18 mis diwethaf **i weld a yw pobl yn defnyddio CHC er gwaethaf diagnosis o ddementia** – datblygu adroddiad a chynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn, os bydd angen<br>• Datblygu **rhaglen gyfathrebu gynhwysfawr** i **hybu'r strategaeth** a'i **negeseuon**. Cadw'r cynllun yn fyw a sicrhau bod **y cyhoedd** yn **gwybod** am unrhyw **ddatblygiadau gwasanaeth newydd** yn eu hardal neu ar draws y rhanbarth. Adrodd am gynnydd yn rheolaidd ac adolygu'r cynllun drwy Grŵp Llywio Dementia'r WWCP. |

# Asesiad a diagnosis

## Mae pob person yn cael ei weld fel unigolyn

*Mae gennym yr hawl i ddiagnosis cynnar a chywir, ac i ofal a thriniaeth drugarog, briodol, seiliedig ar dystiolaeth ac sydd yn cael ei gyllido'n iawn, gan bobl hyfforddedig sy'n ein deall ni a sut mae dementia yn effeithio arnom. Rhaid i hyn gwrdd â'n hanghenion ble bynnag yr ydym yn byw.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r cynlluniau sydd gennym yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Cael llwybr y diagnosis a'r wybodaeth yn gywir y tro cyntaf** | • **Datblygu llwybr diagnosis rhanbarthol, gan wneud y defnydd gorau o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (GPPI), dylunio ffyrdd newydd o wneud diagnosis yn y gymuned,** datblygu **achos busnes amlinellol** i **weithredu'r llwybr newydd** gydag **adnoddau wedi eu modelu**. Bydd y **llwybr newydd** yn cynnwys **gweithredu'r AWDCPS: 3, 5, 6, 7 ad 15** – (Gweler y safonau isod).<br>• Sicrhau bod y **llwybr newydd yn cynnwys proses ffurfiol ar gyfer diagnosis gan ymgynghorydd ysbyty aciwt** a **chodau READ wedi eu cynnwys ym mhapurau rhyddhau** – fel bod cartrefi gofal a meddygon teulu yn cael gwybod<br>• Yn dilyn datblygu achos busnes amlinellol yn ddiweddar, datblygu **achos busnes llawn ar gyfer swydd cysylltydd llesiant Dementia, i gynnwys arbedion system cysylltiedig â'i gyflwyno'n raddol. Grŵp llywio dementia WWCP i gytuno ar y dewis gorau.** Datblygu **cynllun i weithredu'r swydd newydd**.<br>Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (AWDCPS)<br>• **Bydd y Gwasanaethau Asesu Cof (MAS)** a **Gofal Sylfaenol (GP)** yn **mabwysiadu Codau READ**. Bydd y rhai fydd wedi cael diagnosis o ddementia mewn **lleoliadau y tu allan i'r MAS** (yn cynnwys gofal sylfaenol, timau adnoddau cymunedol, cyswllt seiciatryddol a niwroleg) yn **rhoi'r Cod READ penodol** i'r **Meddyg Teulu** neu i **MAS** o fewn **dwy wythnos** i'r **diagnosis** (AWDCPS 3)<br>• Bydd gwasanaethau **Iechyd** a **gofal cymdeithasol** yn **rhoi'r wybodaeth gywir** i **gynorthwyo'r MAS** wrth iddynt **gynnal asesiadau** ac wrth **roi diagnosis.** Bydd hyn hefyd yn **gymorth i'r person reoli unrhyw anawsterau byw bob sydd wedi dod i'r amlwg.** (AWDCPS 5)<br>• **Bydd MAS, o fewn cyfnod o 12 wythnos o amser atgyfeirio, yn rhoi ystod o ymyriadau (sydd wedi eu rhestru yn AWDCPS 6) i gefnogi'r diagnosis. Ystyried pa lwyfannau digidol** ac **addasiadau a dulliau.**<br>• eraill sydd eu hangen i alluogi gweithredu'r safon hon<br>• **Bydd pobl** yn cael **mynediad** at **berson cyswllt** a all roi **cymorth emosiynol drwy gydol cyfnod yr asesiad a thros y 48 awr nesaf ar ôl derbyn diagnosis** a **sicrhau, yn dilyn y cyfnod hwn, ei fod yn cael ei gynnig fel bo angen** (AWDCPS7)<br>• **Caiff pobl o fewn 12 wythnos o gael diagnosis o** ddementia **gynnig cymorth i ddechrau cynllunio ar gyfer** y dyfodol, gan gynnwys gofal diwedd oes. Bydd y cynnig hwn yn cynnwys **y cyfle i ailedrych** ar **y cynllun a'i ddiweddaru ar hyd taith yr unigolyn**. Lle bo'n briodol, bydd cynrychiolydd a **defnyddio eiriolwr** yn sicrhau bod **hawliau'r unigolyn yn cael eu hamddiffyn** (AWDCPS 15). |
| **Cynorthwyo'r rheiny ag anabledd dysgu** | • **Sicrhau bod y prosesau sydd yn eu lle yn galluogi'r person ag anabledd dysgu i dderbyn archwiliad llesiant gwybyddol**<br>Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (AWDCPS)<br>• Bydd gwasanaethau **Anabledd Dysgu (LD)** yn **diffinio proses** i **gysylltu** â'r **boblogaeth gyfan** o **bobl sy'n byw** gydag **anabledd dysgu** a Down Syndrome yn benodol **i gynnig archwiliad llesiant gwybyddol**. (AWDCPS 4) |

# Byw yn dda gyda dementia

Attain

## Mae gofal yn cael ei gydlynu

Mae gennym yr hawl i wybod a phenderfynu a oes arnom eisiau bod yn rhan o ymchwil sy'n edrych ar achos, iachâd a gofalu am ddementia a chael ein cefnogi i gymryd rhan. Mae gennym yr hawl i gael ein parchu, a'n cydnabod fel partneriaid mewn gofal, i gael addysg, cymorth, gwasanaethau a hyfforddiant sy'n ein galluogi i gynllunio a gwneud penderfyniadau am y dyfodol.

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r cynlluniau sydd gennym yn y maes hwn**

| | |
|---|---|
| **Galluogi pobl i gael adolygiadau iechyd a mynychu apwyntiadau** | • Ar ôl cymeradwyo'r achos busnes llawn, cyflwyno'r **gwasanaeth cysylltydd llesiant Dementia** a fydd yn hyrwyddo **cynllunio gofal rhagweithiol** trwy **ddull tîm amlddisgyblaethol CYFANNOL cyson** ar draws y **rhanbarth**, gan ddarparu **cymorth sefydlog cynllun llesiant o amgylch** y **person** – **datblygu templed cynllun gofal cyfannol rhanbarthol**<br>• **Cysylltydd llesiant dementia** i **gydlynu cymorth drwy gydol taith unigolyn**<br>• **Datblygu gweithdrefn weithredu safonol gwasanaeth cyn ac ar ôl diagnosis (PPDS). Bydd hyn yn nodi disgwyliadau, prosesau a gofynion cofnodi data y PPDS**.<br>• Datblygu **dull cyson** o **fonitro, adolygu** a **rhagnodi meddyginiaeth** mewn **gofal sylfaenol ar draws y rhanbarth**<br>Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (AWDCPS)<br>• Bydd gan PBGD apwyntiad wyneb yn wyneb cyfredol lle bydd adolygiad iechyd corfforol yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth gan ofal sylfaenol ac eilaidd. Lle mae rheswm cyfiawn dros beidio â darparu apwyntiad wyneb yn wyneb, bydd adolygiad iechyd corfforol yn cael ei gyflawni drwy ddulliau eraill h.y. llwyfannau digidol, ymgynghoriad dros y ffôn. (AWDCPS 14)<br>• Bydd PBGD, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn cael cefnogaeth a chymorth i ymgysylltu ag apwyntiadau. Bydd hyn yn osgoi derbyn apwyntiadau iechyd a gofal cymdeithasol lluosog a all orlethu, drysu ac ynysu'r person. Bydd symleiddio prosesau gweithredo yn ymarferol yn cefnogi'r gwasanaeth i osgoi dyblygu a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i arfer egwyddorion darbodus wrth ddarparu gwasanaethau. (AWDCPS 18) |
| **Ymateb ar draws y system** | • **Cefnogi PBGD** i **fyw'n dda**; **parha**u i weithredu'r rhaglen therapi galwedigaethol *The Journey Through Dementia* sy'n cynnwys gweithredu '**egwyddorion dylunio sy'n ystyrio o ddementia**' **o fewn amgylcheddau pobl eu hunain** ac **unrhyw adeilad neu wasanaeth newydd**<br>• Sicrhau bod **cyflogwyr yn asesu** ac yn **gweithredu addasiadau rhesymol** i alluogi'r **PBGD i weithio**<br>• **Waeth beth fo'r diagnosis**, rôl **cysylltydd llesiant Dementia** i weithredu fel **cydlynydd** ar gyfer y **PBGD gan leihau'r tebygolrwydd y bydd yn rhaid iddo ef neu ei ofalwr ailadrodd ei stori** neu fod yn atebol am drosglwyddo gwybodaeth rhwng gwasanaethau – **sy'n cyfleu hanfod pwy oedd y person** – edrych i mewn i ddefnyddio AP y claf sy'n gwybod orau<br>• **Adolygu POB menter a ariennir ar hyn o bryd** gan y **Gronfa Integredig Ranbarthol**, **gan ddangos tystiolaeth o ganlyniadau, alinio cyllid** i **weithredu blaenoriaethau** strategol, **sicrhau bod adnoddau llawn ar gyfer unrhyw ffordd newydd o weithio**<br>• Ystyried a allai **gweithwyr cymdeithasol** o **bob sir** a chydweithwyr o'r 3ydd sector ddod yn rhan o'r tîm cymunedol llesiant dementia rhanbarthol<br>• Adolygu gweithgareddau cymunedol sydd ar gael ar draws **y rhanbarth** ar gyfer PBGD a gweithgareddau cefnogi i ofalwyr. **Mynd i'r afael â bylchau, gan gynnwys gweithgareddau** ar gyfer y rheiny **â dementia cynnar**<br>• **Cynyddu'r defnydd o dechnoleg**, ar gyfer **gweithwyr proffesiynol**, **PBGD** a'u **gofalwr** e.e. cysylltu gofalwyr â chymorth drwy AP ar Ipad gwely'r ysbyty<br>• **Gweithredu gweddill y camau gweithredu** o **Gynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan**<br>• **Nodi maes** ar gyfer **gweithredu Safonau Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan** yn unol â'r rhaglen waith 2 flynedd a amlinellir yn y safonau. (AWDCPS 1)<br>Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan (AWDCPS)<br>• Bydd gwasanaethau yn y **mannau cyswllt** yn **darparu addasiadau rhesymol** i ofal sy'n bodloni anghenion a dewisiadau personol y person.(Safon 2 Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan)<br>• Bydd **addasiadau rhesymol** sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn **cefnogi'r person i fyw'n dda** drwy **wneud y mwyaf o'i annibyniaeth** a'i **allu i gymryd rhan yn ei gymuned**. (Safon 2 Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan)<br>• Bydd gan bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr **gyswllt enwebedig**(**cysylltydd**) i **gynnig cymorth, cyngor a chyfeirio**, **drwy gydol eu taith** o **ddiagnosis hyd at ddiwedd oes**. (AWDCPS 12)<br>• Bydd pobl sy'n byw gyda dementia yn cael **mynediad, pan fo angen**, at **wasanaethau pwrpasol perthnasol** (ac wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl) **ar ôl diagnosis, lle bynnag y byddant yn byw**. Mae hyn yn uniaethu â'r gofal a'r **tîm sy'n lapio p gwmpas yr unigolyn** (AWDCPS 13)<br>• Mae sefydliadau a lleoliadau gofal sy'n darparu **gofal dementia dwys** (mae hyn yn cynnwys lleoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl ac anableddau dysgu) yn **defnyddio'r offeryn mapio gofal dementia** i werthuso a dysgu am **ymarfer galluogi sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae'n cefnogi **ymresymu clinigol** a **gwneud penderfyniadau**. Bydd gwasanaethau DCM iechyd meddwl yn cynnig cymorth DCM i leoliadau gofal aciwt, carchardai a chartrefi gofal. (AWDCPS 16) |

# Mwy o gymorth pan fydd arnoch ei angen

Attain

## Mae'r staff i gyd yn barod i ofalu

*Lle bynnag yr ydw i, mae staff iechyd a gofal yn dod ag empathi, sgiliau ac arbenigedd ac yn rhoi gofal medrus, hyderus a thrugarog i mi.*

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r cynlluniau sydd gennym yn y maes hwn**


| | |
|---|---|
| **Gofal cyson tra yn yr ysbyty** | • **Cynyddu llesiant cleifion tra yn yr ysbyty** drwy **restr wirio derbyniadau** a **rhyddhau** – wedi cael diagnosis, diagnosis gweithio ac ati. Mabwysiadu'r **siarter Ysbytai sy'n Gyfeillgar i Ddementia** yn llawn, **codi ymwybyddiaeth ymhlith staff** a **gwirfoddolwyr, gan atal materion** fel **eiddo personol yn mynd ar goll** neu **gymhorthion clyw heb gael eu rhoi i mewn yn gywir** – **datblygu cynllun gweithredu i'w roi ar waith** a'i **adolygu'n rheolaidd** drwy **grŵp Llywio Dementia WWCP.**<br>• Sicrhau **bod staff ysbytai** wedi'u **hyfforddi i ddeall beth mae pŵer atwrnai iechyd yn ei olygu**<br>Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan.–(AWDCPS)<br>Bydd Cymru'n mabwysiadu'r **Siarter Ysbytai sy'n Gyfeillgar i Ddementia** gydag adolygiad rheolaidd o'r gweithredu a'r canlyniadau. (AWDCPS 11). |
| **Cynyddu gallu gwaith y Tîm Aml-ddisgyblaethol, mynediad at gymorth pan fydd arnoch ei angen** | • Datblygu **cynllun gofal, rhyngddisgyblaethol, safonol, rhanbarthol** a thrwy **waith tîm amlddisgyblaethol rhagweithiol sy'n galluogi cydweithwyr i ymuno'n rhithwir, a gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda'r claf a'r gofalwr, cynllunio ymlaen llaw i atal argyfwng** yn ogystal â **chynyddu cymorth pan fo angen gan gynnwys cytuno ar derfynau gofal - ystyried** a ddylid gosod y **cynllun mewn AP y gall y claf, gofalwyr a chydweithwyr gael mynediad ato**<br>• **Cynyddu'r cylch cefnogaeth** e.e. gall cydweithwyr **cludiant cymunedol** helpu timau amlddisgyblaethol drwy **ddarparu gwybodaeth berthnasol** ynglŷn â'r claf<br>• Sicrhau bod **sefydliadau'n cyfathrebu â'i gilydd** yn hytrach na bod PBGD neu eu gofalwyr yn gorfod cydlynu cyfathrebu ar draws gwasanaethau<br>• Nodi **pryd** mae'r **gofalwr yn byw y tu allan** i'r **rhanbarth** i **sicrhau** bod ganddo **wybodaeth leol** i alluogi'r person y mae'n gofalu amdano i gael mynediad at wasanaethau yn ei ardal leol<br>• Sicrhau bod **cynllun gofal wrth gefn mewn argyfwng ar waith ar gyfer y PBGD a'i ofalwr** a bod y **gofalwr hefyd yn gallu cael cymorth pan fydd arno ei angen**<br>• Mae angen **hyfforddiant mewn mynegiant ymddygiadol o angen heb ei ddiwallu, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – gweithredu'r offeryn adnabod dementia ar draws y rhanbarth** a all helpu i ddatblygu cynlluniau rheoli ymddygiad, ymddygiadau allweddol a nodi pa ymyriadau y gellir eu defnyddio<br><br>Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan(AWDCPS)<br>• Bydd gwasanaethau'n sicrhau, pan fydd yn rhaid i berson sy'n byw gyda dementia **newid** neu **symud rhwng unrhyw leoliadau neu wasanaethau**, y bydd **gofal** gydag **ymyriadau cefnogol** yn cael ei **gydgysylltu'n briodol** i **alluogi'r person** i **ystyried** ac **addasu** i'r **amgylchedd newydd**. Bydd hyn yn sicrhau y bydd **yr holl bartneriaid gofal yn cyfathrebu ac yn gweithio ar y cyd i gefnogi pontio di-dor**. (AWDCPS 19). |

# Cyflwyno'r mentrau drwy reoli rhaglen

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership


Yn ogystal â datblygu'r weledigaeth, y llwybr model gwasanaeth, y strategaeth, gofynnwyd i Attain adolygu'r llywodraethu rhanbarthol presennol i sicrhau perchnogaeth amlasiantaethol gadarn ar Gynllun y Gronfa, y ffordd y caiff ei gyflawni a'i werthuso. I ddechrau, dangosodd Attain sut beth yw rheoli rhaglen yn dda (am ragor o fanylion gweler atodiad 3)
Mae'r sleidiau canlynol yn disgrifio'r fframwaith rheoli rhaglen arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Ddementia Ranbarthol.

## Sut beth yw rheoli rhaglen yn dda?





Tudalen 48

# Dull Cyflawni Arfaethedig: Rheoli Ffrydiau Gwaith y Rhaglen




# Dull gweithredu'r strategaeth Ddementia a'r Llwybr Llesiant

Rhaglen Drawsffurfio Gwasanaeth Dementia WWCP



# Y ffrydiau gwaith arfaethedig i gyflawni strategaeth Ddementia WWCP

Rhaglen Drawsffurfio Gwasanaeth Dementia WWCP



# Y Dull Cyflawni Arfaethedig: Rheoli Portffolio

Bydd y set ddangosol isod o bortffolios yn darparu strwythur i gyflawni cam nesaf y gwaith o ddatblygu'r strategaeth/cynllun rhaglen ddementia. Mae blaenoriaethau'r strategaeth ddementia yn unol â safonau llwybr gofal dementia Cymru Gyfan ac yn adeiladu ar yr arfer da presennol sydd eisoes ar waith. Dylai blaenoriaethau dementia gael eu harwain gan uwch arweinydd o fewn y system a bydd Uwch-swyddog Rhanbarthol yn eu goruchwylio, ynghyd â grŵp llywio dementia WWCP. Fodd bynnag, bydd y rhaglen waith gyfan hefyd yn cael ei goruchwylio gan y Grŵp Gweithredol Integredig a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd angen nodi adnoddau dros oes y rhaglen er mwyn ei gwneud yn bosibl parhau i ddarparu gwasanaethau tra bydd staff y rheng flaen yn gweithio i ddylunio a datblygu'r gwasanaethau.

Attain


| | Llywodraethu rhaglen a galluogwyr y system | Trawsffurfio'r gwasanaeth Dementia | Datblygu a hyfforddi'r gweithlu | BI a data |
|---|---|---|---|---|
| **Nod** | Gweithredu'r strategaeth ddementia ranbarthol wedi ei chadarnhau gan y WWCP. Cynlluniau gweithredu cadarn y gellir eu cyflawni. | Gweithredu'r argymhellion sy'n codi o'r strategaeth ddementia sy'n ymwneud â thrawsffurfio'r gwasanaeth. | Gweithredu'r blaenoriaethau sy'n codi o'r strategaeth ddementia sy'n ymwneud â datblygu a hyfforddi'r gweithlu | Gweithredu'r blaenoriaethau sy'n codi o'r strategaeth ddementia sy'n ymwneud â dull unffurf o gasglu gwybodaeth fusnes a deilliannau. |
| **Meysydd Blaenoriaeth** | • Recriwtio rheolwr rhaglen y rhanbarth<br>• Datblygu cynllun rhaglen y rhanbarth i gyflawni argymhellion y strategaeth.<br>• Strwythur llywodraethu rhaglen WWCP<br>• Goruchwylio prosiectau 2021/22 a dyrannu ar gyfer 2022 ymlaen<br>• Ei gwneud yn bosibl casglu gwybodaeth am d data er mwyn gallu gwneud penderfyniadau a chynllunio<br>• Sefydlu a gweithredu'r strwythurau galluogi sy'n deillio o'r argymhellion yn y strategaeth<br>• Cynllun cyfathrebu sy'n cydredeg â'r strategaeth, gan godi ymwybyddiaeth, a hybu datblygiadau gwasanaeth yn lleol | • Cynorthwyo pobl yn rhagweithiol<br>• Rhoi cymorth, waeth beth fo'r diagnosis<br>• Cael llwybr y diagnosis a'r wybodaeth yn gywir y tro cyntaf<br>• Cynorthwyo'r rheiny ag anabledd dysgu<br>• Galluogi pobl i gael adolygiadau iechyd a mynychu apwyntiadau<br>• Camau gweithredu cysylltiedig â gweithredu ymateb ledled y system<br>• Gofal cyson tra yn yr ysbyty<br>• Cynyddu effaith gweithio fel tîm aml-ddisgyblaethol, gan gael mynediad at gymorth pan fydd ar bobl ei angen | • Gweithredu'r fframwaith Gwaith Da – Hyfforddiant i BAWB a'r argymhellion yn y strategaeth yn ymwneud â hyfforddiant e.e. Adnewyddu fframwaith hyfforddi dadansoddiad anghenion dysgu Gorllewin Cymru, gweithio gyda phartneriaid i'w roi ar waith gan sicrhau bod yr holl hyfforddiant a ddarperir yn seiliedig ar dystiolaeth<br>• Datblygu cynllun gweithlu i gefnogi trawsnewid gwasanaethau<br>• Cefnogi datblygiad yr offeryn adnabod dementia<br>• Mynd ymlaen i ddatblygu a chyflwyno rôl y cysylltydd llesiant Dementia | • Data yn sbarduno newid – datblygu dangosfwrdd perfformiad rhaglen ddementia y Gronfa Gofal Integredig<br>• Datblygu achos busnes llawn y cysylltydd llesiant Dementia gydag anghenion manwl y boblogaeth, y gweithlu a'r galw a modelu'r capasiti ar gyfer rôl cysylltydd llesiant Dementia i ddarparu cymorth emosiynol drwy gydol y cyfnod asesu a thros y 48 awr cyntaf ar ôl cael diagnosis<br>• Gweithredu argymhellion y strategaeth ddementia mewn perthynas â BI a data. |

**Cydgynhyrchiad y claf a'r gofalwr – gwella profiad y claf drwy wneud mynediad yn hawdd a thrwy safoni gwybodaeth, gwasanaethau a rhoi cyfle i lais y defnyddiwr/teulu wrth newid gwasanaethau**

# Trefniadau Llywodraethu Arfaethedig Cronfa Gofal Integredig (CGI) Dementia

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain




Tudalen 53

# 8. Y camau nesaf ar gyfer 2022/23

# Y Camau nesaf

**Cyflawni'r rhaglen:**

- Cytuno ar y rhesymeg i barhau i ariannu yn ystod 2022/23
- Nodi adnodd i sefydlu a rheoli'r rhaglen waith ar draws partneriaid - recriwtio i'r rôl
- Creu cynllun rhaglen, blaenoriaethu prosiectau ac adolygu llinellau amser i sicrhau bod cynllun realistig yn ei le y gellir ei gyflawni. Defnyddio Rheoli Ffrwd Gwaith fel y broses ar gyfer cyflawni
- Nodi Ffrwd Gwaith yr Uwch-swyddog Rhanbarthol i yrru'r gwaith yn ei flaen gyda chymorth Swyddog Rheoli Rhaglen (SRhRh); rhoi perchnogaeth ac atebolrwydd i gyflawni
- Dylid darparu diweddariadau cynnydd rheolaidd yng Ngrŵp misol Llywio Dementia WWCP

**Gweithredu'r strategaeth:**

- Ceisio cymeradwyaeth gan y Grŵp Gweithredu Integredig a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, datblygu cynllun cyfathrebu i gymdeithasoli'r strategaeth fel bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o'r cyfeiriad teithio ar gyfer gwasanaethau dementia yng Ngorllewin Cymru.
- Cynllun cyfathrebu i gwmpasu oes y strategaeth, gan alluogi'r cyhoedd i fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiad newydd yn eu hardal
- Diweddaru cynllun y rhaglen gyda'r datblygiadau gwasanaeth newydd sydd eu hangen i gyflawni llwybr llesiant dementia
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle i oruchwylio'r dasg o weithredu'r mentrau gwasanaeth newydd, gan sicrhau bod pob menter newydd yn dilyn dull y rhaglen ac yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol

Gweithredu strategaeth Ddementia newydd Gorllewin Cymru

# 9. Atodiad 1: Dadansoddiad o boblogaeth Gorllewin Cymru

Tudalen 56


# Dadansoddiad o boblogaeth Gorllewin Cymru (Swyddfa Ystadegau Gwladol)



Ar y cyfan mae'n ymddangos yn debygol y bydd poblogaeth Gorllewin Cymru yn cynyddu o **0.4% yn gyffredinol erbyn 2025** ac o **2% erbyn 2040** (20 mlynedd). Bydd poblogaeth Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn gweld cynnydd tebyg o 0.6% a 0.7% erbyn 2025 a 2.7% a 3.5% erbyn 2040. Disgwylir i boblogaeth Ceredigion weld gostyngiad (0.7% yn 2025 a 3% yn 2040). Fodd bynnag, o ran oedran; **mae pob ardal yn mynd i weld cynnydd yn eu poblogaethau oedrannus.**

Ar y cyfan, mae'r boblogaeth oedrannus yn mynd i gynyddu, a phoblogaeth y plant a'r bobl sydd yn oed gwaith yn mynd i leihau

- Erbyn 2025 (ymhen 4-5 mlynedd) mae poblogaeth y rhai **dros 65 yn debygol o gynyddu o 6%** (dros 80 o 11%)
- Erbyn 2040 (oddeutu 20 mlynedd o heddiw) mae'n ymddangos y bydd y boblogaeth dros 65 yn debygol o gynyddu o 27% a'r rhai dros 80 o 55%
- Mae'r bobl dros 65 ar hyn o bryd yn ffurfio chwarter y boblogaeth. Ymhen 5 mlynedd byddant yn 26.8% ac erbyn **2040 maent yn debygol o fod bron yn drydedd ran o'r boblogaeth** gyda'r rhai **dros 80 yn dod dros 10%** (o ddim ond dros 6% yn awr)




**% y newid o'r presennol**

| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 |
|---|---|---|---|---|
| 0-4 oed | 96.6% | 93.7% | 94.2% | 97.4% |
| 5-9 oed | 95.1% | 91.1% | 88.8% | 89.4% |
| 10-14 oed | 99.0% | 92.2% | 88.4% | 86.4% |
| 15-19 oed | 109.5% | 111.2% | 104.3% | 99.9% |
| 20-24 oed | 96.6% | 107.2% | 109.6% | 103.3% |
| 25-29 oed | 89.8% | 84.1% | 93.4% | 96.1% |
| 30-34 oed | 97.1% | 87.7% | 82.2% | 91.3% |
| 35-39 oed | 107.1% | 106.4% | 97.5% | 91.6% |
| 40-44 oed | 102.5% | 109.2% | 108.5% | 100.2% |
| 45-49 oed | 94.3% | 99.0% | 105.0% | 104.5% |
| 50-54 oed | 89.4% | 81.2% | 85.7% | 90.5% |
| 55-59 oed | 95.9% | 85.7% | 78.6% | 83.4% |
| 60-64 oed | 111.3% | 108.9% | 98.2% | 90.8% |
| 65-69 oed | 105.7% | 120.5% | 118.6% | 107.7% |
| 70-74 oed | 92.9% | 99.5% | 114.0% | 112.9% |
| 75-79 oed | 115.9% | 108.8% | 117.7% | 135.7% |
| 80-84 oed | 115.8% | 141.4% | 134.3% | 147.4% |
| 85-89 oed | 105.8% | 125.6% | 155.4% | 150.3% |
| 90+ oed | 107.8% | 120.1% | 145.4% | 183.6% |

*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol*

# Dementia Gorllewin Cymru (Cofrestr QOF)

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Mae'r data yn y pecyn hwn yn ddyfyniad o'r systemau meddygon teulu sy'n ddefnyddio diffiniad y QOF.

Merched yw tua 62% o'r cleifion dementia cofrestredig yng Ngorllewin Cymru ond mae hyn yn rhannol oherwydd disgwyliad oes uwch yn y boblogaeth fenywaidd.


Mae bron i 50% o'r cleifion dementia benywaidd dros 85 oed o gymharu â 36% o'r cleifion gwrywaidd. Mae hyn yn golygu bod 45% o gyfanswm y cleifion dementia dros 85 oed. Disgwylir i'r grŵp oedran hwn dyfu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf, a disgwylir iddo fod dros 10% o boblogaeth Gorllewin Cymru erbyn 2040. Dengys astudiaethau diweddar nad yw nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu'n sylweddol ond oherwydd disgwyliad oes uwch a chanlyniadau gwell ar gyfer gofal, bydd eu mynychder yn parhau i gynyddu.

Daeth dementia yn brif achos marwolaeth yn y DU yn 2015 ac mae wedi parhau i ddisodli achosion marwolaeth eraill. Cyn-Covid (2020) roedd yn cynrychioli 12.7% o farwolaethau ac roedd y nifer hwnnw wedi cynyddu'n flynyddol

Ar draws y boblogaeth gyfan, mae nifer yr achosion o gleifion ar y gofrestr QOF sydd wedi cael diagnosis o ddementia ychydig dros 0.7%. Fodd bynnag, 2.3% yw nifer yr achosion ymhlith pobl dros 60 oed (pobl ar y gofrestr/poblogaeth yn y grŵp oedran). Diffinnir dementia cynnar fel y rhai dan 65 oed sy'n cael diagnosis.

Mae'r rhain yn cynrychioli nifer fechan iawn o achosion sydd wedi derbyn diagnosis gan feddygon teulu ond maent o bosibl yn cynrychioli cyfran fwy o'r angen sydd heb ei ddiwallu a heb ei ddarganfod

Mae pobl dros 60 oed yn cynrychioli tua thraean o'r boblogaeth a 98.9% o'r cleifion dementia cofrestredig yng Ngorllewin Cymru




Source: GP QOF

Tudalen 58


# Dementia fesul clwstwr

Yn Sir Gaerfyrddin y ceir y boblogaeth fwyaf o'r 3 sir ar draws Gorllewin Cymru, mae ganddi tua 49% o'r boblogaeth gyfan a 46% o'r rhai dros 65 oed, gyda 24% o'i phoblogaeth hi ei hun dros 65 oed. Ganddyn nhw mae 48% o'r diagnosis dementia. Hi hefyd yw'r ardal fwyaf gwledig o'r tair sir.

Mae gan feddygon teulu Sir Benfro boblogaeth o tua 870 o gleifion wedi eu cofnodi â diagnosis dementia, sy'n cynrychioli tua 31% o'r diagnosis dementia yng Ngorllewin Cymru. Fel sir mae ganddynt 32.5% o'r boblogaeth a 34% o'r boblogaeth dros 65 oed. Mae'r boblogaeth dros 65 oed yn cynrychioli bron i 27% o gyfanswm poblogaeth Sir Benfro. Fodd bynnag, erbyn 2040 bydd y twf ar gyfer Sir Benfro yn 6.6%

Er bod disgwyl i boblogaeth Ceredigion ostwng yn gyffredinol, mae disgwyl i bobl dros 65 oed gynyddu dros 4% yn yr 20 mlynedd nesaf.

Dengys y graffig isod y niferoedd gwirioneddol o ddynion a merched fesul clwstwr ac fel y gwelwch, mae'r niferoedd yn nhri chlwstwr Sir Gaerfyrddin yn uchel iawn, yn gymharol, yng nghategori'r merched dros 85 oed. Yn nodedig, mae gan Dde Sir Benfro hefyd niferoedd uchel o ddynion a merched dros 85 oed sydd wedi cael diagnosis o ddementia











*Ffynhonnell: GP QOF ac ONS*


# Map

Nid oedd data Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LOSA) ar gael ar gyfer cleifion ac felly mae'r wybodaeth isod yn dangos y pwysau ar bractisau meddygon teulu ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MOSA) a dyna pam y ceir bylchau.

**Cyfran y boblogaeth dros 40 oed yn seiliedig ar restrau practisau, yn ôl MOSA lleoliad y practis**




**Cyfanswm diagnosis poblogaeth yn seiliedig ar restrau practisau, yn ôl MOSA lleoliad y practis**




Tudalen 60

# Dementia - mynychder

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Dengys y siart isod y boblogaeth ddementia gofrestredig bresennol a'r lefel bosibl sydd heb dderbyn diagnosis; mae wedyn yn rhagweld, yn seiliedig ar y gyfradd heb gael diagnosis a thwf y boblogaeth, y nifer bosibl o gleifion fydd yn byw gyda dementia ar draws Gorllewin Cymru erbyn 2040. Mae'n bwysig nodi bod effaith COVID-19 ar ddiagnosis a chyfradd mynychder dementia yn dal i fod yn anhysbys. Mae pryder bod COVID-19, mewn rhai achosion, yn achosi niwed i'r ymennydd ac y gallai hyn yn y tymor hir arwain at risg uwch o ddatblygu dementia*

**Poblogaeth Gorllewin Cymru** | **Amcangyfrif o gleifion dementia presennol** | **Amcangyfrif 2040**

Poblogaeth 386 mil

Dementia

- ▲ 2,812
- ✖ 2,488

5,300 → 7,900 (yn cynnwys angen sydd heb dderbyn diagnosis)

▲ = Ar gofrestr meddyg teulu

✖ = Amcangyfrif heb dderbyn diagnosis

- → Mae'r mynychder ar gofrestrau Meddygon Teulu ar hyn o bryd fymryn o dan 1% ar y cyfan
- → Mae'n debygol fod bwlch diagnosis o oddeutu 50%
- → Mae'r uchod yn cyfrifo, ar lefel uchel, y mynychder gwirioneddol posibl yn seiliedig ar dwf y boblogaeth a chymhwyso'r gyfradd ddiagnosis
- → Gallai'r mynychder fel cyfradd fod mor uchel â 2% erbyn 2040, yn seiliedig ar y twf yn y boblogaeth dros 65 oed.

I roi hyn mewn persbectif…

Mae hyn yn gymaint â phawb sy'n byw ym Mhenfro yn cael dementia.

***Gweler**: *"The chronic neuropsychiatric sequelae of COVID-19: The need for a prospective study of viral impact on brain functioning" - Gabriel A. de Erausquin et al*

# Cymharu Byrddau Iechyd


Dengys y graff ar y dde y cyfraddau mynychder ar gyfer dementia a gofnodwyd yng nghofrestrau meddygon teulu (yn ôl diffiniadau QOF). Sylwch, mae hyn yn debygol o fod yn is na chyfradd y mynychder gwirioneddol oherwydd defnyddio poblogaeth sydd wedi'i chofrestru gyda meddygon teulu o'r system meddygon teulu fel enwadur (ac nid y boblogaeth breswyl, mae hefyd yn cynnwys pob grŵp oedran)

Fodd bynnag, y peth pwysig i'w nodi yw'r gwahaniaethau yn hytrach na'r niferoedd. Gorllewin Cymru yw'r 3ydd uchaf ac maent ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (tua 0.87% o gymharu â 0.85%)

**Niferoedd y cleifion ar gofrestr dementia yn ôl rhyw a BIP**

| | Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe | Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Aneurin Bevan | Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Betsi Cadwaladr | Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Caerdydd a'r Fro | Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Cwm Taf Morgannwg | Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Hywel Dda |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benyw | 622 | 1,692 | 2,560 | 3,492 | 2,189 | 1,659 | 1,753 |
| Gwryw | 346 | 1,047 | 1,500 | 2,048 | 1,166 | 985 | 1,059 |

**Mynychder Dementia cofrestrau Meddygon teulu (ymhlith poblogaeth oedolion)**




# Dementia Cynnar

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Attain

Dementia cynnar yw dechrau dementia pan fydd person dan 65 oed. Ar draws Gorllewin Cymru mae 84 o gleifion ar y cofrestrau sydd dan 65 oed. O'r rheiny, mae 55 yn y grŵp oedran 60-65 oed. Mae hyn yn rhoi cyfradd o 0.04% i Orllewin Cymru ar draws y boblogaeth oedolion, sy'n debyg iawn i'r gyfradd a welir ar draws cofrestrau Cymru yn genedlaethol.

Mae 5 claf ar gofrestrau meddygon teulu sydd dan 50 oed. Mae llai na 30 yng Nghymru gyfan (gyda diagnosis ffurfiol wedi'i gofrestru gan feddyg teulu). Unwaith eto, mae’r cyfraddau mynychder ar draws Gorllewin Cymru yn uwch na rhai Cymru (tua 0.0025%)

**Dementia Cynnar fesul oedran a chlwstwr**



# 10. Atodiad 2: Adborth o Gyfweliadau Strwythuredig Cychwynnol

Tudalen 64

# Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Digwyddodd cam cyntaf datblygiad y strategaeth hon rhwng Ionawr a Mai 2021. Comisiynwyd Attain i ddechrau gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ran WWCP i gynnal adolygiad o Gynllun Buddsoddi Dementia y CGI ochr yn ochr â datblygu strategaeth ddementia lefel uchel, gweledigaeth a llwybr model gwasanaeth ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru. Cefnogwyd y gwaith cychwynnol yn dda gan WWCP a weithiodd gydag Attain i gyd-lunio strategaeth ddrafft lefel uchel ar gyfer dementia. Bu rhanddeiliaid o bob rhan o'r rhanbarth yn gweithio'n galed iawn i ddarparu gwybodaeth a mewnwelediad lleol, trwy drafodaethau strwythuredig gyda rhanddeiliaid. Mae'r themâu sy'n deillio o'r cyfweliadau cychwynnol wedi cael eu crynhoi lle bo modd ar y tudalennau canlynol. Mae themâu ail gam y gwaith wedi cael eu crynhoi yn gynharach yn y strategaeth.



wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

Attain

Llawer o ddiolch i'r rheiny a gymerodd ran yng ngham cyntaf y gwaith:

| Enw | Teitl | Staff ychwanegol |
|---|---|---|
| Rhian Dawson | BIP Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin – Cyfarwyddwr Sir Caerfyrddin | E-byst a anfonwyd 25/03 a 12/04 |
| Jina Hawkes | BIP Hywel Dda – Rheolwr Cyffredinol Gofal Sylfaenol Cymunedol - Ceredigion | |
| Sonia Hay | BIP Hywel Dda - Rheolwr Cyffredinol Gofal Cymunedol a Sylfaenol Sir Benfro | Charlotte Duhig, Ceri Griffiths a 2 arall |
| Rebecca Jones | Rheolwr Rhaglen WWCP ar gyfer datblygu'r gweithlu | |
| Sue Leonard | Prif Weithredwr PAVS | Cherry Evans Sophie Buckley |
| Elaine Lorton | BIP Hywel Dda Cyfarwyddwr Sirol Sir Benfro | |
| Peter Skitt | BIP Hywel Dda – Cyfarwyddwr Sirol Ceredigion | |
| Alex Williams | Pennaeth Gwasanaethau Integredig Sir Gaerfyrddin | Ynghyd â chydweithwyr o Sir Gaerfyrddin |
| Neil Mason | BIP Hywel Dda – Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn | Ynghyd â Nyrs Admiral |
| Graham O'Connor | (BIP Hywel Dda – Seiciatrydd Ymgynghorol) | |
| Donna Pritchard | Pennaeth Oedolion Cyngor Ceredigion | Ellen James, Sian Howys, Nerys Lewis |
| Claire Sims | BIP Hywel Dda – Pennaeth Therapi Galwedigaethol | Ynghyd â Karen Shearsmith-Farthing |
| Becca Stilwell | Seicolegydd Clinigol | Anfonwyd e-bost 15/04/21 |

# Mae'r themâu a ddeilliodd o'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid wedi dylanwadu ar ddatblygiad llwybr y model gwasanaeth a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

| Y Prif Themâu | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Yr hyn y gellid ei wella | Yr elfennau sydd ar goll | Gwasanaethau cydgysylltiedig |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen strategaeth, gweledigaeth a model gwasanaeth clir, rhanbarthol a chyllid tymor hir i gyflwyno'r gwasanaethau | Swyddogaeth cysylltydd dementia yn y 3ydd sector wedi dod â swyddogaethau eraill at ei gilydd yn canolbwyntio ar ddementia ac yn gweithio fel tîm amlddisgyblaethol | Ymgynghorwyr wedi eu hyfforddi i gynorthwyo pobl â dementia | Mae gofalwyr answyddogol wedi ymlâdd – gellid osgoi hyn pe gallent gael y cymorth iawn | Mae dementia mor eang – mae ar draws y gymuned gyfan ac mae angen iddo fod yn rhan o gynllunio a datblygiad o ddydd i ddydd |
| Y peth trosfwaol nad ymdrinnir ag ef yw gofal sylfaenol yn lapio am y person, cysylltydd ar hyd eu taith | Gwasanaeth Nyrs Admiral newydd yn eistedd gyda gofal cymdeithasol – darparu cymorth, dod â gweithwyr proffesiynol eraill ynghyd o amgylch y person | Mae angen i **bob** Meddyg Teulu gymryd y cyfrifoldeb am ragnodi dementia | Dim trosolwg ganolog ar gofrestrau dementia meddygon teulu | Mae angen i sefydliadau yn awr wneud eu rhan i ffurfio dull integredig cydgysylltiedig – dim yn hawdd yng Ngorllewin Cymru |
| Nid oes llwybr cydlynol ac mae diffyg gofal/dealltwriaeth o ddementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | Rhai enghreifftiau da – Delta Connect, bywydau hapus – gofal cartref yn canolbwyntio ar y person, Ceredigion – dod o hyd i ddatrysiadau da – teimlad gwirioneddol o dîm | Gallai Meddygon Teulu/GPPI wneud diagnosis uniongyrchol o ddementia. Dylai tîm iechyd meddwl ganolbwyntio ar ddiagnosis arbenigol | Rheoli rhaglen gwasanaethau dementia Gorllewin Cymru drwy'r WWCP, gwerthuso gwasanaeth ac adrodd am berfformiad | Llawer o drosglwyddiadau rhwng gwasanaethau – anhawster gyda gofal tymor hir – ble mae dementia yn eistedd? Does gan yr un gwasanaeth y capasiti i reoli'r garfan fawr hon |
| Meddwl am ddementia fel problem iechyd meddwl ac felly pan fydd rhywun yn ymgyflwyno gydag ymddygiad heriol maent yn galw ar Iechyd Meddwl | Alzheimer's yn darparu cymorth cyn diagnosis yn dilyn atgyfeirio – pobl yn mynd yn syth at gymorth wyneb yn wyneb yn hytrach na chanolfan alw | Gellir addasu adborth y system genedlaethol ar ofal ysbyty ar gyfer PBGD a'i ofalwyr i roi adborth ar ein **holl** wasanaethau | Angen cael sgyrsiau ynghylch gofal diwedd oes yn gynt. Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn amharod i gychwyn sgyrsiau am gynllun gofal ymlaen llaw | Mae angen i weledigaeth a model y gwasanaeth sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau a'u bod yn gydgysylltiedig |

ebruary 2022

## Mae'r themâu a ddeilliodd o'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid wedi dylanwadu ar ddatblygiad llwybr y model gwasanaeth a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership


| Cyfathrebu | Sut mae pobl yn cael diagnosis | Sut mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau | Gweithlu a hyfforddiant | Y defnydd o dechnoleg |
|---|---|---|---|---|
| Llesiant dementia yn yr ysbytai aciwt yn cefnogi addasiadau rhesymol ar gyfer y rhai a dderbynnir. Rhan o dîm amlddisgyblaethol y ward – ar fin cael ei werthuso | Nid yw asesiad gofalwyr yr Awdurdod Lleol yn dibynnu ar ddiagnosis ond rydych yn dal i glywed amdano | Gofal cymdeithasol, gofal cartref, gofal seibiant – mwy anodd ei gael a llai sicr. Loteri cod post o ran mynediad | Bydd y tîm llesiant dementia rhanbarthol sydd ar fin cael ei lansio yn darparu hyfforddiant i uwchsgilio staff a dull tîm amlddisgyblaethol arbenigol ar gyfer achosion cymhleth | Yn unol ag arfer gorau, dylai'r defnydd o dechnoleg fod yn ganolog i ddarparu gwasanaethau dementia |
| Ar hyn o bryd gormod o drosglwyddiadau heb eu cysylltu yn unrhyw ffordd angen cyd-drefnu a rheoli achosion | Mae angen adnabod a chael diagnosis yn gynt mewn gofal sylfaenol. Angen cyflymu diagnosis dementia yn unol ag asesiadau CHC | Ble mae bywydau pobl yn eistedd? Darlun cyfannol – angen i anghenion y gofalwyr wedi eu coladu gael eu cynnwys o fewn cofnod y person sy'n byw gyda dementia. | Mae angen i bobl sy'n darparu gofal fedru canfod dementia a chael y sgiliau i gynorthwyo – mae angen hyfforddiant adnewyddu rheolaidd | Mae Delta connect yn ceisio datblygu gofal fel y gall y person aros gartref |
| Datblygu strwythur i wasanaethau gyfathrebu'n well â'i gilydd/rhannu gwybodaeth –mae'r hyn sydd ar gael yn y gymuned yn teimlo'n fratiog iawn | Ystyried beth yw pwrpas y diagnosis? Triniaeth? Meddyginiaeth? Gohirio'r anochel? Seibiant, cymorth i'r gofalwr? | Mae cyfle i bwynt mynediad canolog drwy wasanaeth Delta Wellbeing a ddarperir yn rhanbarthol | Mae ar feddygon teulu angen hyfforddiant i ganfod arwyddion cynnar dementia a phroblemau corfforol yn y camau diweddarach. Mae angen i rai sy'n mynd yn nyrsys iechyd meddwl gael hyfforddiant mewn dementia | Mae'r tîm Llesiant yn gweithio gyda Delta connect – ceisio uwchsgilio'r tîm argyfwng i atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty |
| Y CYNTAF O'I FATH – Mae Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio yn yr Alban ac yn darparu taith drwy ddementia – ymyriadau fydd yn cael eu gwerthuso, dan arweiniad protocol | Cred na ellir ei wneud ond mewn lleoliad meddygol arbenigol – rhai cleifion yn derbyn diagnosis yn yr ysbyty. Angen dull tîm amlddisgyblaethol i wneud diagnosis yn y gymuned | Angen adolygu pobl â dementia, sylwadau cymunedol, rolau fel rhagnodi cymdeithasol i osgoi dyblygu a'u halinio ar draws y system | Diffyg gwybodaeth, hyder a sgiliau mewn staff/gwasanaethau i ddeall bod pobl â dementia a'u gofalwyr yn defnyddio nifer o wasanaethau | Mae'r tîm llesiant yn gweithio gyda @learning Wales i wneud yr hyffordiant yn fwy hygyrch. Cadw mewn cof nad ydyw hyfforddiant e-ddysgu yn rhoi'r offer i bobl |

# 11. Atodiad 3: Dull rheoli'r rhaglen waith

| Gofynion y Prosiect | Cynnydd | Y peth allweddol a gyflawnwyd |
|---|---|---|
| Adolygu llywodraethu rhanbarthol presennol i sicrhau perchnogaeth amlddisgyblaethol ar Gynllun y Gronfa, ei gyflawni a'i werthuso | ✓ | Mae'r adroddiad hwn yn darparu amlinelliad o raglen a awgrymir |

# Sut mae rheoli rhaglen yn dda yn edrych?

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership



# Cydrannau rhaglen dda(1)


Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

| | Gweledigaeth, Arweinyddiaeth a Diwylliant | Llywodraethu Rhaglen | Rheoli Rhanddeiliaid a Chyfathrebu | Cynllunio ac Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| Sut mae da yn edrych | • Gweledigaeth glir gyffredin yn cael ei pherchnogi gan yr holl bartneriaid<br>• Arweinyddiaeth gydgysylltiedig yn ymgysylltu'n llawn<br>• Gweledigaeth a strategaeth wedi eu halinio â strategaethau sefydliadau partneriaid a strategaethau rhanbarthol/cened-laethol perthnasol | • Strwythur llywodraethu clir yn ei le sy'n cynnwys mewnbwn ar y lefel gywir i wneud penderfyniadau a rheoli risgiau/problemau<br>• Proses glir yn ei lle ar gyfer uwchgyfeirio risgiau, problemau a chyfleoedd<br>• Strwythur diwastraff; amser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gyda chydbwysedd rhwng trafodaeth a gweithredu<br>• Mae gan dîm y rhaglen ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau<br>• Ymgysylltiad claf/cyhoedd wedi ei gynnwys wrth lywodraethu'r rhaglen<br>• Arweinyddiaeth glinigol yn rhan o lywodraethu'r rhaglen | • Mapio rhanddeiliaid a chynlluniau cyfathrebu yn eu lle<br>• Mae perthynas â rhanddeiliaid allweddol yn cael ei rheoli'n rhagweithiol<br>• Targedir cyfathrebiadau allanol at gynulleidfaoedd perthnasol a defnyddir iaith/fformat cyfathrebu hawdd<br>• Cyfathrebiadau mewnol i roi gwybodaeth i dîm y rhaglen a chefnogi dynameg y tîm.<br>• Caiff llwyddiannau eu dathlu'n fewnol ac mae pob maes yn y rhaglen yn cyfrannu i astudiaethau achos a storïau newyddion da ar gyfer defnydd allanol. | • Mae achos busnes cyffredinol cadarn dros y rhaglen yn ei le ac wedi cael ei gytuno gan y partneriaid, gyda phwyntiau adolygu yn eu lle er mwyn sicrhau hyfywedd parhaus<br>• Mae cynllun clir ar gyfer pob ffrwd waith, yn egluro beth fydd yn cael ei gyflawni, sut a phryd<br>• Mae elfennau rhyngddibynnol wedi cael eu mapio<br>• Mae'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen wedi cael eu mapio a'r buddsoddiad wedi cael ei gytuno<br>• Gofynion OD wedi eu mapio a strategaeth yn ei lle ar gyfer cyflawni cydgysylltiedig |
| Offer a chynnyrch | • Gweledigaeth / cenhadaeth / datganiad gwerthoedd<br>• Memorandwm Dealltwriaeth / cytundeb partneriaeth<br>• Achos busnes amlinellol | • Siart(iau) Strwythur Llywodraethu'r Rhaglen<br>• Maes Gorchwyl<br>• Blaengynllun cyfarfodydd<br>• Siart sefydliadol tîm y rhaglen<br>• Matrics rolau / cyfrifoldebau<br>• Prosesau adrodd ac uwchgyfeirio risgiau/problemau<br>• Templedi ar gyfer agendâu cyfarfodydd, nodiadau a chamau gweithredu, adroddiadau am | • Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu'r Rhaglen / Cynllun Gweithredu<br>• Offeryn mapio rhanddeiliaid<br>• Proses gyfathrebu fewnol<br>• Proses a dogfennaeth yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb<br>• Casgliad craidd o ddogfennaeth/cyflwyniadau/ templedi wedi eu brandio i'w defnyddio gydag ystod o | • Cynllun rhaglen lefel uchel gyda cherrig milltir a dibyniaethau hollbwysig<br>• Cynllun rhaglen manwl<br>• Cynllun gwaith y Swyddog Rheoli Rhaglen (SRhRh)<br>• Olrheiniwr recriwtio ac adnoddau (tîm y rhaglen)<br>• Proses yr achos busnes, templed ac arweiniad<br>• Cynllun ariannol |

# Cydrannau rhaglen dda(2)

| | Olrhain deilliannau a Buddion | Risg a Rheolaeth | Cefnogi'r Rhaglen | Rheolaeth Ariannol |
|---|---|---|---|---|
| Sut mae da yn edrych | • Mae buddion ariannol y rhaglen a rhai heb fod yn ariannol wedi cael eu mynegi'n glir (yn cynnwys symud gweithgaredd, ansawdd clinigol a phrofiad y claf) ac wedi cael eu profi gyda rhanddeiliaid allweddol<br>• Mae methodoleg gadarn yn ei lle i olrhain buddion ar draws pob ffrwd gwaith<br>• Data sylfaenol wedi ei gofnodi<br>• Targedir mesurau deilliannau i fedru monitro ymyriadau penodol – i weld a yw newid yn effeithiol<br>• Casgliadau data presennol ac adroddiadau yn cael eu defnyddio lle bynnag y bo modd i leihau'r baich o adrodd (dull diwastraff) | • Risgiau allweddol i gyflawni'r rhaglen wedi cael eu mapio a chamau gweithredu lliniarol wedi eu nodi<br>• Prosesau clir yn eu lle ar gyfer nodi ac olrhain risg, gyda lefelau uwchgyfeirio<br>• Dogfennaeth gyson, gadarn yn cael ei defnyddio ar draws y rhaglen i gefnogi rheoli risg yn rhagweithiol a darparu llwybr olrhain<br>• Cofrestr risg y rhaglen yn cael ei gynnal a'i adolygu yn rheolaidd gyda thystiolaeth o ddilyn i fyny. Camau lliniarol wedi eu cofnodi a'u dilyn drwodd. | • Mae gwybodaeth yn cael ei rheoli'n dda ac yn hawdd i ddod o hyd iddi e.e. Rhestr gysylltiadau, strwythur ffeilio, protocolau yn eu lle i gadw llwybr olrhain archwilio<br>• Rheolaeth newid yn ei lle ar gyfer dogfennau/offer craidd<br>• Tîm y Swyddog Rheoli Rhaglen yn gallu cefnogi'r staff gweithredol / ffrydiau gwaith drwy leihau baich y ddogfennaeth<br>• Swyddog Rheoli'r Rhaglen yn cynghori a chefnogi tîm y rhaglen/arweinwyr cyflawni; datblygu sgiliau, gwella ansawdd<br>• Sicrwydd ansawdd yn ei le ar gyfer pethau allweddol sydd i gael eu cyflawni | • Y gyllideb wedi ei chytuno ar gyfer adnoddau'r rhaglen<br>• Mecanweithiau cadarn yn eu lle ar gyfer rheoli cyllideb y rhaglen - gosod cyllideb, rheoli newid, monitro, cyfrifon taladwy, caffael |
| Offer a chynnyrch | • Achos busnes/ Gwerthuso buddsoddiad<br>• Fframwaith buddion / deilliannau, cofnodi dangosyddion perfformiad allweddol, mesurau deilliannau, metrigau ac yn y blaen)<br>• Cynllun sylweddoli buddion ac offeryn olrhain | • Cofrestr risg a phroblemau'r rhaglen<br>• Proses rheoli risg a chanllawiau | • Rhestr cysylltiadau'r rhaglen<br>• Protocolau rheoli gwybodaeth a strwythur ffeilio<br>• Calendr/mewnflwch rhaglen cyffredin | • Proses rheolaeth ariannol y rhaglen<br>• Cyllideb y rhaglen |

# Dull Cyflawni Arfaethedig: Rheoli Ffrydiau Gwaith y Rhaglen



Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

# Cysylltiadau

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Attain

| | | |
|---|---|---|
| Martin Wilson | martin.wilson@attain.co.uk | 07710 744391 |
| Su Gordon-Graham | su.gordon-graham@attain.co.uk | 07717 035647 |
| Adele Yemm | adele.yemm@attain.co.uk | 07766 681051 |
| Cherie Cope | cherie.cope@Attain.co.uk | 07787 427341 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 4

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **DYDDIAD:** | **27 Hydref 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion)** |
| | **ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL CHWARTER 4 2021 – 2022** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod pedwerydd chwarter 2021/2022. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol a'r Aelodau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol. |

**CEFNDIR:**

Atodir Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer chwarter 4 2021/2022.

Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen gweithredu ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS

Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn cyfarfodydd sicrhau ansawdd plant sy'n Derbyn Gofal Amlasiantaethol sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn.

Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol sy'n cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant a Diwylliant, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter.

CRYNODEB O'R PWYNTIAU ALLWEDDOL:

- Ar ddiwedd y chwarter hwn, o 30 Mawrth 2022 ymlaen roedd 100 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn gynnydd o 3 yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Ar ddiwedd chwarter 3, roedd 97 o blant yn derbyn gofal.
- Cafodd 61 o blant eu hadolygu yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â 72 yn y chwarter blaenorol. Cafodd 90.2% eu hadolygu o fewn y terfyn amser statudol.
- Roedd 3 o blant wedi gadael gofal yn y chwarter hwn o'i gymharu â 7 yn chwarter 3. Roedd Gorchmynion Gofal 2 o blant wedi cael eu dirymu ac aeth 1 ymlaen i leoliad Pan Dwi'n Barod.
- Y ddarpariaeth leoli ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd 25 mewn gofal maeth yr Awdurdod Lleol, 8 wedi'u lleoli gyda rhieni, 7 wedi'u lleoli gyda theulu, 1 gydag Asiantaeth Maethu Annibynnol, 6 mewn gofal preswyl, 6 gyda gofalwyr sy'n berthnasau, 1 mewn lleoliad mabwysiadu ac 1 mewn llety â chymorth. Roedd 18 yn lleoliadau y tu allan i'r sir.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 90.2% o'r plant ymweliad statudol. Roedd hyn yn cymharu ag 95.8% yn chwarter 3
- Roedd 28 o'r plant a adolygwyd yn destun Gorchymyn Gofal Llawn, roedd gan 23 Orchymyn Gofal Dros Dro, roedd 3 ar Orchymyn Lleoli, ac roedd 7 o dan statws cyfreithiol Adran 76.
- Cofnodwyd bod 54% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth yn bodloni anghenion y plant/ pobl ifanc a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn.
- Faint o amser mewn Gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal Ceredigion a adolygwyd yn chwarter 4 – 20 o dan 6 mis, 9 rhwng 6 – 12 mis, 9 rhwng 1 – 2 flynedd, 23 dros 2 flynedd.
- Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal oedd 98.4% yn y chwarter hwn.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgynghori ynghylch eu hadolygiad oedd 100%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 100%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 100%.
- Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu oedd 100%.
- Cynhaliwyd 27 (84.4%) o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybrau o fewn y terfynau amser o'i gymharu â 94.1% yn y chwarter blaenorol.

- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer eu cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 96.9% (31 adolygiad) gyda 1 (3.1%) person ifanc wedi'i gofnodi fel un sy'n gwrthod ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol.

| | |
|---|---|
| **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam** | Naddo |

***Crynodeb:***
Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion.

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol |
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid |
| **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu |

**ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Siân Howys** |
| **Swydd:** | **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 9 Mehefin 2022 |
| **Acronymau:** | IRO – Swyddog Adolygu Annibynnol<br>LAC – Plant sy'n Derbyn Gofal;<br>CAFCASS – Gwasanaeth Cynghori a Chymorth i Blant a Theuluoedd<br>APR – Cofnodion Gweithredu a Chynnydd<br>PEP – Cynllun Addysg Bersonol<br>PI – Dangosyddion Perfformiad<br>CAMHS – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |

NEET – Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant
PRU – Uned Cyfeirio Disgyblion

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

## Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

## Chwarter 4: 1 Ionawr 2022 – 31 Mawrth 2022

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

**CYNNWYS**

**TUDALEN:**


| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN UN:** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **ADRAN DAU:** | **CYNLLUNIO GOFAL** | **4** |
| **ADRAN TRI:** | **YMGYNGHORI A CHYFRANOGI** | **20** |
| **ADRAN PEDWAR:** | **PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU** | **23** |
| **ADRAN PUMP:** | **GWERTHUSO** | **23** |
| **ADRAN CHWECH:** | **CYNLLUNIAU LLWYBR** | **24** |
| **ADRAN SAITH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR** | **26** |
| **ADRAN WYTH:** | **SEIBIANNAU BYR** | **27** |
| **ADRAN NAW:** | **GOFALWYR MAETH** | **28** |

## ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro sy'n cael eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth plant a Theuluoedd.

## MEINCNODI

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw ymarferion gwael.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Barnwyd nad oedd angen gwneud hyn ar gyfer unrhyw blant/bobl ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

*Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch ag:*


Elizabeth Upcott
Gwasanaeth Diogelu
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

# ADRAN DAU

# CYNLLUNIO GOFAL

## 1. Prif Ffigurau ar gyfer chwarter 4:

| Mae'r tabl a'r siart isod yn rhoi cyfanswm y data plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf. | |
|---|---|
| 31 Mawrth 2022 | 100 |
| 31 Rhagfyr 2021 | 97 |
| 30 Medi 2021 | 91 |
| 30 Mehefin 2021 | 89 |
| 31 Mawrth 2021 | 85 |
| 31 Rhagfyr 2020 | 79 |
| 30 Medi 2020 | 75 |
| 30 Mehefin 2020 | 78 |
| 31 Mawrth 2020 | 74 |
| 31 Rhagfyr 2019 | 72 |
| 30 Medi 2019 | 63 |
| 30 Mehefin 2019 | 64 |
| 31 Mawrth 2019 | 63 |
| 1 Ionawr 2019 | 60 |




## 2. Nifer a chanran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.


<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 90.2%</u>

Adolygwyd 61 o blant yn ystod y chwarter hwn.


- Cynhaliwyd 55 (90.2%) o gyfarfodydd adolygu plant sy'n derbyn gofal o fewn y terfynau amser statudol.

- Cynhaliwyd 6 (9.8%) cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r gofynion statudol; cofnodwyd y rhesymau fel a ganlyn:-
    - Gohiriwyd cyfarfod adolygu grŵp o 3 brawd a chwaer oherwydd sefyllfa'r plant adeg yr adolygiad a drefnwyd.
    - Roedd oedi wrth hysbysu bod teulu gyda 3 o blant yn blant sy'n derbyn gofal.

| | **Ion-Maw 2022** | **Hyd-Rhag 2021** | **Gorff-Medi 2021** | **Ebr-Meh 2021** | **Ion-Maw 2021** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter | 61 | 72 | 48 | 67 | 58 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser | 55 | 69 | 47 | 66 | 52 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser | 6 | 3 | 1 | 1 | 6 |





## 3. Oed a rhyw plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:



## 4. Natur lleoliadau'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:


| Math o Leoliad | Yn y Sir | Tu allan i'r Sir | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol | 24 | 1 | 25 |
| Lleoli â Rhieni | 7 | 1 | 8 |
| Lleoli â Theulu | 7 | - | 7 |
| Gofalwyr Asiantaeth Maethu Annibynnol | 3 | - | 3 |
| Gofalwyr sy'n Berthnasau | 1 | 5 | 6 |
| Preswyl | 1 | 5 | 6 |
| Mabwysiadu | - | 1 | 1 |
| Preswyl Mamau a Babanod | - | 3 | 3 |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Maethu Annibynnol ar gyfer Rhieni a Babanod | - | 1 | 1 |
| Ysbyty | - | - | - |
| Llety â Chymorth | - | 1 | 1 |
| Byw'n Annibynnol | - | - | - |
| | **43** | **18** | **61** |




| |
|---|
| Cafodd 58 o bobl ifanc eu lleoli gyda gofalwyr oedd yn siarad yr un iaith â nhw. |
| Cofnododd 2 Adolygiad fod y plant (cafodd yr un plentyn ei adolygu ddwywaith yn ystod y cyfnod hwn) wedi cael eu lleoli gyda gofalwr Saesneg ei iaith, roedd y plentyn o deulu Cymraeg a Saesneg ei iaith. |
| Nododd 1 adolygiad fod y person ifanc yn plentyn heb fod yng nghwmni oedolyn a chafodd ei roi mewn lleoliad gofal oedd heb fodloni ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol. |


## 5. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

| Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd | |
|---|---|
| Gorchymyn Gofal Llawn | 28 |
| Gorchymyn Gofal Dros Dro | 23 |
| Gorchymyn Lleoli | 3 |
| Adran 76 | 7 |
| **Cyfanswm** | **61** |




## 6. Y rhesymau pam bod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

| Cyfnod | Y nifer sydd wedi gadael gofal | Gadael Gofal – Rheswm | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mabwysiadu | Dychwelyd adref at y teulu | 'Pan dwi'n barod' | Diddymu'r Gorchymyn Gofal | Llety â Chymorth/ Byw'n Annibynnol |
| **Ion-Maw 2022** | **3** | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 |
| **Hyd-Rhag 2021** | **7** | 0 | 3 | 0 | 4 | 0 |
| **Gorff-Medi 2021** | **3** | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| **Ebrill-Meh 2021** | **5** | 1 | 2 | 1 | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **18** | **1** | **5** | **2** | **7** | **3** |




**7. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**


<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Cofnododd 61 (100.0%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig yn gweithio gyda'r plentyn dan sylw.

**8. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a adolygwyd o fewn y terfynau amser gofynnol.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 90.2%</u>


- Derbyniodd 55 (90.2%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.
- Ni dderbyniodd 6 (9.8%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.



**9. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 54.5%

- Roedd 11 lleoliad newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 6 (54.5%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn/person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad. Nid oedd y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer y 5 plentyn/person ifanc arall, fodd bynnag, fe'i cofnodwyd fel ei fod yn ei le adeg eu hadolygiad.




- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 3 phlentyn. Nodwyd bod y Cynllun Gofal a Chymorth wedi cael ei ddiweddaru ar gyfer pob un o'r 3 o'r plant/pobl ifanc hyn.

**10. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.**


Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 83.3%

- Cynhaliwyd 6 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn a chofnododd 5 (83.3%) adolygiad fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn cymharu â 71.4% yn y chwarter blaenorol.


- Mewn 7 (11.5%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad/Cynllun Gofal a Chymorth/Cynllun Parhad.

Roedd natur y pryderon fel a ganlyn:-


- Nododd 2 adolygiad ar gyfer grŵp o frodyr a chwiorydd eu bod yn ansicr ynghylch y lleoliad.
- Mewn 1 adolygiad roedd pryder am yr oedi hir cyn cynnal asesiadau i sicrhau opsiwn hirdymor (naill ai Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig neu faethu hirdymor)
- Mewn 2 adolygiad ar gyfer grŵp o frodyr a chwiorydd, mynegwyd pryderon am yr oedi hir wrth asesu'r brodyr a chwiorydd.
- Mewn 1 adolygiad arall, roedd pryderon bod llety dros dro bellach wedi dod yn drefniant hirdymor ac roedd yn ymddangos bod y person ifanc wedi ymddieithrio.
- Roedd pryderon am ymddygiad peryglus 1 person ifanc yn enwedig gan fod y lleoliad yn bell o Geredigion ac roedd y person ifanc am fod yn agosach. Fodd bynnag, ar yr ochr gadarnhaol, roedd cydweithio agos iawn rhwng gweithwyr proffesiynol yn yr ardal lle yr oedd y person ifanc wedi'i leoli.




## 11. Faint o amser mewn gofal:



**12. Natur y Cynlluniau Parhad:**




**13. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd ofal seibiant gan rywun heblaw eu prif ofalwyr.**


- Mewn 3 (4.9%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd bod y plentyn/person ifanc yn cael gofal seibiant byr gan rywun heblaw ei brif ofalwyr.

**14. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys oedd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.**

Targed a bennwyd: 100% Yr hyn a gyflawnwyd 60.0%

- Mewn 3 (60.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar eu cyfer.

- Mewn 2 (40%) adolygiad cofnodwyd nad oedd Cynllun Llwybr gan y person ifanc, fodd bynnag cafodd Ymgynghorydd Personol ei benodi ar gyfer un o'r bobl ifanc hyn.



**15. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (o oedran a lefel dealltwriaeth briodol) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn cael eu gofalu amdanynt.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn gysylltiedig â 40 o blant/bobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 21 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.

- Roedd 40 (100%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd o'i gymharu â 94.0% yn y chwarter blaenorol. Fodd bynnag, nododd 3 o'r adolygiadau hyn fod angen gwneud mwy o waith gyda'r plentyn/person ifanc.

**16. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynlluniau Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 37 plentyn/person ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 24 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 35 (94.6%) yn y grŵp hwn yn dangos dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).

- Nododd 2 (5.4%) adolygiad fod angen rhannu hwn gyda'r plant/pobl ifanc.

**17. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud plant sy'n derbyn gofal.**

- Mewn 12 (19.7%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu ag (18.1%) yn y chwarter blaenorol.

  Dyma oedd y rhesymau dros newid y lleoliadau:

  - Symudodd 1 person ifanc o ofalwr maeth rhieni a babanod oherwydd ei fod yn lleoliad negyddol ar gyfer asesiad parhaus y fam i leoliad gofalwr maeth rhieni a babanod pellach.
  - Yn achos 2 berson ifanc roedd y symud lleoliad oherwydd bod y gofalwr wedi rhoi rhybudd bod y lleoliad yn dod i ben.
  - Symudodd 1 person ifanc arall o leoliad gyda rhiant i leoliad gyda gofalwr maeth oherwydd esgeulustod ac anaf nad yw'n ddamweiniol.
  - Cofnodwyd mewn 2 adolygiad bod y bobl ifanc wedi symud fel cam i lawr mewn gofal wedi'i gynllunio o gartref preswyl mamau a babanod i leoliad gyda rhiant yn y gymuned
  - Roedd 2 adolygiad wedi cofnodi bod y person ifanc yn symud o leoliad tymor byr i leoliad tymor hir gyda gofalwyr sy'n berthnasau.

- ➢ Arweiniodd dadansoddiad o leoliad gofalwr maeth at 1 person ifanc yn symud i leoliad preswyl.
- ➢ Symudodd 1 person ifanc o ofalwyr maeth i leoliad preswyl.
- ➢ Mewn 2 adolygiad pellach, nodwyd bod 1 person ifanc wedi symud o leoliad tymor byr i leoliad tymor byr arall tra bod y person ifanc arall wedi symud o leoliad tymor byr i leoliad tymor hir.

**18. Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 98.4%</u>

- Cofnodwyd bod 60 (98.4%) o gynlluniau lleoli/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant/pobl ifanc o'i gymharu â 91.7% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnododd 1 (1.6%) adolygiad nad oedd y lleoliad/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plentyn/person ifanc.  Y rheswm a gofnodwyd oedd bod ymddygiad y plentyn/person ifanc wedi gwaethygu wrth i'r lleoliad tymor byr fynd rhagddo.

**19. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn.**

- Mewn 3 (4.9%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.

**20. Nifer y plant sy'n derbyn gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn plant.**


- Nodwyd mewn 3 (4.9%) adolygiad bod y person ifanc wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn plant.

**21. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 90.2%</u>

- Roedd 55 (90.2%) o'r plant/pobl Ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael asesiad iechyd cyfredol erbyn eu hadolygiad o'i gymharu â 94.4% yn y chwarter blaenorol.

- Nid oedd gan 6 (9.8%) o'r plant/pobl Ifanc sy'n derbyn gofal asesiad iechyd cyfredol adeg eu hadolygiad, fodd bynnag mae asesiadau iechyd wedi cael eu cynnal ar gyfer pob un o'r plant/pobl ifanc hyn bellach.




**Sylwadau:** Mae Asesiadau Iechyd yn eu lle bellach ar gyfer yr holl bobl ifanc hyn

**22. Canran y plant a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal**

Targed a bennwyd: 100% Yr hyn a gyflawnwyd 66.7%

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer cofrestru plant/pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal yn gysylltiedig â 6 phlentyn/pherson ifanc.

- Mewn 4 (66.7%) adolygiad cofnodwyd bod y plant/pobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.
- Mewn 2 (33.3%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc heb gofrestru eto gyda deintydd.

**Sylwadau:** Roedd y ddau berson ifanc hyn o dan 1 mlwydd oed.

**********

**Wedi cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn gysylltiedig â 50 o blant/bobl ifanc oherwydd diystyriwyd 11 plentyn/person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad plant sy'n derbyn gofal cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 43 (86.0%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu â 96.8% yn y chwarter blaenorol.

Roedd angen i 7 (14.0%) plentyn/person ifanc gael eu cofrestru gyda deintydd.

**Sylwadau:** Roedd 6 o'r adolygiadau uchod yn gysylltiedig â 3 o blant a gafodd eu hadolygu dwywaith o fewn y chwarter; roedd y person ifanc arall wedi cael ei gyfeirio at wasanaeth deintyddol.

**23. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.**

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

Mae'r data ar gyfer cael ei weld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal ofal yn gysylltiedig â 4 plentyn.

- Cofnodwyd mewn 3 adolygiad (75.0%) bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.
- Cofnodwyd mewn 1 adolygiad (25.0%) nad oedd y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

**********


**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

<u>Targed a bennwyd 90% – Yr hyn a gyflawnwyd 78.6%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn gysylltiedig â 42 o blant/bobl ifanc gan fod 19 o blant/bobl ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu hadolygiad o blant sy'n derbyn gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 33 (78.6%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn ystod y 12 mis blaenorol o'i gymharu â 51.7% yn y chwarter blaenorol.
- Cofnodwyd nad oedd 9 (21.4%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.

**Sylwadau:** Cafodd archwiliadau deintyddol arferol eu gohirio oherwydd pandemig Covid-19 a chanllawiau Llywodraeth Cymru.




**24. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi'u cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.**

- Mewn 20 (90.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

- Mewn 2 (9.1%) adolygiad cofnodwyd bod y cam gweithredu hwn yn parhau heb ei weithredu ond byddai'n gam gweithredu o'r adolygiad o blant sy'n derbyn gofal.

**25. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 98.4%</u>

- Roedd 60 (98.4%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda meddyg teulu o'i gymharu â 100% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 1 (1.6%) adolygiad cofnodwyd y byddai'r plentyn/person ifanc yn cael ei gofrestru yn dilyn yr adolygiad o blant sy'n derbyn gofal.

- Roedd 55 (91.7%) o blant wedi cael eu holl frechiadau angenrheidiol.

- Roedd 5 (8.3%) plentyn yn hwyr yn derbyn eu brechiadau, fodd bynnag, cadarnhawyd mewn 4 adolygiad bod gwaith yn parhau i ddatrys hyn, a bod rhaglen frechu gyflym yn ei lle ar gyfer y person ifanc arall.

Cafodd 1 adolygiad eu diystyru o'r ffigurau oherwydd roedd y rhiant yn gwrthod caniatáu i'r plentyn gael ei frechu.

**26. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth.**

Targed: 50%

Gwir Berfformiad

- Mewn 3 (4.9%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi'i atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd ym mhob un o'r 3 adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc.


- Mewn 57 (100.0%) o adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi'i ystyried yn yr Asesiad Iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.

- Mewn 4 adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc yn rhy ifanc, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

**27. Natur y ddarpariaeth addysg:**

Yn ystod y chwarter dan sylw roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol:

| **Darpariaeth addysg** | |
|---|---|
| plant cyn-ysgol | 14 |
| Disgyblion ysgol gynradd | 27 |
| Disgyblion ysgol uwchradd | 14 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) | 2 |
| Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol | |
| Coleg | 2 |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | 2 |
| Addysg heblaw yn yr ysgol | |
| Colli addysg | |
| Preswyl | |
| Wedi gadael yr ysgol | |
| Tiwtora | |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | |
| Cyflogedig | |
| **Cyfanswm** | **61** |




**28. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.**

<u>Targed a bennwyd 70% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn gysylltiedig â 37 o blant/bobl ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau'r ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 37 (100.0%) o blant a phobl ifanc dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.
    - Mewn 12 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu 20 diwrnod gwaith ar ôl newid ysgol yn unol â'r gofynion.
    - Mewn 25 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.

***

- Roedd gan 10 (25.0%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg anghenion dysgu ychwanegol wedi'u cydnabod.

***

- Mewn 14 (34.1%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant/pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 14 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

***

- Mewn 11 (100.0%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu pan ddechreuodd y lleoliad.

****

- Nododd 1 (2.7%) adolygiad y bu cyfnod pan oedd y plentyn/person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod wrth aros am le mewn ysgol

**29. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio**

Targed a bennwyd 0% – Yr hyn a gyflawnwyd 10.8%

- Mewn 4 (10.8%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn sgil pontio, o'i gymharu â 6.2% yn y chwarter blaenorol.

**30. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol**

Targed a bennwyd 12% gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 2.7%
Targed a bennwyd 1% gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 1 adolygiad (2.7%) adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu â 8.3% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Dyma'r gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn:-

7 sesiwn – 3.5 diwrnod
14 sesiwn – 7 diwrnod
Cyfanswm – 21 sesiwn = 10.5 diwrnod

## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

1 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 41 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 20 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bod 3 o'r rhain wedi bod yn bresennol yn eu hadolygiad.

- Cofnodwyd mewn 41 (100.0%) Adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Bu 19 plentyn/person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu drwy Teams. Roedd 22 plentyn/person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori a/neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Roedd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol gysylltiad uniongyrchol â 4 plentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu y tu allan i'r cyfarfod adolygu.

2 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli/Cynllun Ymwelydd Annibynnol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 42 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 19 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Hysbyswyd 42 (100.0%) o blant a phobl ifanc am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol a gwnaethpwyd atgyfeiriad.

**3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 32 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 29 adolygiad nad oedd y plentyn/person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 32 (100.0%) plentyn/person ifanc yn gwybod am y drefn gwyno o'i gymharu â 97.6% yn y chwarter blaenorol.

**4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 80% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 52 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 9 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 52 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a/neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a/neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a/neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon allan ar gyfer 52 adolygiad.
  Mewn 35 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 56 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 5 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu roedd yn byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn yn y ffigurau.

- Cwblhaodd 56 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a/neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Cynrychiolwyr Iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 90.2%

- Mewn 55 (90.2%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.
- Mewn 6 (9.8%) adolygiad adroddwyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

**Sylwadau:** Nodwyd bod 3 o'r bobl ifanc hyn yn byw y tu allan i'r ardal.

**7 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.6%

- Mewn 41 (97.6%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig o'i gymharu â 100.0% yn y chwarter blaenorol.

**8 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y dogfennau adolygiad o blant sy'n derbyn gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 83.6%

- Mewn 51 (83.6%) adolygiad cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu o'i gymharu â 86.1% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 10 (16.4%) adolygiad cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad.

**Sylwadau:** Mae hyn oherwydd problemau staffio o fewn y Tîm Gwaith Cymdeithasol. Mae mesurau yn cael eu rhoi yn eu lle i roi sylw i'r broblem hon.

## ADRAN PEDWAR:
## PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn. SL/FN i gadarnhau

Er y nodwyd nad oedd adolygiadau canol cyfnod yn cael eu cynnal, lle bo angen, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn dwyn adolygiadau ymlaen pan oedd pryderon.

## ADRAN PUMP

## GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

## ADRAN CHWECH

## CYNLLUNIAU LLWYBR

### Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal/pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 32 o adolygiadau o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

**1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**

- Cynhaliwyd 27 (84.4%) o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser o'i gymharu â 94.1% yn y chwarter blaenorol.

- Cynhaliwyd 5 (15.6%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r terfynau amser. Roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn: -

  - Mewn 3 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr roedd camddealltwriaeth ynglŷn â dyddiad ac amser yr Adolygiad oherwydd bod y gweithwyr wedi newid/person ifanc am fod yn bresennol.
  - Cofnododd 2 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr arall eu bod y tu allan i'r terfynau amser oherwydd absenoldeb staff.

2 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**

- Ym mhob un o'r 32 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a/neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

3 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion o'r Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod**

- Roedd y Cofnod o'r Adolygiad wedi'i gwblhau ar gyfer 24 (75.0%) o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr o'i gymharu â 64.7% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 8 (25.0%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod o'r Adolygiad wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

4 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal**

- Cadarnhawyd mewn 31 (96.9%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a/neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.

- Adroddodd 1 (3.1%) adolygiad nad oedd barn y person ifanc wedi cael ei chynrychioli oherwydd y ffaith bod y person ifanc yn gwrthod ymgysylltu â'r gweithwyr proffesiynol.

5 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu.**

- Mewn 15 (46.9%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

- Mewn 17 (53.1%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn yr adolygiad.

6 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodloni anghenion y person ifanc**

- Mewn 27 (84.4%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc dan sylw.

- Mewn 4 (12.5%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc; roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn:-

  - Roedd 2 berson ifanc yn gwrthod ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol.
  - Roedd 1 person ifanc arall yn gwrthod ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac yn ymosodol ac yn fygythiol tuag at staff.
  - Ar gyfer 1 person ifanc arall roedd hyn oherwydd newid llety o leoliad 'Pan Dwi'n Barod'.

- Mewn 1 (3.1%) adolygiad nodwyd na wyddys a oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc neu beidio gan nad oedd adroddiad wedi'i gwblhau ar gyfer yr adolygiad a doedd dim mewnbwn gan y person ifanc.

7 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal/pen-blwydd yn 18 oed**

- Adroddodd 1 (50.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr fod y Cynllun Llwybr wedi'i ddiweddaru cyn i'r person ifanc adael gofal/troi'n ddeunaw oed.

**8 Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN SAITH

## GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD

Cynhaliwyd 1 Adolygiad o Ofal Seibiant Byr Rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

**1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Ofal Seibiant Byr Rheolaidd a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol**

- Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o fewn y terfynau amser.

**2 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn lleoliadau Gofal Seibiant Byr Rheolaidd a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser gofynnol**

- Cofnodwyd bod yr ymweliadau statudol wedi'u cynnal.

**3 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy/a fynychodd y cyfarfod adolygu**

- Cafodd y person ifanc ei gynrychioli/roedd y person ifanc wedi mynychu'r cyfarfod adolygu.

**4 Dangosydd Perfformiad: Canran y rhieni yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Cyfarfod Adolygu**

- Dogfennwyd bod y rhiant naill ai wedi mynychu/wedi'i gynrychioli/yn y cyfarfod adolygu.

**5 Dangosydd Perfformiad: Canran y gofalwyr maeth yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu**

- Cadarnhawyd bod y gofalwyr naill ai wedi mynychu/wedi'u cynrychioli yn yr adolygiad.

***

## ADRAN WYTH

## SEIBIANNAU BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o seibiannau byr yn ystod y cyfnod dan sylw.

***

## ADRAN NAW

## ADOLYGIADAU O OFALWYR MAETH

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o ofalwyr maeth yn ystod y cyfnod dan sylw.

Eitem Agenda 5

**CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 27/10/2022 |
| **Teitl:** | Adroddiad ar ganfyddiadau Adroddiad Diweddaru ar Ansawdd Aer 2022, yn unol â Rhan IV Deddf Amgylchedd 1995 Rheoli Ansawdd Aer Lleol |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Darparu crynodeb i aelodau ar ganfyddiadau Adroddiad Ansawdd Aer diweddaraf Cyngor Sir Ceredigion 2022** |

## Cyflwyniad

Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod ansawdd aer gwael yn cyfrannu at ostyngiad mewn disgwyliad oes a marwolaeth ar gymhareb o rhwng 1000 a 1400 o farwolaethau yng Nghymru bob blwyddyn. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi taw llygredd aer yw'r un risg iechyd amgylcheddol mwyaf ar draws y byd.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd o dan **Ran IV Deddf yr Amgylchedd 1995** i fonitro safonau ansawdd aer yn eu hardal ac adrodd ar hyn yn flynyddol. Mewn achosion lle gwelir bod llygryddion yn uwch na'r terfynau statudol a nodwyd yn **Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010** bydd yn ofynnol i'r Awdurdod ddynodi lleoliadau o bryder fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer Lleol (AQMA). Yn y lleoliadau yma bydd yn rhaid cyflwyno Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer (AQAP) a gallant gynnwys ystod o fesurau sy'n ymestyn o reoli traffig i gynlluniau gwybodaeth i'r cyhoedd hyd nes bydd y lleoliad wedi ei ddwyn yn ôl i safonau cyfreithiol.

Yng Nghymru, Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) a Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$) yw'r ddau brif lygrydd sy'n achosi pryder. Bu i Awdurdodau Lleol eisoes ddatgan fod 40 Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi ei sefydlu, un ar gyfer Deunydd Gronynnol, a'r gweddill yn ymwneud â Nitrogen Deuocsid o draffig y ffordd.

## Monitro Ansawdd Aer yng Ngheredigion

*Dyletswyddau Monitro Statudol*

O ran dyletswyddau monitro statudol a roddwyd ar Gyngor Sir Ceredigion mae gofyniad i adrodd ar $NO_2$ a $PM_{10}$ yn flynyddol. Mae llygryddion eraill a nodwyd yn y rheoliadau (sef $SO_2$, Benzene, 1,3-Butadiene, Carbon Monocsid a phlwm) wedi eu heithrio o ofynion adrodd mandadol oni bai fod tystiolaeth o broblem yn lleol fydd angen mynd i'r afael a ef.


Yn sgil lleoliad gwledig Ceredigion a diffyg diwydiannau trwm nid oes gormodiant o ran llygryddion sydd wedi eu heithrio o adrodd mandanol yn berthnasol i'r awdurdod. Bydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn defnyddio modelu data i lunio Map Hinsawdd Llygredd Cenedlaethol Blynyddol a ddefnyddir i benderfynu a yw'r llygrydd ar lefelau cyfreithiol. Os bydd gormodiant, bydd hyn yn achosi monitro penodol o'r llygrydd dan sylw gan yr awdurdod lleol, fodd bynnag nid dyma oedd yr achos yn 2021 na'r blynyddoedd blaenorol.

*Monitro $NO_2$*

Mae Deuocsid Nitrogen neu $NO_2$, yn llygrydd aer nwyol sy'n cynnwys nitrogen ac ocsigen ac y mae'n rhan o grŵp nwyon perthnasol a elwir yn ocsidau nitrogen, neu NOx. Ffurfir $NO_2$ pan

gaiff tanwydd ffosil megis glo, nwy neu ddisel ei losgi ar dymheredd uchel. Mae'n llygrydd sy'n cael ei gysylltu'n gryf â gollyngiadau cerbydau yn enwedig o injans disel. Cysylltwyd $NO_2$ ag effeithiau andwyol o ran y niferoedd sy'n mynd i'r ysbyty am ddiagnosis amrywiol ac y mae'n hysbys hefyd ei fod yn achosi cynnydd mewn symptomau anadlol, achosion o asthma, achosion o ganser, canlyniadau andwyol ar enedigaeth a marwolaeth.

Caiff crynodiadau Nitrogen Deuocsid yng Ngheredigion ei fonitro drwy ddefnyddio Tiwbiau Tryledu caiff eu gosod fel arfer ar bostyn lamp ar bwys ochr y ffordd. Caiff y tiwbiau yma eu casglu bob mis a'u hanfon at labordy cymeradwy i'w dadansoddi. Ar ôl casglu 12 mis o ddata nodir cyfartaledd y lefelau er mwyn eu cymharu yn erbyn terfynau statudol.



Mae ein hardaloedd monitro cyfredol yn y lleoliadau canlynol:

Ffordd y Môr, Aberystwyth
Stryd Thespis, Aberystwyth
Gorsaf Rheilffordd, Aberystwyth
Cylchfan Morrisons, Aberystwyth
Dan Dre, Aberystwyth
Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan
Stryd Fawr, Aberteifi
Stryd y Cei, Aberteifi
Pendam
Talybont (Lleoliad newydd 2021)
Y Stryd Fawr, Aberystwyth (Lleoliad newydd 2021)

Gan eithrio Pendam (a ddefnyddir fel safle cefndir gwledig ar gyfer cyfeiriad ehangach) dewiswyd y lleoliadau yma'n bennaf ar sail lleoliad 'senario gwaethaf posib'" hynny yw, Strydoedd a ffyrdd sy'n amodol ar y niferoedd uchaf o dagfeydd traffig. Fodd bynnag dewiswyd y lleoliadau megis Y Stryd Fawr, yn ogystal â'r ddau leoliad yn Aberteifi yn rhannol er mwyn cadw llygad i weld yr effaith bosib o ffactorau fel systemau unffordd ac ardaloedd cerdded tymhorol ar grynodiadau $NO_2$. lleol. Roedd Talybont a'r Stryd Fawr, Aberystwyth yn ddau safle newydd yn 2021.

*Monitro $PM_{10}$*

Nid yw Deunydd Gronynnol drwy'r awyr (PM) yn llygrydd sengl ond yn hytrach yn gymysgedd o nifer elfennau cemegol. Mae'n gymysgedd cymhleth o solidau ac aerosolau sy'n cynnwys defnynnau bychain o hylif, darnau o solidau sych a chreiddiau solid sydd â haenau hylif o'u hamgylch. Mae gronynnau yn amrywio'n fawr yn eu maint, siâp a chyfansoddiad cemegol, ac mi all o bosib gynnwys ionau anorganig, cyfansoddion metelig, carbon sylfaenol, cyfansoddion organig a chyfansoddion o grawen y ddaear. Caiff gronynnau eu diffinio yn ôl eu diamedr at

bwrpas rheoleiddio ansawdd aer. Gall y rheiny sydd â diamedr o 10 micron neu lai ($PM_{10}$) gael eu hanadlu i mewn i'r ysgyfaint ac achosi effeithiau iechyd andwyol.

Gall deunydd gronynnol gael eu creu yn naturiol neu o ganlyniad i weithgaredd pobl gan fod y tu mewn neu'r tu allan yn ddibynnol ar y ffynhonnell. Gall ffynonellau deunydd gronynnol gynnwys y canlynol:

Ffynonellau biolegol naturiol o ddeunydd gronynnol
Llosgi tanwydd mewn injans cerbydau modur
Prosesau diwydiannol
Generadurau Pwêr
Llosgi pren, canhwyllau ac arogldarth
Ffyrnau, gwresogyddion, llefydd tân a simneiau
Mwg tybaco

Defnyddir data oddi wrth DEFRA i fonitro crynodiadau $PM_{10}$ yng Ngheredigion a dyma yw sail yr adroddiad blynyddol. Yn yr un modd, o ran llygryddion nas adroddwyd petai'r data yma yn cyfleu fod y llygrydd yn uwch na'r terfynau statudol bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i Geredigion ymgymryd â monitro penodol o ran lleoliadau "achos gwaethaf"

## Adroddiad Diweddaraf ar Ansawdd Aer Cyngor Sir Ceredigion 2022

Mae Adroddiad diweddaraf ar Ansawdd Aer Cyngor Sir Ceredigion yn ymdrin â data a gasglwyd yn y flwyddyn flaenorol. Felly mae Adroddiad 2022 yn ymwneud â data monitro aer a gasglwyd yn 2021.

### *Data $NO_2$ 2021*

| Site ID | Jan | Feb | Mar | Apr | May | Jun | Jul | Aug | Sep | Oct | Nov | Dec | Raw Data | Bias Adjusted (0.78) and Annualised (1) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CERE/21A/NA9S9 (Terrace Road, Aberyswtyth) | | | | | | | 16.1 | 11.2 | 25.9 | 23.5 | 23.4 | 27.1 | 21.2 | 20.4 |
| CERE/21A/NA9S6 (Thespian Street, Aberystwyth) | | | | | | | 16.8 | 18.1 | 24.8 | 21.8 | 20.8 | 23.9 | 21.0 | 20.3 |
| CERE/21A/NA9S10 (Railway Station, Aberystwyth) | | | | | | | 18.4 | 19.9 | 23.1 | 19.6 | 22.4 | 25.7 | 21.5 | 20.7 |
| CERE/21A/NA9S8 (Morrison, Aberystwyth) | | | | | | | 18.6 | 15.8 | 20.1 | 16.7 | 18.7 | 13.5 | 17.2 | 16.6 |
| CERE/21A/NA9S3 (Mill Street, Aberystwyth) | | | | | | | 22.0 | 20.5 | 24.8 | 22.8 | 22.1 | 25.7 | 23.0 | 22.2 |
| CERE/21A/NA9S5 (High Street, Lampeter) | | | | | | | 13.2 | 15.0 | 16.9 | 16.6 | 19.1 | 20.0 | 16.8 | 16.2 |
| CERE/21A/NA9S15 (High Street, Cardigan) | | | | | | | 15.3 | 13.4 | | 16.4 | 15.9 | 18.8 | 16.0 | 16.6 |
| CERE/21A/NA9S12 (Quay Street, New Quay) | | | | | | | 6.5 | 7.1 | 9.6 | 8.1 | 7.7 | 12.1 | 8.5 | 8.2 |
| CERE/21A/NA9S11 (Pendam) | | | | | | | 2.2 | 1.8 | 3.5 | 2.6 | 1.3 | 3.5 | 2.5 | 2.4 |
| CERE/21A/NA9S7 (Talybont) | | | | | | | 24.5 | 22.2 | 28.0 | 25.1 | 27.5 | 25.3 | 25.4 | 24.5 |
| CERE/21A/NA9S14 (Great Darkgate Street, Aberyswtyth) | | | | | | | 10.5 | 11.1 | 13.9 | 15.0 | 14.0 | 14.6 | 13.2 | 12.7 |


Y terfyn statudol ar gyfer $NO_2$ yw cymedr blynyddol o **40µg/m³**. Mae'r crynodiadau $NO_2$ a nodwyd ym mhob lleoliad yng Ngheredigion tipyn o dan y terfyn yma yn ystod pob mis pan gasglwyd y data. Mae'r golofn a nodir "addaswyd tueddiadau a'u nodi'n flynyddol" yn amlinellu cyfartaledd blynyddol Ceredigion ar gyfer pob lleoliad ac yn cadarnhau ein hangen i gydymffurfio yn gyfreithiol.

Dylid cadw mewn cof taw dim ond 6 mis o ddata a gasglwyd yn 2021 yn sgil cyfyngiadau y cyfnod clo. Golyga hyn y bu'n rhaid ymgymryd â system i'w trosi i ffigyrau blynyddol er mwyn cael gwerthoedd blynyddol ar gyfer cymharu â'r terfynau cyfreithiol. Mae troi i ffigyrau blynyddol yn broses lle y mae data oriau o'r 2 orsaf monitro aer cenedlaethol agosaf yn cael eu mewnbynnu i'r cyfrifiad er mwyn creu amcangyfrif dilys o'r gwir gyfartaledd ar gyfer pob un o'r safleoedd monitro. Defnyddiwyd data o Arberth, Sir Benfro ac Aston Hill, Swydd Amwythig ar gyfer ein data yn 2021. Gan y bu'n rhaid trosi ffigyrau i ffigyrau blynyddol yn ystod 2021 mae'n bosib y bydd gwir cyfartaledd blynyddol y lefelau $NO_2$ yng Ngheredigion yn gwahaniaethu rhywfaint o'r hyn a adroddwyd uchod, fodd bynnag mae'n debygol iawn taw dibwys byddai'r gwahaniaeth hynny a bydd y gwir gwerthoedd o bob safle monitro yn bendant yn parhau o fewn y terfynau cyfreithiol.

Canfuwyd bod y lleoliad monitro newydd yn Nhalybont â'r lefelau blynyddol cyfartalog uchaf o ran crynodiadau $NO_2$ ar **24µg/m$^3$**. Mae hyn yn debygol o ganlyniad i'r Gefnffordd brysur sy'n mynd drwy'r dref sy'n ffordd a ddefnyddir ar gyfer pobl sy'n teithio i Aberystwyth, Loriau trwm sy'n teithio drwy'r Sir ac ymwelwyr sy'n teithio i'r Sir yn ystod misoedd yr haf. Fodd bynnag mae'r crynodiadau yma'n parhau i fod ymhell o fewn y terfynau statudol ond bwriedir monitro'r safle yn agos yn y dyfodol.

O ganlyniad i ddiffyg data misol o 6 mis cyntaf 2021 nid oes data digonol i fedru dod i gasgliad dilys o ran effaith of pedestreiddio stryd dros dro a strydoedd unffordd newydd yn ein trefi. Nod Adroddiad Diweddaru ar Gyflwr yr Aer yn 2023 fydd edrych i weld effaith y newidiadau yma mewn systemau traffig lleol mewn lleoliadau megis Y Stryd Fawr, Aberystwyth a dwy safle monitro arall yn Aberteifi.

Tueddiadau o ran Cymedr Blynyddol Crynodiadau $NO_2$ yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf o fonitro





Fel y gwelwyd yn y graff uchod roedd crynodiadau blynyddol $NO_2$ yn y mwyafrif o leoliadau monitro yn uwch yn 2021 nag oeddent yn 2020. Yr esboniad mwyaf tebygol am hyn yw llacio cyfyngiadau cyfnod clo COVID-19 yn 2021 wnaeth arwain at gynnydd yn y gollyngiadau oddi wrth gerbydau ar ein ffyrdd. Fodd bynnag roedd y crynodiadau $NO_2$ ym mhob lleoliad yn parhau i fod tipyn yn is na'r cyfartaledd blynyddol o **40µg/m$^3$**. Bydd y monitro a wnaed yn 2022 yn parhau i fonitro'r tueddiad blynyddol yma.

*Data $PM_{10}$ 2021*

Terfyn Statudol ar gyfer $PM_{10}$ yw cyfartaledd blynyddol o $40\mu g/m^3$.

Fel y gwelwyd yn y data isod a fapiwyd gan DEFRA, yn debyg i weddill Cymru wledig mae llai na $13\mu g/m^3$ fel cyfartaledd blynyddol $PM^{10}$ yn 2021 o ran yr aer yng Ngheredigion ac y mae hyn yn llai na thraean o'r terfyn statudol. Roedd hyn yn cynnwys ein tref fwyf prysur sef Aberystwyth. Dylid nodi'r ffaith fod y crynodiadau ond yn uwch na'r cyfartaledd yma mewn ardaloedd mwyaf adeiledig a diwydiannol megis De Cymru a *Merseyside*.






**Casgliad**

Er y canfuwyd bod y crynodiadau $NO_2$ ychydig yn uwch yn 2021 na 2020, mae Ceredigion yn parhau i brofi rhai o'r safonau ansawdd aer gorau yng Nghymru ac y mae pob un o'r lleoliadau monitro yn cydymffurfio'n dda iawn â'r safonau cyfreithiol. Gellir dweud bod unrhyw gynnydd mewn $NO_2$ a nodwyd yn 2021 i'w gymharu â 2020 yn ymwneud â chodi cyfyngiadau cyfnod clo. Nod yr Adroddiad Diweddaru ar Ansawdd Aer y flwyddyn nesaf fydd parhau i fonitro lefelau llygryddion statudol yn y sir er mwyn sicrhau byddwn yn parhau i gydymffurfio â safonau cyfreithiol.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes nodwch pam** | | Na nid oes unrhyw newid arfaethedig i'r polisi na'r trefniadau cyfredol o ganlyniad i'r adroddiad. |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb* Hirdymor:** | Amddiffyn y Cyhoedd, Mae cydymffurfio ag Ansawdd Aer yn ddyletswydd statudol ar yr awdurdod ac yn cyfrannu tuag at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| | **Cydweithio:** | Bydd Amddiffyn y Cyhoedd yn cydweithio ag asiantaethau partner gan gynnwys DEFRA a Llywodraeth Cymru o ran Ansawdd Aer. |
| | **Cynnwys:** | Bydd Amddiffyn y Cyhoedd yn cyhoeddi'n flynyddol Adroddiad Diweddaru ar Ansawdd Aer fydd ar gael i'r cyhoedd. |
| | **Atal:** | Bydd monitro Ansawdd Aer gan Amddiffyn y Cyhoedd yn sicrhau y nodir yn syth unrhyw |

| | |
|---|---|
| | elfennau sy’n uwch na’r terfynau statudol ac y gellir mynd i’r afael â hynny. |
| **Integreiddio:** | Bydd gweithgareddau Amddiffyn y Cyhoedd yn unol ag amcanion partneriaethau iechyd gan gyfrannu at nifer o’r nodau llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. |

**Argymhelliad:**

Gofynnir i’r pwyllgor craffu nodi cynnwys yr adroddiad ac argymhellir i’r Cabinet y dylai’r adroddiad gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a’i gyflwyno i DEFRA yn unol â gofynion statudol.

**Rheswm dros y penderfyniad:** Cyflawni goblygiadau cyfreithiol yr awdurdod i fonitro ansawdd yr aer gan hefyd gyhoeddi’r canfyddiadau.

| | |
|---|---|
| **Enw cyswllt:** | Heddwyn Evans, Elis Gwyn |
| **Swydd:** | Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 6ed Hydref 2022 |
| **Acronymau:** | AQMA- Ardal Rheoli Ansawdd Aer<br>AQAP- Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer |

**Papurau Cefndir:**
Cyngor Sir Ceredigion
Adroddiad Diweddaru Ansawdd Aer 2022

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams (Polisi, Perfformiad ac Amddiffyn y Cyhoedd) |

# Cyngor Sir Ceredigion

## Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2022

Er mwyn bodloni Rhan IV o Ddeddf
yr Amgylchedd 1995

Rheoli Ansawdd Aer Lleol

Dyddiad: Hydref 2022

| Gwybodaeth | Manylion |
|---|---|
| **Swyddog Awdurdod Lleol** | Elis Gwyn |
| **Adran** | Diogelu'r Cyhoedd |
| **Cyfeiriad** | elis.gwyn@ceredigion.gov.uk |
| **Ffôn** | 01970633351 |
| **Ebost** | elis.gwyn@ceredigion.gov.uk |
| **Cyfeirnod yr Adroddiad** | CSC/AQ/2022 |
| **Dyddiad** | 05/10/2022 |

# Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn ein Hardal ni

## Ansawdd Aer yng Ngheredigion

Mae’r Adroddiad Cynnydd hwn ar y Strategaeth Ansawdd Aer yn cadarnhau, fel yn y blynyddoedd blaenorol, y cydymffurfiwyd â'r **holl safonau ac amcanion ansawdd aer statudol presennol** yn 2021 ym mhob lleoliad yng Ngheredigion. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, felly, ni ystyrir ei bod yn angenrheidiol symud ymlaen i gynnal asesiadau manylach o ansawdd aer yng Ngheredigion neu ddatgan unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA).

Prif ffynhonnell llygredd aer yng Ngheredigion yw allyriadau cerbydau o rwydwaith ffyrdd y sir. Mae economi'r sir hefyd yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth, gyda phoblogaeth y sir yn dyblu yn ystod gwyliau haf ysgolion, gan arwain at gynnydd mewn allyriadau cerbydau. Er gwaethaf hyn, mae'r tueddiadau a fesurwyd ar gyfer $NO_2$ yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn lleoliadau "problemus" yn y sir ar i lawr, heb unrhyw achosion o ormodiant yn erbyn y safonau wedi’u canfod mewn unrhyw leoliadau (gan gynnwys lleoliadau wrth ymyl y ffordd a lleoliadau "sefyllfa waethaf"). Ni pharhaodd y duedd ar i lawr hon yn 2021 gyda chrynodiadau nitrogen deuocsid ychydig yn uwch na'r rhai a welwyd yn 2020, fodd bynnag, mae'n debygol bod hyn i'w briodoli i godi mesurau cyfnod clo COVID-19 a oedd yn eu lle yn 2020 a'r cynnydd cysylltiedig mewn traffig ffyrdd.

Roedd modelu data a gynhaliwyd gan DEFRA yn dangos bod aer Ceredigion yn profi llai na 13µg/m3 fel cymedr blynyddol o $PM_{10}$ yn 2021. Roedd hyn yn cynnwys ein tref brysuraf, sef Aberystwyth. Mae llygredd aer yng Ngheredigion, yn arbennig o ran nitrogen deuocsid a $PM_{10}$, yn parhau i fod ymysg yr isaf yng Nghymru.

## Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer

Nid oedd y data monitro a gasglwyd ar gyfer 2021 wedi nodi unrhyw ofyniad i gynnal asesiad manwl neu ddatgan ARhAA. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn parhau i fonitro ansawdd aer yr ardal ac yn adolygu'r data a gesglir yn barhaus er mwyn penderfynu a oes angen cymryd camau gweithredu adweithiol.

## Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Yn ystod haf 2021, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi creu ardaloedd dros dro i gerddwyr ym mhrif drefi twristiaeth Ceredigion, gan gynnwys Aberystwyth, Aberaeron, Ceinewydd ac Aberteifi, lle cafodd eu strydoedd mawr eu pedestreiddio dros dro yn ystod y misoedd prysur lle mae lefelau uchel o dwristiaeth. Roedd yr ardaloedd dros dro i gerddwyr yn creu'r potensial i amrywio ansawdd aer lleol oherwydd bod strydoedd amrywiol yn cael eu rhyddhau rhag allyriadau cerbydau, gyda strydoedd eraill o bosibl yn profi allyriadau uwch yn dilyn ffurfio strydoedd unffordd o amgylch yr ardaloedd i gerddwyr.

Defnyddiwyd lleoliadau monitro $NO_2$ yn Stryd y Cei a'r Stryd Fawr, Aberteifi ynghyd â lleoliad newydd a sefydlwyd yn y Stryd Fawr, Aberystwyth yn 2021 er mwyn arsylwi ar unrhyw amrywiad mewn ansawdd aer lleol a achosir gan newidiadau i’r trefniadau traffig. Mae'n ymddangos nad yw pedestreiddio Stryd Fawr Aberteifi ac Aberystwyth wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar grynodiadau $NO_2$, ac arhosodd y lefelau o fewn y terfynau statudol. Fodd bynnag, dylid ystyried y ffaith mai dim ond gwerth 6 mis o ddata crai (Gorffennaf-Rhagfyr) y gellid ei gasglu trwy gyfrwng tiwbiau tryledu yn 2021, ac nid oedd y pedestreiddio yn weithredol yn ystod y mwyafrif o'r misoedd hyn. Roedd y monitro cyfyngedig hwn yn ganlyniad i gyfyngiadau rheoliadau COVID-19 yn ystod hanner cyntaf 2021. Yn y dyfodol, bydd yn flaenoriaeth i barhau i fonitro ar gyfer nitrogen deuocsid ym mhrif drefi'r sir i sicrhau bod casgliadau dilys yn cael eu gwneud ynghylch effaith pedestreiddio ar ansawdd aer lleol.

Yn 2021 y lleoliad monitro newydd Tal-y-bont oedd â'r crynodiad cymedrig blynyddol uchaf o $NO_2$ ar 24µg/m3. Y rheswm tebygol am hyn yw'r gefnffordd brysur sy'n mynd trwy'r dref a ddefnyddir gan gymudwyr sy'n teithio i Aberystwyth, cerbydau nwyddau trwm yn teithio trwy'r sir, a thwristiaid sy’n ymweld â'r sir yn ystod misoedd yr haf. Mae'r crynodiad hwn yn dal i fod o fewn y terfyn statudol ar hyn o bryd a bydd y safle'n parhau i gael ei fonitro yn y dyfodol.

## Sut i Gymryd Rhan

Gall aelodau'r cyhoedd gael rhagor o wybodaeth am ansawdd aer trwy gysylltu ag awdur yr adroddiad.

## Tabl Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn ein Hardal ni ........ i**
**Ansawdd Aer yng Ngheredigion ........ i**
Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer ........ i
Blaenoriaethau a Heriau Lleol ........ ii
Sut i Gymryd Rhan ........ ii
**1 Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer ........ 1**
1.1 Gwaith Blaenorol mewn Perthynas ag Ansawdd Aer ........ 1
1.2 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ........ 2
1.3 Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar waith ........ 2
**2 Data Monitro Ansawdd Aer a Chymharu ag Amcanion Ansawdd Aer ........ 3**
2.1 Crynodeb o'r Monitro a Wnaed yn 2021 ........ 3
2.1.1 Safleoedd Monitro Awtomatig ........ 3
2.1.2 Safleoedd Monitro Anawtomatig ........ 3
2.2 Canlyniadau Monitro Ansawdd Aer 2021 ........ 16
2.3 Cymharu Canlyniadau Monitro 2021 â'r Blynyddoedd Blaenorol a'r Amcanion Ansawdd Aer ........ 19
2.3.1 Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) ........ 19
2.3.2 Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$) ........ 20
2.3.3 Deunydd Gronynnol ($PM_{2.5}$) ........ 20
2.4 Crynodeb o Gydymffurfiaeth ag Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer o 2021 ymlaen ........ 20
**3 Datblygiadau Lleol Newydd ........ 21**
3.1 Ffynonellau Traffig Ffyrdd (a Thrafnidiaeth Arall) ........ 21
3.2 Ffynonellau Diwydiannol / Ffo neu Heb eu Rheoli / Ffynonellau Masnachol ........ 21
3.3 Ffynonellau Eraill ........ 21
**4 Polisïau a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd a Gludir yn yr Aer ........ 22**
4.1 Strategaeth Ansawdd Aer Leol / Ranbarthol ........ 22
4.2 Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer ........ 22
4.3 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol ........ 23
4.4 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol ........ 24
4.5 Amcanion Llesiant Awdurdodau Lleol ........ 24
4.6 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd ........ 26
**5 Casgliad a Chamau Gweithredu Arfaethedig ........ 28**
5.1 Casgliadau o'r Data Monitro Newydd ........ 28
5.2 Casgliadau yn ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd ........ 28
5.3 Casgliadau Eraill ........ 28
5.4 Camau Gweithredu Arfaethedig ........ 29
**Cyfeiriadau ........ 30**

**Atodiadau** .......... **30**
**Atodiad A: Canlyniadau Monitro Tiwbiau Tryledu Misol** .......... **31**
**Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol** .......... **33**
Pwrpas Adroddiad Cynnydd Blynyddol .......... 33
Amcanion Ansawdd Aer .......... 33
**Atodiad C: Data Monitro Ansawdd Aer SA/RhA** .......... **35**
SA/RhA Monitro Tiwbiau Tryledu .......... 35
Blwyddoli Tiwbiau Tryledu .......... 36
Ffactorau Addasu ar gyfer Tuedd Tiwbiau Tryledu .......... 36
Gostyngiad $NO_2$ gyda phellter o'r ffordd .......... 36
**Rhestr Termau** .......... **39**

## Tablau

Tabl 2.1 – Manylion Safleoedd Monitro Anawtomatig

Tabl 2.2 – Cymedr Blynyddol $NO_2$ Canlyniadau Monitro

Tabl A.1 – Canlyniadau Misol Llawn Tiwbiau Tryledu ar gyfer 2021

Tabl B.1 – Amcanion Ansawdd Aer sydd wedi'u Cynnwys yn y Rheoliadau at Ddiben RhAALl yng Nghymru

## Ffigurau

Ffigur 2.1 – Mapiau o Safleoedd Monitro Anawtomatig

Ffigur 2.2 – Tueddiadau mewn Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$

# 1 Camau Gweithredu i Wella Ansawdd Aer

## 1.1 Gwaith Blaenorol mewn Perthynas ag Ansawdd Aer

Mewn Adroddiadau Cynnydd blaenorol ar y Strategaeth Ansawdd Aer, sefydlwyd nad oedd unrhyw achos o ormodiant yn erbyn safonau ansawdd aer ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion aer â blaenoriaeth a nodir yn y Rheoliadau mewn unrhyw leoliad yng Ngheredigion (gan gynnwys wrth ymyl ffyrdd lle ceir tagfeydd). At hynny, ni ragwelwyd unrhyw achosion o ormodiant yn y dyfodol ar sail y tueddiadau a arsylwyd a’r amcanestyniadau a fodelwyd.

Defnyddiwyd dull rhestr wirio ac offer sgrinio yn hanesyddol i nodi ffynonellau posibl o lygredd aer yn y sir dros nifer o flynyddoedd. Mae'r holl ffynonellau posibl o lygredd aer a awgrymir yn y Canllawiau Technegol wedi cael eu hystyried, ac mae monitro parhaus $NO_2$ wedi'i ystyried yn angenrheidiol. Caiff lleoliadau monitro eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â materion a datblygiadau newydd fel yr argymhellir yn y canllawiau ac ati.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cynnydd diwethaf ar gyfer Ceredigion ym mis Medi 2020 a chafodd ei dderbyn gan DEFRA / Llywodraeth Cymru fel un oedd yn cynrychioli cyflwr ansawdd aer Ceredigion yn gywir. Roedd y canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r amcanestyniadau cenedlaethol.

Nid oes unrhyw ffynonellau sylweddol o lygredd aer diwydiannol yng Ngheredigion – mae datblygiadau diwydiannol, ffyrdd a datblygiadau eraill yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith gymharol isel o ran ansawdd aer.

Adroddwyd mewn Adroddiad Cynnydd blaenorol (gan ddefnyddio data a fodelwyd gan DEFRA ar gyfer 2015) fod crynodiadau amcangyfrifedig PM2.5 yn agos at safon yr Alban o 10µg/$m^3$ (hefyd safonau canllaw Sefydliad Iechyd y Byd) mewn rhai lleoliadau wrth ymyl y ffordd lle ceir tagfeydd yn y brif dref Aberystwyth. Fodd bynnag, roedd canlyniadau a fodelwyd gan DEFRA mewn lleoliadau wrth ymyl y ffordd yn Aberystwyth yn 2018 yn is (rhwng 6 ac 8µg/$m^3$). Mae hyn yn is na safonau canllaw gorfodol yr Alban a Sefydliad Iechyd y Byd. Mae PM2.5 yn baramedr pwysig sy'n gysylltiedig ag iechyd, ac mae safonau gorfodol yr Alban a safonau canllaw Sefydliad Iechyd y Bydd y rhain yn llym ac yn anodd eu cyrraedd mewn rhai lleoliadau wrth ymyl y ffordd yn y DU.

Ni ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol datgan unrhyw ardaloedd rheoli ansawdd aer yng Ngheredigion neu ddatblygu cynlluniau gweithredu i wella ansawdd aer yn y sir. Nid oedd unrhyw ddatblygiadau newydd arwyddocaol yn y sir yn 2021 (diwydiant ac ati) a gafodd effaith sylweddol ar ansawdd aer. Mae Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol, Cynllun Rheoli Carbon a Strategaethau Datblygu Economaidd a Chynllunio yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd aer ac yn ceisio cyfyngu neu leihau effaith allyriadau lleol yn y sir.

## 1.2 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) yn cael eu datgan pan fydd ansawdd aer yn agos at neu uwchlaw lefel dderbyniol o lygredd (a elwir yn amcan ansawdd aer (gweler Atodiad B). Ar ôl datgan ARhAA, mae'n rhaid i'r awdurdod baratoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (CGAA) o fewn 18 mis yn nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith i wella ansawdd aer. Mae awdurdodau lleol yn gweld ARhAA fel canolbwynt i sianelu adnoddau i'r ardaloedd lle mae'r llygredd mwyaf fel blaenoriaeth.

Nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) neu unrhyw leoliadau yn y sir lle mae crynodiadau llygryddion aer yn uwch na / agos at safonau / amcanion cenedlaethol. Ni fu angen, felly, i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer neu Strategaeth Ansawdd Aer.

## 1.3 Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar waith

Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Ngheredigion. Ni fu angen datblygu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu neu gynhyrchu Strategaeth Ansawdd Aer.

# 2 Data Monitro Ansawdd Aer a Chymharu ag Amcanion Ansawdd Aer

## 2.1 Crynodeb o'r Monitro a Wnaed yn 2021

### 2.1.1 Safleoedd Monitro Awtomatig

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw safleoedd monitro awtomatig yng Ngheredigion.

### 2.1.2 Safleoedd Monitro Anawtomatig

Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion waith monitro anawtomatig (goddefol) o $NO_2$ mewn naw lleoliad yn ystod 2021. Mae Tabl 2.1 yn rhoi manylion y safleoedd.

Darperir mapiau sy'n dangos lleoliadau'r safleoedd monitro yn Ffigur 2.1. Mae rhagor o fanylion am Sicrhau Ansawdd/Rheoli Ansawdd (SA/RhA) ac addasu ar gyfer tuedd ar gyfer y tiwbiau tryledu wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

**Tabl 2.1 – Manylion Safleoedd Monitro Anawtomatig**

| Enw'r safle | Math o safle | Yn gysylltiedig ag ARhAA a enwir? | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans X | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans Y | Uchder y safle (m) | Wedi'i gydleoli â dadansoddwr parhaus? | Pellter o'r monitor i'r cysylltiad perthnasol agosaf (m) (1) | Pellter o'r cyrb i'r monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd y Môr, Aberystwyth | Canolfan drefol | Amh | 258470 | 281700 | 2.5 | Na | 1 | 1 |
| Stryd Thespis, Aberystwyth | Canolfan drefol | Amh | 258630 | 281800 | 2.5 | Na | 10 | 1 |
| Gorsaf Reilffordd, Aberystwyth | Canolfan drefol | Amh | 258500 | 281620 | 2.5 | Na | 1 | 1 |
| Cylchfan Morrisons, Aberystwyth | Wrth ymyl y ffordd | Amh | 259590 | 280570 | 1.5 | Na | 200 | 1 |
| Dan Dre, Aberystwyth | Diwydiannol | Amh | 258379 | 281519 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan | Canolfan drefol | Amh | 257790 | 248140 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Y Stryd Fawr, Aberteifi | Canolfan drefol | Amh | 217790 | 246180 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Stryd y Cei, Aberteifi | Canolfan drefol | Amh | 217661 | 245959 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Pendam | Gwledig | Amh | 272240 | 283330 | 1.5 | Na | 500 | 1 |
| Tal-y-bont | Wrth ymyl y ffordd | Amh | 265462 | 289275 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Y Stryd Fawr, Aberystwyth | Canolfan drefol | Amh | 258230 | 281631 | 1.5 | Na | 1 | 3 |


**Nodiadau:**

(1) Mae 0m yn nodi bod y monitor a leolir yn cynrychioli cysylltiad ac felly nid oes angen cyfrifo pellter.


**Ffigur 2.1 – Map(iau) o Safleoedd Monitro Anawtomatig**




## Ffordd y Môr, Aberystwyth





## Stryd Thespis, Aberystwyth





## Gorsaf Reilffordd, Aberystwyth




**Cylchfan Morrisons, Aberystwyth**






## Dan Dre, Aberystwyth




**Y Stryd Fawr, Aberteifi**

# Stryd y Cei, Aberteifi







## Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan


Pen y Bryn-mawr
Car Park
Path
Mynydd March
Workings (dis)
Pit (dis)
Workings (dis)
Shafts
Llyn Pendam
Llyn Blaenmelindwr
Track
Path
Standing Stone
Drain
Banc Llety-Spence
Banc Trawsnant
Llyn Rhosgoch
Standing Stone
Nant Geifaes

## Pendam






## Tal-y-bont






## Y Stryd Fawr, Aberystwyth

## 2.2 Canlyniadau Monitro Ansawdd Aer 2021

**Tabl 2.2 – Canlyniadau Monitro Cymedr Blynyddol $NO_2$ (µg/m$^3$)**

| Enw'r safle | Math o safle | Math o fonitro | Cipio data dilys ar gyfer y cyfnod monitro (%) (1) | Cipio data dilys 2021 (%) (2) | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd y Môr, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | 21.4 | 17.5 | 19.6 | 16.3 | 20.4 |
| Stryd Thespis, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | 20.7 | 21.5 | 18.3 | 15.8 | 20.3 |
| Gorsaf Reilffordd, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | 24.1 | 23.4 | 18.3 | 17.0 | 20.7 |
| Cylchfan Morrisons, Aberystwyth | Wrth ymyl y ffordd | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | 18.5 | 18.4 | 17.5 | 13.8 | 16.6 |
| Dan Dre, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | 19.1 | 18.6 | 18.9 | 16.5 | 22.2 |
| Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | 22.7 | 21.2 | 15.6 | 15.0 | 16. 2 |
| Stryd y Cei, Aberteifi | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | n/a | n/a | n/a | 10.1 | 8.2 |
| Y Stryd Fawr, Aberteifi | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 83 | 42 | 17.9 | 16.4 | 18.4 | 17.7 | 16.6 |
| Tal-y-bont | Wrth ymyl y ffordd | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | n/a | n/a | n/a | n/a | 24.5 |
| Y Stryd Fawr, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 50 | n/a | n/a | n/a | n/a | 12.7 |

Tudalen 136

**Nodiadau:**


Achosion o ormodiant yn erbyn amcan cymedrig blynyddol $NO_2$ o 40µg/$m^3$ yn cael eu dangos mewn **print trwm**.

Cymedrau blynyddol $NO_2$ sy'n fwy na 60µg/$m^3$, gan ddangos y posibilrwydd o ormodiant yn erbyn yr amcan cymedr 1 awr $NO_2$, yn cael eu dangos mewn **<u>print trwm ac wedi'u tanlinellu.</u>**

Mae'r cymedrau ar gyfer tiwbiau tryledu wedi'u cywiro ar gyfer tuedd. Mae pob cymedr wedi'i "flwyddoli" yn unol â RhAALI.TG16 os yw'r data dilys a gasglwyd ar gyfer y flwyddyn galendr lawn yn llai na 75%. Gweler Atodiad C am fanylion.

(1) Cipio data ar gyfer y cyfnod monitro, mewn achosion lle cafodd gwaith monitro ei wneud yn ystod rhan o'r flwyddyn yn unig.
(2) Cipio data ar gyfer y flwyddyn galendr lawn (e.e. lle cafodd gwaith monitro ei wneud am 6 mis, uchafswm y data a gasglwyd ar gyfer y flwyddyn galendr lawn yw 50%).

**Ffigur 2.2 – Tueddiadau mewn Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ ($\mu g/m^3$)**



## 2.3 Cymharu Canlyniadau Monitro 2021 â'r Blynyddoedd Blaenorol a'r Amcanion Ansawdd Aer

Yn ystod 2021, casglodd Cyngor Sir Ceredigion ddata tiwbiau tryledu ar gyfer $NO_2$ mewn un ar ddeg o leoliadau (gan gynnwys y safle cefndir gwledig, Pendam). Mae manylion y safleoedd i'w gweld yn Nhabl 2.1- 'Manylion Safleoedd Monitro Anawtomatig' gyda mapiau o bob safle yn Ffigur 2.1- 'Safleoedd Monitro Anawtomatig'.

Rhoddir cymhariaeth o ddata 2021 mewn perthynas â'r blynyddoedd blaenorol yn Nhabl 2.2 – 'Canlyniadau Monitro Cymedr Blynyddol $NO_2$, ac fe'i dangosir yn Ffigur 2.2- 'Tueddiadau mewn Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ '. Rhoddir dadansoddiad o'r data misol a gasglwyd yn 2021 yn Nhabl A.1- 'Canlyniadau Tiwbiau Tryledu Misol Llawn ar gyfer 2021'.

### 2.3.1 Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)

Llwyddwyd i gasglu data dilys ar 50% ar gyfer pob lleoliad monitro ac eithrio Stryd Fawr Aberteifi (42% oherwydd y mis pan gollwyd y tiwb tryledu). Roedd y cipio data isel yn golygu bod yn rhaid defnyddio trefn blwyddoli, y ceir dadansoddiad ohoni yn Atodiad C. Dim ond ym mis Ionawr 2020 y dechreuwyd monitro $NO_2$ yn Nhal-y-bont a'r Stryd Fawr, Aberystwyth ac felly dyna pam nad yw data'r flwyddyn flaenorol i'w weld yn Nhabl. 2.2.

Nid oedd y data crynodiad cymedr blynyddol a gofnodwyd ar gyfer $NO_2$ yn ystod 2021 ym mhob un o'r lleoliadau monitro, fel y'i cyflwynir yn Nhabl 2.2, yn uwch na lefel amcan cymedrig blynyddol $NO_2$ y SAA o 40µg/m3 (gweler Atodiad B).

Fel y dangosir yn Ffigur 2.2, mae crynodiadau cymedr blynyddol $NO_2$ a gafodd eu monitro ym mhob lleoliad monitro wedi gweld gostyngiad graddol cyffredinol rhwng 2017 a 2020 heb i ymyriadau ar ffurf Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gael eu gweithredu. Nid oedd data cymedr blynyddol o 2021 yn gyson â'r duedd hon a gwelwyd cynnydd bach, fodd bynnag, mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd bod cyfnod clo yn weithredol yn ystod y rhan fwyaf o 2020 a arweiniodd at ostyngiad mewn allyriadau cerbydau.

Ni ellid asesu'n llawn effaith pedestreiddio strydoedd ar lefelau nitrogen deuocsid yn Aberteifi ac Aberystwyth gan ddefnyddio data 2021 oherwydd bod data cyfyngedig ar gael ar gyfer y cyfnodau pan oedd pedestreiddio strydoedd ar waith (h.y. misoedd yr haf). Fodd bynnag, nodwyd bod lefelau yn y lleoliadau hyn o fewn y terfynau statudol. Bydd monitro tiwbiau tryledu yn parhau ar y safleoedd hyn yn ystod 2022 er mwyn casglu data digonol i ddod i gasgliadau dilys yn seiliedig ar dueddiadau yn y dyfodol a arsylwyd, ac adroddir ar hyn yn 2022.

Canfuwyd mai'r lleoliad monitro newydd Tal-y-bont oedd â'r crynodiad cymedrig blynyddol uchaf o $NO_2$ sef **24µg/m³**. Y rheswm tebygol am hyn yw'r gefnffordd brysur sy'n mynd trwy'r dref a ddefnyddir gan gymudwyr sy'n teithio i Aberystwyth, cerbydau nwyddau trwm yn teithio trwy'r sir, a thwristiaid sy’n ymweld â'r sir yn ystod misoedd yr haf. Mae'r crynodiad hwn yn dal i fod o fewn y terfyn statudol ar hyn o bryd a bydd y safle'n parhau i gael ei fonitro yn y dyfodol.

### 2.3.2 Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)

Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn monitro ar gyfer $PM_{10}$, fodd bynnag, roedd modelu data a gynhaliwyd gan DEFRA yn dangos bod aer Ceredigion wedi profi llai na 13µg/m3 fel cymedr blynyddol o $PM_{10}$ yn 2021. Roedd hyn yn cynnwys ein tref brysuraf, sef Aberystwyth.

### 2.3.3 Deunydd Gronynnol ($PM_{2.5}$)

Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn monitro ar gyfer $PM_{2.5}$.

## 2.4 Crynodeb o Gydymffurfiaeth ag Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer o 2021 ymlaen

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi archwilio’r canlyniadau monitro yn sir Ceredigion. Mae'r crynodiadau i gyd yn is na'r amcanion, felly nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

# 3 Datblygiadau Lleol Newydd

## 3.1 Ffynonellau Traffig Ffyrdd (a Thrafnidiaeth Arall)

Fel y trafodwyd mewn adrannau blaenorol o'r adroddiad, mae'n bosibl y bydd penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion i bedestreiddio strydoedd dros dro ym mhrif drefi'r sir, lle cafodd strydoedd mawr eu gwneud yn ardaloedd dros dro i gerddwyr yn ystod misoedd yr haf, yn arwain at welliannau mewn ardaloedd i gerddwyr yn y trefi. Fodd bynnag, roedd diffyg data misol oherwydd cyfnod clo yn golygu na ellir dod i unrhyw gasgliadau dilys yn seiliedig ar ddata 2021, fodd bynnag, adroddir ar effaith hyn yn adroddiad 2023.

## 3.2 Ffynonellau Diwydiannol / Ffo neu Heb eu Rheoli / Ffynonellau Masnachol

Ni nodwyd unrhyw Ffynonellau Diwydiannol/Ffo neu Heb eu Rheoli/Ffynonellau Masnachol newydd arwyddocaol yng Ngheredigion yn 2021 yn unol â'r canllawiau.

## 3.3 Ffynonellau Eraill

Ni nodwyd unrhyw ffynonellau arwyddocaol newydd eraill yng Ngheredigion yn 2021 yn unol â'r canllawiau.

Heblaw am ffynonellau traffig ffyrdd, mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau nad oes unrhyw ddatblygiadau lleol newydd neu newydd eu nodi a allai gael effaith ar ansawdd aer yn ardal yr Awdurdod Lleol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau bod pob un o'r canlynol wedi'u hystyried:

- Ffynonellau traffig ffordd
- Ffynonellau trafnidiaeth eraill
- Ffynonellau diwydiannol
- Ffynonellau masnachol a domestig
- Datblygiadau newydd gyda ffynonellau ffo neu heb eu rheoli.

# 4 Polisïau a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd a Gludir yn yr Aer

## 4.1 Strategaeth Ansawdd Aer Leol / Ranbarthol

Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi'u datgan yng Ngheredigion. Felly, nid oes unrhyw Bolisïau Cynllunio Ansawdd Aer. Gan fod Ceredigion yn sir wledig yn bennaf, mae ansawdd aer yn dda ar y cyfan ac nid yw unrhyw bolisïau neu strategaethau wedi'u cynhyrchu sy'n canolbwyntio'n benodol ar ansawdd aer.

## 4.2 Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer

Mae systemau rheoli llygredd a chynllunio wedi tueddu i esblygu dros y blynyddoedd fel endidau ar wahân. Mae awdurdodiadau o dan y cyfundrefnau rheoli llygredd yn ceisio rheoli'r ffyrdd y mae prosesau rhagnodedig yn gweithredu er mwyn cyfyngu ar unrhyw lygredd a allyrrir i'r atmosffer a'i wneud yn ddiogel. Mae'r system gynllunio, fodd bynnag, yn rheoleiddio lleoliad datblygiadau a rheoli gweithrediadau er mwyn osgoi neu leihau'r effeithiau andwyol y gall unrhyw botensial am lygredd eu cael ar y defnydd o dir a'r amgylchedd, i'r graddau y gallai effeithio ar y defnydd o dir nawr neu yn y dyfodol.

Cydnabyddir yng Ngheredigion bod cynllunio defnydd tir yn rhan bwysig o ddull integredig o gyflawni amcanion ansawdd aer a lleihau allyriadau llygryddion aer (gan gynnwys y rhai sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang). Roedd Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Ceredigion wedi darparu canllawiau ar sut y dylai ceisiadau cynllunio gael eu hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Roedd prif amcanion y CDU o ran yr effaith ar ansawdd aer yn cynnwys:

a**. Amcan Gen 1 –** annog patrwm o ddefnydd tir lle mae datblygu yn digwydd mewn ardaloedd sy'n lleihau'r galw am deithio ac sydd â'r gallu i'w gefnogi;

d. **Amcan GEN 4 –** sicrhau bod datblygu wedi'i leoli'n briodol, wedi'i ddylunio'n dda ac yn cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd;

e. **Amcan ENVE1 –** hyrwyddo defnydd effeithlon o ynni mewn datblygiadau ac annog systemau cynhyrchu ynni ecogyfeillgar;

g. **Amcan ENVU 1 –** annog buddsoddiad cynaliadwy a gwelliannau mewn cyfleusterau seilwaith i ddarparu ar gyfer anghenion nawr ac yn y dyfodol, heb beryglu ansawdd yr amgylchedd.

Roedd y CDU hefyd yn cynnwys polisi penodol ynghylch ansawdd aer fel a ganlyn:

Mae ENVP1.4 Ansawdd Aer (CDU) – yn nodi:

"Ni ddylai cynigion achosi niwed ychwanegol sylweddol i ansawdd aer". Lle bo modd, dylai cynigion:

1. Cael eu lleoli'n briodol er mwyn lleihau'r angen i deithio

2. Bod yn hygyrch trwy ddulliau cludiant gwahanol

3. Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau ynni-effeithlon

Daeth gwaith ar y CDU i ben pan benderfynodd yr Awdurdod ddatblygu cynllun datblygu lleol (CDLl) ar gyfer Ceredigion. Mae hwn yn gynllun byw a pharhaus sy'n ystyried yn ofalus faterion sy'n ymwneud ag ansawdd aer a bydd yn parhau i gael ei ddatblygu a'i adolygu yn y dyfodol, ond mae'n cynnwys yr un egwyddorion sylfaenol mewn perthynas ag ansawdd aer a lliniaru effeithiau lleol.

## 4.3 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y cyd Canolbarth Cymru wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd gan dri Awdurdod Lleol (ALl) Canolbarth Cymru, sef Ceredigion, Powys a Gwynedd (ar gyfer Meirionnydd). Mae'r CTLl yn ddogfen statudol sy'n cyd-fynd â'r CDLl. Gweledigaeth y CTLl yw i Awdurdodau Lleol Canolbarth Cymru gynllunio ar gyfer a darparu mewn partneriaeth system drafnidiaeth integredig a fforddiadwy yn y rhanbarth sy'n hwyluso datblygiad economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb at wasanaethau a chyfleoedd, yn cynnal ac yn gwella ansawdd bywyd cymunedol ac yn gwneud cyfraniad gweithredol at reoli carbon ac ansawdd yr amgylchedd. Mae canlyniadau'r CTLl sydd o fudd i ansawdd aer yn cynnwys:

- **Gwella Iechyd a Lles drwy Gynyddu Cerdded a Beicio**: bydd lefelau beicio a cherdded ar gyfer teithio llesol angenrheidiol a hamdden, gan drigolion ac ymwelwyr, wedi cynyddu.

- **Buddion a Lleihau Effeithiau ar yr Amgylchedd**: gwneir y mwyaf o'r potensial i welliannau trafnidiaeth leihau allyriadau carbon ac effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd

naturiol ac adeiledig lleol a byd-eang a bydd effeithiau negatif wedi'u lleihau, yn cynnwys addasu i effeithiau newid hinsawdd.

Mae cyfres o ymyriadau lefel uwch wedi cael eu datblygu sydd gyda'i gilydd yn ceisio cyflawni'r canlyniadau a geisir ar gyfer y CTLl, sy'n cynnwys:

- **Gwella Cysylltiadau Strategol.**
- **Gwella Hygyrchedd i Gyflogaeth a Gwasanaethau.**
- **Annog Cerdded a Beicio.**
- **Rhwydweithiau Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig.**

## 4.4 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol

Cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn 2014 gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella'n barhaus cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr a pharatoi mapiau yn nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl yn y dyfodol i'w defnyddio. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y cam dylunio. Bwriad y Ddeddf yw galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio a theithio'n gyffredinol trwy ddulliau di-fodur. Mae gwneud cerdded a beicio yn fwy diogel ac ymarferol yn annog ffyrdd iachach o fyw, yn lleihau llygredd aer, yn lleihau sŵn, yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella'r amgylchedd.

Nod y Cynllun Teithio Llesol yng Ngheredigion yw gwella iechyd a llesiant pobl leol ac ymwelwyr trwy gynyddu cerdded a beicio. Mae gwelliannau i seilwaith a mentrau newid ymddygiad yng Ngheredigion yn ceisio cynyddu lefelau cerdded a beicio ar gyfer teithio llesol angenrheidiol a hamdden, ac mae'n cynnwys ffactorau megis pontydd ffordd, llwybrau beicio, darpariaeth troedffyrdd/llwybrau troed, llwybrau diogel i'r ysgol, cynlluniau teithio yn ogystal â mesurau diogelwch ffyrdd i gynorthwyo defnyddwyr hyglwyf. Cyflwynodd Cyngor Sir Ceredigion ei Fapiau Llwybrau Presennol diweddaraf a Mapiau Llwybrau'r Dyfodol i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022, a chymeradwywyd y rhain gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar 3 Awst 2022.

## 4.5 Amcanion Llesiant Awdurdodau Lleol

Ystyrir mai llygredd aer yw'r cyfrannwr amgylcheddol mwyaf at faich afiechyd yn y DU. Mae pobl sydd eisoes yn dioddef o iechyd gwael a/neu sy'n byw yn yr ardaloedd o

ansawdd aer gwaethaf yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan lygredd aer. Effeithir yn anghymesur ar gymunedau trefol tlotach.

Nid yw'r effeithiau iechyd cysylltiedig yn ymwneud ag effeithiau mwy amlwg ac uniongyrchol llygredd aer yn unig. Mae llygredd aer yn effeithio ar dyfiant cnydau ac yn cyfrannu at asideiddio dyfroedd mewndirol ac arfordirol. Gall hyn arwain at effeithiau pwysig ar y gadwyn fwyd.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig bod pob awdurdod lleol yn ymrwymo i sicrhau bod llygredd aer yn parhau i fod yn is na lefelau gwrthrychol. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y dylai awdurdodau lleol gynnwys rheoli ansawdd aer mewn strategaethau corfforaethol a chyffredinol i godi ei broffil a chyflawni camau gweithredu mewn modd integredig. I'r perwyl hwn, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cymhwyso'r ddelfryd datblygu cynaliadwy yn eu gwaith ac yn gallu dangos i'r cyhoedd eu bod yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a ddiffinnir yn y ddogfen "Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Deddf (Cymru) 2015".

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osod amcanion llesiant a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth o adolygiadau ac asesiadau o ansawdd aer lleol yn llywio llesiant lleol ac yn cael ei hymgorffori yn y cynllun llesiant lleol. Dylai hyn bwysleisio rôl yr awdurdod lleol o ran darparu aer glanach. Dylai anelu at godi proffil ansawdd aer gan gadw'r mater yn uchel ar ei restr o flaenoriaethau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i wella ansawdd aer mewn ffordd gorfforaethol ac amlddisgyblaethol gan eu galluogi i ymgorffori ystyriaethau ansawdd aer mewn meysydd polisi ehangach – megis cynllunio defnydd tir, cynllunio trafnidiaeth, effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff, datblygu economaidd ac adfywio. Anogir awdurdodau lleol hefyd i geisio gweithio'n agosach gydag awdurdodau cyfagos – a thrwy wneud hynny gryfhau rôl grwpiau rhanbarthol.

Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod Cymru hefyd yn wynebu heriau byd-eang mawr eraill megis newid hinsawdd. Mae cynhesu byd-eang a newid hinsawdd yn cael eu hysgogi gan allyriadau i'r atmosffer. Mae targedau cenedlaethol wedi'u pennu ar gyfer lleihau allyriadau carbon, ac mae "Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol" yn un o'r chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfrannu at ddatblygu a chyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yng Ngheredigion. Mae'r grŵp hwn yn cwrdd yn rheolaidd yng Ngheredigion ac mae wrthi'n paratoi ac yn datblygu cynlluniau gweithredu. Mae gan y Cyngor dîm rheoli carbon hefyd sydd wedi llwyddo i leihau allyriadau carbon

lleol ac sydd bellach yn gweithio i leihau allyriadau ymhellach gyda'r nod o wneud y Cyngor yn garbon niwtral erbyn 2030 (yn unol â tharged Llywodraeth Cymru). Gan ei bod yn sir wledig, mae'r sector cyhoeddus yn cyflogi un rhan o dair o boblogaeth Ceredigion, a'r Awdurdod Lleol yw'r prif gyflogwr yn y sector. Mae cynllun rheoli carbon yr awdurdod yn gweithredu targed o leihau allyriadau cwmpas 1 (sy'n cynnwys allyriadau cerbydau) gan 15% o'r lefelau a welwyd yn 2017/18 erbyn 2023, ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni hynny.

## 4.6 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd

Mae paratoi Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd yn ofyniad newydd o dan Rifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru. Fe'i cydlynir gan Dîm Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol wrth ymdrin â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth trwy gynhyrchu rhestrau a mapiau diweddar o'r seilwaith gwyrdd ac asedau a rhwydweithiau ecolegol presennol. Dylai asesiadau seilwaith gwyrdd o'r fath wneud defnydd amserol, pragmatig a chynhwysol o setiau data sy'n bodoli a'r wybodaeth orau sydd ar gael i ddatblygu adnodd tystiolaeth integredig sy'n seiliedig ar fapiau. Bydd gwneud hynny yn hwyluso dull rhagweithiol ac yn cynnig modd gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at nodau llesiant y Cyngor.

Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn cael ei ddefnyddio yng Ngheredigion i ddatblygu dull cadarn ar gyfer gwella bioamrywiaeth, cynyddu cydnerthedd ecolegol a gwella canlyniadau llesiant. Mae digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u cynnal yn y sir i lywio'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Roedd yr ymarferion ymgysylltu wedi ennyn llawer o ddiddordeb, ymatebion a syniadau. Mae allbynnau wedi'u coladu a'u crynhoi ac wedi nodi cyfleoedd strategol allweddol lle gellir defnyddio'r gwaith o adfer, cynnal a chadw, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd i sicrhau'r manteision mwyaf arwyddocaol. Mae mapiau manwl ar gyfer trefi marchnad Ceredigion, er enghraifft, yn datgelu hyd a lled (a cholled) gwrychoedd a choetir ac ati yn y trefi hyn a’r ardaloedd o'u cwmpas. Bydd colli gwrychoedd a choed dros gyfnod o amser yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer cynlluniau adfer / plannu coed yng Ngheredigion.

Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael i fonitro cyfres o rywogaethau a chynefinoedd allweddol, ac ymgorffori'r dangosyddion hyn yn eu Hadroddiadau Monitro Blynyddol. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddangos a fu

cynnydd neu golled net mewn bioamrywiaeth, a bydd tueddiadau'n cael eu defnyddio i bennu blaenoriaethau ar gyfer cynllunio a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Bydd yr angen i ecosystemau, cynefinoedd a rhywogaethau addasu i newid hinsawdd yn cael ei ystyried fel rhan o'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd.

Mae parciau, mannau agored, meysydd chwarae, coetiroedd, gwlyptiroedd, ymylon ffyrdd, rhandiroedd a gerddi preifat yn enghreifftiau o seilwaith gwyrdd tra chyfeirir yn aml at systemau draenio cynaliadwy, pantiau, gwlyptiroedd, afonydd, camlesi a'u glannau a chyrsiau dŵr eraill fel seilwaith glas. Mae mynediad i'r amgylchedd naturiol hwn, ac ymgysylltiad ag ef, yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd cadarnhaol, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol gwell, a llai o risg o glefyd cardiofasgwlaidd a chyflyrau cronig eraill. Canfuwyd bod mynediad i seilwaith hamdden, megis parciau a meysydd chwarae, yn gysylltiedig â llai o risg o ordewdra ymysg y glasoed a lefelau uwch o weithgarwch corfforol. Yn yr un modd, gall gwelliannau i barciau gynyddu ymweliadau / defnydd a lefelau gweithgarwch corfforol plant a phobl hŷn. Gall byw ger mannau gwyrdd, fel parciau a mannau agored eraill, wella iechyd waeth beth fo'r dosbarth cymdeithasol.

Mae gwella mynediad at seilwaith a mannau gwyrdd hefyd yn cyfrannu at leihau **dod i gysylltiad â pheryglon amgylcheddol a llygredd aer, gwella ansawdd aer, lleihau effaith newid hinsawdd**, amddiffyn rhag llifogydd ac erydiad, a chynyddu cyfranogiad cymdeithasol ymysg oedolion hŷn.

# 5 Casgliad a Chamau Gweithredu Arfaethedig

## 5.1 Casgliadau o'r Data Monitro Newydd

Nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ac nid oes ganddo unrhyw ardaloedd sy'n agos at Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer. Ni ystyriwyd, felly, ei bod yn angenrheidiol datgan unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer neu baratoi Strategaeth Ansawdd Aer Lleol / Rhanbarthol.

## 5.2 Casgliadau yn ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau nad oes unrhyw ddatblygiadau lleol newydd ar hyn o bryd y bydd angen eu hystyried yn fwy manwl, ac nid oes unrhyw ddatblygiadau lleol a fydd yn arwain at unrhyw asesiadau manwl. Fel yn y cylchoedd adolygu ac asesu blaenorol, mae'r canlyniadau a adroddir yn yr adroddiad hwn yn dangos y cydymffurfir â'r holl safonau ac amcanion ansawdd aer statudol yng Ngheredigion erbyn dyddiadau penodol ym mhob lleoliad (gan gynnwys y lleoliadau wrth ymyl y ffordd lle mae’r traffig mwyaf).

Nid yw gwaith monitro ac asesiadau newydd ar gyfer yr adroddiad hwn wedi datgelu unrhyw fannau yng Ngheredigion lle mae hylosgi tanwydd (mewn cerbydau modur, diwydiant, neu eiddo domestig) neu allyriadau ffo yn achosi, neu'n debygol o achosi, problemau ansawdd aer sylweddol. Mae'r adolygiad yn awgrymu nad oes unrhyw broblemau ansawdd aer sy'n gysylltiedig â thraffig yn y lleoliadau ffyrdd prysuraf ac yn nhrefi Ceredigion lle mae’r tagfeydd mwyaf. Nid oes unrhyw ddiwydiannau mawr yn agos at ardaloedd poblog iawn, a dim ond nifer fach o brosesau Rhan B a gweithfeydd hylosgi bach sydd yn y sir (yn y categori "risg isel" yn bennaf).

## 5.3 Casgliadau Eraill

I grynhoi, mae Ceredigion yn sir wledig gydag ychydig iawn o ddiwydiannau sy'n llygru'r aer. Nid yw'r rhestr hon o ddiwydiannau sy'n llygru'r aer wedi newid ers yr adroddiad cynnydd diwethaf ar gyfer Ceredigion, ac mae traffig ffyrdd yn parhau i fod yn brif ffynhonnell llygredd aer yng Ngheredigion gyda maint y traffig ffyrdd yn cynyddu, ond mae’n parhau i fod yn gymharol isel o'i gymharu'n genedlaethol. Mae ansawdd aer yn

parhau i gael ei fonitro yn rhai o’r ardaloedd mwyaf sensitif lle mae'r tagfeydd mwyaf yng Ngheredigion. Pwrpas hyn yw gwirio cydymffurfiaeth a chadarnhau amcanesyniadau lleol a chenedlaethol. Mae monitro hefyd yn digwydd yn ôl yr angen i nodi unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn gweithgarwch diwydiannol, maint a chyfansoddiad y traffig, gosodiadau ffyrdd, datblygiadau lleol newydd, o ganlyniad i bryderon a cheisiadau lleol ac unrhyw ffactorau eraill sy'n cyfrannu at lygredd aer yn y sir. Mae monitro ar gyfer nitrogen deuocsid gan ddefnyddio tiwbiau tryledu goddefol yn cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd mewn ymarferion gwaelodlin a sgrinio cyfnodol i nodi unrhyw fannau "problemus" llygredd aer newydd sy'n dod i'r amlwg, gan ganolbwyntio'n benodol ar ysgolion, safleoedd diwydiannol, ardaloedd preswyl, busnesau amrywiol, modurdai, y rhwydwaith rheilffyrdd, gorsafoedd bysiau, siopau sychlanhau a phaent, ac yng nghyffiniau cynlluniau ffyrdd newydd ac ati. Mae sampleri goddefol yn rhad a gellir eu defnyddio mewn niferoedd cymharol fawr i ddarparu'r cwmpas gofodol a'r cydraniad angenrheidiol i fapio ardal yn effeithiol a nodi ffynonellau llygredd posibl. Mae meintiau traffig yn y sir, hyd yn oed yn y dref lle mae'r tagfeydd mwyaf (Aberystwyth) yn gymharol isel o'i gymharu â rhannau eraill o'r wlad, ac nid ydynt yn agos at y dosbarthiad traffig trwm a ddisgrifir yn y Canllawiau. Mae cymhareb cerbydau nwyddau trwm i gyfanswm nifer y cerbydau hefyd yn isel yng Ngheredigion oherwydd diffyg diwydiant.

## 5.4 Camau Gweithredu Arfaethedig

Nid yw'r adolygiad ansawdd aer hwn ar gyfer Ceredigion wedi nodi'r angen i symud ymlaen i asesiadau manylach ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion aer â blaenoriaeth. Mae Dangosyddion Ansawdd Aer Cenedlaethol yn isel iawn ar gyfer nitrogen deuocsid a $PM_{10}$ – mae Ceredigion ymysg yr isaf yng Nghymru. Bydd monitro yn digwydd yn ôl yr angen mewn unrhyw fannau problemus sy'n dod i'r amlwg neu o ganlyniad i unrhyw bryderon neu ddatblygiadau newydd. Bydd gwaith monitro a sefydlwyd yn Nhal-y-bont yn 2021 oherwydd pryderon am dagfeydd traffig rheolaidd ar gefnffordd yr A487 oherwydd parcio wrth ymyl y ffordd ar y brif ffordd sy'n mynd trwy'r pentref yn parhau. Adroddir ar ganlyniad y gwaith monitro yn adroddiad 2023.

Fel y mae ar hyn o bryd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf nid yw nitrogen deuocsid ym mhob un o'r lleoliadau "problemus" wedi mynd yn uwch na'r safonau cyfreithiol mewn unrhyw leoliad (gan gynnwys lleoliadau wrth ymyl y ffordd a lleoliadau sefyllfa waethaf). Bydd monitro yn parhau yn y lleoliadau hyn yn y dyfodol i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus

â'r safonau llymaf. Bydd yr adroddiad cynnydd nesaf ar ansawdd aer yng Ngheredigion yn cael ei baratoi a'i gyflwyno ym mis Medi 2023.

# Cyfeiriadau

1. Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010
2. Cynllun y DU ar gyfer Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid Wrth Ymyl y Ffordd, Gorffennaf, 2017
3. Canllawiau Polisi Interim Cymru ar Reoli Ansawdd Aer Lleol, Mawrth 2016: *http://gov.wales/docs/desh/publications/160303-policy-guidance-en.pdf*
4. Canllawiau Polisi Cymru, LAQM.PG09(W), Ebrill, 2009-07-17 – Llywodraeth Cymru *LAQM.PG(W) 17*
5. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) (2018) 'Rheoli Ansawdd Aer Lleol: Canllawiau Technegol (TG16)'. https://laqm.DEFRA.gov.uk/technical-guidance/
6. Canllawiau Technegol LAQM. TG (09), Chwefror, 2009-07-17
7. Canllawiau Technegol LAQM. TG(03)
8. Deddf yr Amgylchedd, 1995
9. Y Strategaeth Ansawdd Aer, Gorffennaf 2007
10. Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru), 2000
11. Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru), 2002
12. *Dangosyddion Ansawdd Aer Cenedlaethol i Gymru*
14. AQEG (2007) Trends in Primary Nitrogen Dioxide in the UK: www.defra.gov.uk
15. D. Laxen and B. Marner, Analysis of the Relationship between 1-hour and annual mean nitrogen dioxide at UK roadside and kerbside monitoring sites.
16. A Cook, Analysis of the relationship between annual mean nitrogen dioxide and exceedances of the 1-hour mean.
17. J. Abbott, Review of pollutant specific guidance for industrial and domestic emissions, 2002.
18. J. Abbott, Technical Guidance, Screening Assessment for Biomass Burners, July 2008 (*http://uk-air.defra.gov.uk/reports/cat18/08062615199 methods.pdf*).
19. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015 (*http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy*)
20. Canllawiau Polisi Cynllunio (*http://gov.wales/topics/planning/policy/?skip=1&lang=cy*)
21. Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 [http://www.tracc.gov.uk/index.php?id=125&L=0]
22. Cynllun Ansawdd Aer ar gyfer Nitrogen Deuocsid, 2015 *https://www.gov.uk/government/collections/air-quality-plan-for-nitrogen-dioxide-no2-in-uk-2015*
23. Cymorth Technegol, *http://laqm.DEFRA.gov.uk/helpdesks.html*
24. Cynllun Aer Glân i Gymru – *https://llyw.cymru/cynllun-aer-glan-cymru-aer-iach-cymru*

# Atodiadau

Atodiad A: Canlyniadau Monitro Tiwbiau Tryledu Misol

Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol

Atodiad C: Data Monitro Ansawdd Aer SA/RhA

# Atodiad A: Canlyniadau Monitro Tiwbiau Tryledu Misol

**Tabl A. 1- Canlyniadau Misol Llawn Tiwbiau Tryledu ar gyfer 2021 (µg/m$^3$)**

| Rhif adnabod y safle | Ion | Chwef | Mar | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Data amrwd | Wedi'i addasu ar gyfer tuedd (0.78) a'i flwyddoli (1) | Pellter wedi'i gywiro i'r cysylltiad agosaf (2) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CERE/21A/NA9S9 (Ffordd y Môr, Aberystwyth) | | | | | | | 16.1 | 11.2 | 25.9 | 23.5 | 23.4 | 27.1 | 21.2 | 20.4 | |
| CERE/21A/NA9S6 (Stryd Thespis, Aberystwyth) | | | | | | | 16.8 | 18.1 | 24.8 | 21.8 | 20.8 | 23.9 | 21.0 | 20.3 | |
| CERE/21A/NA9S10 (Gorsaf Reilffordd, Aberystwyth) | | | | | | | 18.4 | 19.9 | 23.1 | 19.6 | 22.4 | 25.7 | 21.5 | 20.7 | |
| CERE/21A/NA9S8 (Morrisons, Aberystwyth) | | | | | | | 18.6 | 15.8 | 20.1 | 16.7 | 18.7 | 13.5 | 17.2 | 16.6 | |
| CERE/21A/NA9S3 (Dan Dre, Aberystwyth) | | | | | | | 22.0 | 20.5 | 24.8 | 22.8 | 22.1 | 25.7 | 23.0 | 22.2 | |
| CERE/21A/NA9S5 (Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan) | | | | | | | 13.2 | 15.0 | 16.9 | 16.6 | 19.1 | 20.0 | 16.8 | 16.2 | |
| CERE/21A/NA9S15 (Y Stryd Fawr, Aberteifi) | | | | | | | 15.3 | 13.4 | | 16.4 | 15.9 | 18.8 | 16.0 | 16.6 | |
| CERE/21A/NA9S12 (Stryd y Cei, Ceinewydd) | | | | | | | 6.5 | 7.1 | 9.6 | 8.1 | 7.7 | 12.1 | 8.5 | 8.2 | |
| CERE/21A/NA9S11 (Pendam) | | | | | | | 2.2 | 1.8 | 3.5 | 2.6 | 1.3 | 3.5 | 2.5 | 2.4 | |
| CERE/21A/NA9S7 (Tal-y-bont) | | | | | | | 24.5 | 22.2 | 28.0 | 25.1 | 27.5 | 25.3 | 25.4 | 24.5 | |
| CERE/21A/NA9S14 (Y Stryd Fawr, Aberystwyth) | | | | | | | 10.5 | 11.1 | 13.9 | 15.0 | 14.0 | 14.6 | 13.2 | 12.7 | |

**Nodiadau:**

Achosion o ormodiant yn erbyn amcan cymedrig blynyddol $NO_2$ o 40µg/$m^3$ yn cael eu dangos mewn **print trwm**.

Cymedrau blynyddol $NO_2$ sy'n fwy na 60µg/$m^3$, gan ddangos y posibilrwydd o ormodiant yn erbyn yr amcan cymedr 1 awr $NO_{2,}$ yn cael eu dangos mewn **<u>print trwm ac wedi'u tanlinellu.</u>**

(1) Gweler Atodiad C am fanylion ar addasu ar gyfer tuedd a blwyddoli.
(2) Nid oedd angen gwneud unrhyw gywiriadau pellter yn 2021

# Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol

## Pwrpas Adroddiad Cynnydd Blynyddol

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion y broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol (RhAALl) fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995 a chanllawiau cysylltiedig y llywodraeth. Mae'r broses RhAALl yn gosod rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer yn rheolaidd yn eu hardaloedd ac i benderfynu a yw'r amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni neu peidio. Pan fydd gormodiant yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (CGAA) o fewn 18 mis i'r datganiad sy'n nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith i roi sylw i'r amcanion. Yna dylid adolygu a diweddaru cynlluniau gweithredu lle bo angen ac o leiaf bob pum mlynedd.

Ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn disodli'r holl ofynion adrodd ffurfiol eraill, ac mae ganddo ddiben clir iawn sef diweddaru'r cyhoedd yn gyffredinol ar ansawdd aer, gan gynnwys pa gamau parhaus sy'n cael eu cymryd yn lleol i'w wella os oes angen.

## Amcanion Ansawdd Aer

Mae'r amcanion ansawdd aer sy'n gymwys i RhAALl yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138), Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298), ac maent i'w weld yn Nhabl B.1.

Mae'r tabl yn dangos yr amcanion mewn unedau o ficrogramau fesul metr ciwbig $\mu g/m^3$ (miligramau fesul metr ciwbig, $mg/m^3$ ar gyfer carbon monocsid) gyda nifer yr achosion o ormodiant ym mhob blwyddyn a ganiateir (lle bo'n berthnasol).

**Tabl B.1- Amcanion ansawdd aer sydd wedi'u cynnwys mewn rheoliadau at ddiben RhAALl yng Nghymru**

| Llygrydd | Amcan ansawdd aer: crynodiad | Amcan ansawdd aer: wedi'i fesur fel | Dyddiad i'w gyflawni erbyn |
|---|---|---|---|
| **Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)** | 200µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 18 gwaith y flwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2005 |
| **Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)** | 40µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2005 |
| **Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)** | 50µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2010 |
| **Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)** | 40µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2010 |
| **Sylffwr deuocsid ($SO_2$)** | 350µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 24 gwaith y flwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2004 |
| **Sylffwr deuocsid ($SO_2$)** | 125µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 3 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2004 |
| **Sylffwr deuocsid ($SO_2$)** | 266µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 15 munud | 31.12.2005 |
| **Bensen** | 16.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol rhedegol | 31.12.2003 |
| **Bensen** | 5µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31 12 2010 |
| **1,3 Biwtadïen** | 2.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol rhedegol | 31.12.2003 |
| **Carbon Monocsid** | 10.0mg/m$^3$ | Uchafswm cymedr 8-awr rhedegol dyddiol | 31.12.2003 |
| **Plwm** | 0.25µg/m$^3$ | Cymedr Blynyddol | 31.12.2008 |

# Atodiad C: Data Monitro Ansawdd Aer SA/RhA

## SA/RhA Monitro Tiwbiau Tryledu

**Ffactorau Addasu ar gyfer Tuedd Tiwbiau Tryledu**

Y dadansoddwr cyflenwad tiwbiau tryledu oedd Socotec Didcot, y dull oedd 50% TEA mewn aseton a'r ffactor addasu ar gyfer tuedd a ddefnyddiwyd oedd ffactor cyffredinol 2021 o 0.78 (Rhif Fersiwn y Daenlen: 06/21) a ddaeth o gronfa ddata DEFRA o ffactorau addasu ar gyfer tuedd cenedlaethol [https://laqm.DEFRA.gov.uk/bias-adjustment-factors/national-bias.html].

**Ffactor o Astudiaethau Cydleoli Lleol**

Nid oedd data cydleoli ar gael.

**Trafod y Dewis o Ffactor i'w Ddefnyddio**

Nid oedd unrhyw gyfle ar gyfer astudiaeth cydleoli felly defnyddiwyd y ffactor addasu cenedlaethol o gronfa ddata DEFRA o ffactorau addasu ar gyfer tuedd cenedlaethol [https://laqm.DEFRA.gov.uk/bias-adjustment-factors/national-bias.html].

**SA/RhA Monitro Tiwbiau Tryledu**

Darperir data ar gyfer manwl gywirdeb labordy dadansoddiad tiwbiau tryledu $NO_2$ gan DEFRA https://laqm.DEFRA.gov.uk/diffusion-tubes/precision.html.

Fel y cynghorwyd gan DEFRA, at ddibenion RhAALl, mae manwl gywirdeb tiwbiau tryledu labordy wedi'i rannu'n ddau gategori, "Da" a "Gwael" fel a ganlyn: ystyrir bod gan diwbiau fanwl gywirdeb "da" lle mae'r cyfernod amrywiad o diwbiau tryledu dyblyg neu driphlyg am wyth neu ragor o gyfnodau yn ystod y flwyddyn yn llai nag 20%, ac mae cyfernod amrywiad cyfartalog yr holl gyfnodau monitro yn llai na 10%. Ystyrir bod gan diwbiau fanwl gywirdeb "gwael" lle mae cyfernod amrywiad pedwar cyfnod neu ragor yn fwy nag 20% a/neu mae'r cyfernod amrywiad cyfartalog yn fwy na 10%.

Mewn perthynas â'r canlyniadau cryno y mae DEFRA yn eu darparu, cynghorir fel a ganlyn:

*"Sylwer y gall perfformiad labordy newid o un flwyddyn i'r llall. Felly, wrth asesu perfformiad labordy gan ddefnyddio'r canfyddiadau* [a ddarperir yn y canlyniadau cryno]*,*

*dylid ystyried cyfran y canlyniadau lleoliad cywirdeb "gwael", nid dim ond presenoldeb neu absenoldeb canlyniadau cydleoli manwl gywirdeb gwael.*

**Blwyddoli Tiwbiau Tryledu**

Mae angen blwyddoli ar gyfer unrhyw safle lle mae'r data a gasglwyd yn llai na 75% ond yn fwy na 25%. Roedd angen blwyddoli ar gyfer pob un o safleoedd monitro Cyngor Sir Ceredigion yn 2021 oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo a oedd yn atal gosod a chasglu tiwbiau tryledu am 6 o'r 12 mis. Fel rhan o'r weithdrefn blwyddoli, ystyriwyd data a gasglwyd o ddau safle monitro awtomatig gwledig, sef Arberth, Sir Benfro ac Aston Hill, Swydd Amwythig. Rhoddir manylion y dull cyfrifo a ddefnyddiwyd yn Nhabl C.2.

**Ffactorau Addasu ar gyfer Tuedd Tiwbiau Tryledu**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cymhwyso ffactor addasu ar gyfer tuedd cenedlaethol o 0.78 i ddata monitro 2021. Cyflwynir crynodeb o'r ffactorau addasu ar gyfer tuedd a ddefnyddiwyd gan Gyngor Sir Ceredigion dros y pum mlynedd diwethaf yn Nhabl C.1.

**Tabl C.1- Ffactor Addasu ar gyfer Tuedd**

| Blwyddyn | Lleol neu genedlaethol | Os yn genedlaethol, y fersiwn o'r daenlen genedlaethol | Ffactor addasu |
|---|---|---|---|
| 2021 | Cenedlaethol | 06/22 | 0.78 |
| 2020 | Cenedlaethol | 06/21 | 0.76 |
| 2019 | Cenedlaethol | 09/20 | 0.75 |
| 2018 | Cenedlaethol | 06/19 | 0.76 |
| 2017 | Cenedlaethol | 09/18 | 0.77 |
| 2016 | Cenedlaethol | 06/17 | 0.79 |

**Gostyngiad $NO_2$ gyda phellter o'r ffordd**

Nid oedd angen cywiro pellter mewn unrhyw leoliadau monitro $NO_2$ yng Ngheredigion yn ystod 2021.

**Tabl C.2- Crynodeb Blwyddoli (crynodiadau wedi'u cyflwyno mewn µg/m$^3$).**

| Enw’r safle | Ffactor blwyddoli – Arberth | Ffactor blwyddoli – Aston Hill | Ffactor blwyddoli cyfartalog | Data crai cymedr blynyddol | Cymedr blynyddol wedi’i flwyddoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd y Teras, Aberystwyth | 1.2474 | 1.2474 | 1.2363 | 21.2 | 26.2 |
| Stryd Thespis, Aberystwyth | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 21.0 | 26.0 |
| Gorsaf Reilffordd, Aberystwyth | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 21.5 | 26.6 |
| Cylchfan Morrisons, Aberystwyth | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 17.2 | 21.3 |
| Dan Dre, Aberystwyth | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 23.0 | 28.4 |
| Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 16.8 | 20.8 |
| Y Stryd Fawr, Aberteifi | 1.3877 | 1. 2809 | 1.3343 | 16.0 | 21.3 |
| Stryd y Cei, Aberteifi | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 8.5 | 10.5 |
| Pendan | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 2.5 | 3.1 |
| Tal-y-bont | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 25.4 | 31.4 |
| Y Stryd Fawr, Aberystwyth | 1.2474 | 1.2251 | 1.2363 | 13.2 | 16.3 |

## Tabl E. 1- Matrics Effaith

| Categori | Graddfa Effaith: Dim | Graddfa Effaith: Bach | Graddfa Effaith: Canolig | Graddfa Effaith: Uchel |
|---|---|---|---|---|
| Monitro Awtomatig – Cipio Data (%) | Mwy na 75% cipio data | 50 i 75% cipio data | 25 i 50% cipio data | Llai na 25% cipio data |
| Monitro Awtomatig – Cyfundrefn SA/RhA | Cadw at y gofynion fel y'u diffinnir yn LAQM.TG16 | Calibradu arferol yn digwydd yn aml ond nid yn ôl y drefn arferol. Cynnal archwiliadau ochr yn ochr â rhaglenni gwasanaethu a chynnal a chadw | Calibradu arferol yn digwydd yn anaml a chadw at drefniadau gwasanaethu a chynnal a chadw. Dim archwiliad wedi'i gynnal | Calibradu arferol heb ddigwydd o fewn cyfnod estynedig (e.e. 3 i 4 mis). Amharu ar y drefn gwasanaethu a chynnal a chadw ac ni chyflawnwyd unrhyw archwiliad |
| Monitro Goddefol – Cipio Data (%) | Mwy na 75% cipio data | 50 i 75% cipio data | 25 i 50% cipio data | Llai na 25% cipio data |
| Monitro Goddefol – Ffactor Addasu ar gyfer Tuedd | Addasu ar gyfer tuedd wedi'i wneud yn ôl yr arfer | Effaith <25% ar y nifer arferol o astudiaethau cydleoli addasu ar gyfer tuedd sydd ar gael (2020 yn erbyn 2019) | Effaith 25-50% ar y nifer arferol o astudiaethau addasu ar gyfer tuedd sydd ar gael (2020 yn erbyn 2019) | Effaith > 50% ar y nifer arferol o astudiaethau addasu ar gyfer tuedd sydd ar gael (2020 yn erbyn 2019) a/neu astudiaethau ffactor addasu ar gyfer tuedd cymhwysol heb eu hystyried yn gynrychioliadol o gyfundrefn leol |
| Monitro Goddefol – Cadw at Ddyddiadau Newid | Cadw at galendr cysylltiad tiwbiau tryledu DEFRA | Tiwbiau wedi'u gadael allan am ddau gyfnod cysylltiad | Tiwbiau wedi'u gadael allan am dri chyfnod cysylltiad | Tiwbiau wedi'u gadael allan am fwy na thri chyfnod cysylltiad |
| Monitro Goddefol – Storio Tiwbiau | Tiwbiau'n cael eu storio yn unol â chanllawiau labordy a'u dadansoddi'n brydlon. | Tiwbiau'n cael eu storio'n hwy nag arfer ond cadw at ganllawiau labordy | Methu storio tiwbiau yn unol â chanllawiau labordy ond eu dadansoddi cyn y dyddiad dod i ben | Tiwbiau'n cael eu storio mor hir fel nad oedd modd eu dadansoddi cyn y dyddiad dod i ben. Methu defnyddio data |
| CGAA – Gweithredu Mesur | Heb ei effeithio | Oedi byr (<6 mis) wrth ddatblygu CGAA newydd, ond yn parhau | Oedi hir (>6 mis) wrth ddatblygu CGAA newydd, ond yn parhau | Dim cynnydd o ran datblygu CGAA newydd |
| CGAA – Datblygu CGAA newydd | Heb ei effeithio | Oedi byr (<6 mis) wrth ddatblygu CGAA newydd, ond yn parhau | Oedi hir (>6 mis) wrth ddatblygu CGAA newydd, ond yn parhau | Dim cynnydd o ran datblygu CGAA newydd |

# Rhestr Termau

| Talfyriad | Disgrifiad |
|---|---|
| ACB | Adroddiad Cynnydd Blynyddol ansawdd aer |
| ARhAA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer – Ardal lle mae crynodiadau llygryddion aer yn uwch / yn debygol o fod yn uwch na'r amcanion ansawdd aer perthnasol. Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu datgan ar gyfer llygryddion ac amcanion penodol |
| CGAA | Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer – Disgrifiad manwl o fesurau, canlyniadau, dyddiadau cyflawni a dulliau gweithredu, gan ddangos sut mae'r ALl yn bwriadu cyflawni gwerthoedd terfyn ansawdd aer |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| LlDFfPh | Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd – Offeryn sgrinio ansawdd aer a gynhyrchwyd gan Highways England |
| $NO_2$ | Nitrogen Deuocsid |
| $NO_x$ | Ocsidau Nitrogen |
| $PM_{10}$ | Deunydd gronynnol a gludir yn yr aer â diamedr aerodynamig o 10µm (micrometrau neu ficronau) neu lai |
| $PM_{2.5}$ | Deunydd gronynnol a gludir yn yr aer â diamedr aerodynamig o 2.5µm neu lai |
| RhAALl | Rheoli Ansawdd Aer Lleol |
| RhTGA | Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig (rhwydwaith monitro ansawdd aer y DU) |
| SA/RhA | Sicrhau Ansawdd a Rheoli Ansawdd |
| SMDH | System Mesur Deinameg Hidlo |
| $SO_2$ | Sylffwr Deuocsid |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **DYDDIAD:** | **27 Hydref 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/2023** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.
Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.
Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.
Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol

- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Dwynwen Jones |
| **Dynodiad:** | Swyddog Trosolwg a Chraffu |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 14 Hydref 2022 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

| *Cymunedau Iachach* | | | |
|---|---|---|---|
| 28 Gorffennaf 2022 | ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL CHWARTER 3 2021 – 2022<br><br>Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026<br><br>Trwyddedu - Ffioedd | | |
| 27 Hydref 2022 | Cyflwyno'r Strategaeth Ddementia Ranbarthol a ddatblygwyd gan Grwp Llywio Dementia Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru<br><br>Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2021-2022<br><br>Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer | Donna Pritchard<br><br>Elizabeth Upcott<br><br>Heddwyn Evans/Elis Gwyn | Pre-Cabinet 6.12.22<br><br>Monitro<br><br>Pre-Cabinet 6.12.22 |
| 23 Ionawr 2023 Arbennig | Diweddariad ar Covid-19<br><br>Wedi gwahodd CAMHS | Carwen Evans | |
| 16 Chwefror 2023 9.30am | Paratoi'r cyllideb | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 Ebrill 2023 | Srategaeth Tai | Cerys Purches-Phillips | |
| Eitemau i'r dyfodol | Wedi eu awgrymu:<br><br>Diweddariad ar Gwasanaethau Dementia – Hafan Deg Awel Deg yn cynnwys Cartrefi Preswyl<br><br>Diweddariad ar Faethu – yn dilyn adroddiad 6.10.21<br><br>Diweddariad ar Ofalaeth Cartref yn dilyn trafodaethau 6 Hydref 2021 i gynnwys manylion costau allanoli'r gwasanaeth fel y mae'r awdurdod ar hyn o bryd, gyda chymhariaeth â chyflogi gofalwyr mewnol.<br><br>Cynllun 12 mis ar gyfer Gofal Dydd yn y Sir<br><br>Archwilio mannau gwerthu bwyd (ail-arolygiad) – coch ar y gofrestr risg<br><br>Diweddariad ar y Rhaglen Trwy Oedran a Lles i gynnwys sefyllfa recriwtio/staff - coch ar y gofrestr risg<br><br>Adroddiad ar CAMHS – gwahodd Pennaeth CAMHS i gyfarfod yn y dyfodol.<br><br>Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol – goblygiadau cost gosod gwaith ar gontract allanol. | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Iau, 28 Gorffennaf 2022**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), y Cynghorwyr Amanda Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Sian Maehrlein, John Roberts a Carl Worrall.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans a Gareth Lloyd.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu; Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd; Heddwyn Evans, Rheolwr Iechyd Yr Amgylchedd; Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Tai; Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd & Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am - 10.22am)
(10:30am - 11:58am)

*Cafodd y cyfarfod ei atal mewn ymateb i faterion technegol ac ailddechreuodd am 10.30am.*

**1 Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Mark Strong ac Ifan Davies am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal a Sian Howys, Porth Cynnal am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Datganodd y Cynghorydd Wyn Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 5.

**3 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3 2021 – 2022**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod Cabinet dros wasanaethau Gydol Oes a Lles) adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3 2021/2022. Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal. Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael Cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal Amlasiantaethol sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol, a cynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter. Aeth y Cynghorydd Alun Williams ymlaen i gyflwyno Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol a nodwyd ar dudalen 2 yr adroddiad.

Nododd Elizabeth Upcott nad oedden nhw wedi derbyn unrhyw awgrym ar sut y byddai’r canllawiau newydd ar y newidiadau i apwyntiadau deintyddol arferol yn effeithio ar y gwasanaeth. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn mynychu cyfarfodydd monitro sicrwydd ansawdd.

Mynegodd y Cynghorydd Alun Williams siom gyda’r cyhoeddiad gan mai strategaeth allweddol y Cyngor gyda’r Model Gydol Oes a Lles oedd darparu ymyrraeth gynnar ac atal, a ddylai leihau’r angen am wasanaethau drutach yn hwyrach ymlaen.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith y bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy’n derbyn gofal dros y 2 flynedd ddiwethaf, fel yr adlewyrchir ar dudalen 4 yr adroddiad. Canmolodd y gwasanaeth am adroddiad clir a oedd wedi’i gyflwyno’n dda.

Esboniodd Elizabeth Upcott fod tueddiad tebyg wedi’i weld yn genedlaethol yn dilyn y pandemig, ac er bod nifer y plant mewn gofal yng Ngheredigion yn isel o’i gymharu ag awdurdodau lleol eraill, roedd pryder ac roedd mesurau atal yn cael eu rhoi ar waith yn y tymor byr a’r tymor hir. Cyfeiriwyd at natur lleoliadau’r plant a adolygwyd a statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn. Eglurwyd cynlluniau llwybr i’r aelodau. Amlygwyd bod yr awdurdod lleol yn parhau i fod â chyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu gofal a chymorth i’r rhai rhwng 16 a 25 oed sy’n gadael gofal. Er nad oedd pawb yn y grŵp oedran hwn eisiau ymgysylltu, neilltuwyd Cynorthwyydd Personol i bob un sy’n gadael gofal.

Nodwyd bod diffyg gofalwyr maeth yn genedlaethol ac er bod ymgyrch recriwtio wedi bod dros Gymru gyfan, mae dod o hyd i leoliadau yn parhau i fod yn her. Mae cynlluniau rheoli parhaus ar y gweill i reoli hyn.

Esboniodd Elizabeth Upcott fod staffio'n parhau i fod yn heriol, a'u bod nhw'n mynd ar drywydd pob llwybr, roedd uwch reolwyr yn ymwneud â chynlluniau gweithredu, ac roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Eglurodd fod yr adroddiadau chwarterol yn ofyniad, ac roedd yn rhoi gwybod i bawb am unrhyw dueddiadau ac yn rhoi trosolwg fel rhieni corfforaethol.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol ac Uwch Weithwyr Cymdeithasol wedi ei gynnwys ar y gofrestr risgiau. Atgyfnerthodd bwysigrwydd adrodd yn chwarterol.

O ran y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, nododd y Cynghorydd Alun Williams fod disgwyl i'r nifer ostwng wrth symud ymlaen wrth i awdurdodau lleol ymdrin â'r nifer a ddaeth i'r amlwg yn sgil covid.

Roedd y Cadeirydd yn gwerthfawrogi y bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn genedlaethol ond roedd yn ymwybodol bod Ceredigion yn awdurdod llai ac y gallai fod ychydig yn fwy agored i'r risg.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad o'r adran ac am eu gwaith caled mewn cyfnod heriol iawn.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad a lefelau'r gweithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

**4 Rhaglen Cymorth Tai 2022 2026**

Cyflwynodd Llyr Hughes y cefndir i Raglen Cefnogi Tai 2022-2026 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at y 4 papur cefndir sy'n ofynnol o dan y canllawiau grant presennol, a nodwyd bod y cynllun 4 blynedd wedi nodi 4 blaenoriaeth strategol a hefyd camau wrth symud ymlaen. Eglurodd bod y cynllun yn cwmpasu'r holl anghenion tai, a bod y strategaeth gyffredinol yn sail iddo.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y rheoliadau rhentu newydd a fydd yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2022, eglurodd Llyr Hughes fod landlordiaid yn gadael y farchnad ac eraill yn cynyddu rhent a bondiau ar gyfer y rhai mwyaf bregus. Roedd llawer o wybodaeth anecdotaidd yn cylchredeg, ond y darlun ar draws Cymru yn gyffredinol oedd hyn.

O ran troi allan 'heb fai', roedd gan y gwasanaeth Opsiynau Tai wasanaeth porth, ac roedden nhw'n gallu cyfeirio pobl at y cymorth cywir. Mae'r Cyngor yn rhan o Gynllun Prydlesu Cymru a'r nod yw gweithio'n agos gyda landlordiaid preifat.

Mae aelodau wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau gan bobl sydd wedi derbyn hysbysiadau i adael llety rhent preifat oherwydd rhesymau amrywiol. Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar iechyd meddwl pobl, ond mae'n lleihau

argaeledd llety rhent. Cymeradwywyd Gwasanaeth Dewisiadau Tai Ceredigion am ei gefnogaeth.

Atgoffwyd yr aelodau i gyfeirio trigolion at y Gwasanaeth Opsiynau Tai os oedd angen cymorth arnynt i ddod o hyd i lety arall. Roedd yn gwerthfawrogi bod diffyg tai fforddiadwy ac nad oedd y lwfansau tai yn adlewyrchu rhenti'r farchnad breifat.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymell y Rhaglen Cymorth Grant a Datganiad o Anghenion i'w gymeradwyo gan y Cabinet.

**5 Adroddiad ar y ffioedd arfaethedig ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021**

Cyfeiriodd Heddwyn Evans at y cefndir a'r sefyllfa bresennol a amlinellwyd yn yr adroddiad. Nodwyd bod y ffioedd arfaethedig mewn ymateb i'r cynnydd mewn pobl sy'n gwerthu anifeiliaid anwes yn breifat ac ar-lein yn hytrach na phrynu o siop anifeiliaid anwes. Cyfeiriwyd at y Sefyllfa Bresennol, a oedd yn cynnwys bod cyflwyniad i'r ddeddfwriaeth wedi ei gyflwyno drwy'r broses Ddemocrataidd ym mis Tachwedd 2021 a hefyd Cyfraith Lucy, sydd eisoes ar waith yn Lloegr. Mae'r ffioedd arfaethedig sydd wedi'u rhestru ar dudalen 2 o'r adroddiad yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol sydd gan yr awdurdod i'w wneud a lefel y mewnbwn gan swyddogion.

Cyfeiriwyd at yr hyn sydd i mewn ac y tu allan i'r cwmpas: Gwerthu Anifeiliaid fel Anifeiliaid Anwes gan gynnwys y Prawf Busnes, meini prawf o fewn y cwmpas, canllaw i ddangosyddion rhedeg busnes gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, meini prawf y tu allan i'r cwmpas a dangosyddion canllaw o weithgareddau sydd "y tu allan i'r cwmpas" fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Heddwyn Evans. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Esboniodd Heddwyn Evans eu bod yn monitro hysbysebion ar-lein ac amlder hysbysebion gan fridwyr heb drwydded, a allai fod yn arwydd bod bridio yn cael ei wneud fel gweithgarwch masnachol.
- Mae anawsterau gydag olrhain o ran monitro lles cŵn ar ôl iddyn nhw orffen bridio gan nad oes deddfwriaeth i gefnogi hyn. Mae amddiffyniad ar waith ar gyfer bridwyr trwyddedig nad ydynt yn caniatáu mwy nag un torllwyth y flwyddyn a 6 mewn oes. Yn ogystal, mae strategaeth ymddeol ar waith ac roedd gosod microsglodion yn ofyniad cyfreithiol. Mae gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i ddiogelu lles anifeiliaid.
- O ran pwy oedd yn cael ei gategoreiddio fel bridiwr, eglurodd Heddwyn Evans fod awdurdodau yn edrych ar wahanol senarios i sicrhau cysondeb. Mae monitro dros gyfnod o amser yn allweddol i weld a yw'r gweithgarwch yn fasnachol ac i wneud elw. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ei rinwedd ei hun cyn gwneud penderfyniad.
- Yn dilyn pryderon a godwyd gan aelodau y gallai teuluoedd gael torllwyth y flwyddyn am incwm ychwanegol, eglurodd Heddwyn Evans nad oedd

unrhyw fwriad i drwyddedu pobl yn y sefyllfa yma ond yn hytrach, pobl a oedd wedi cael torllwyth gan sawl ci mewn blwyddyn.

- Mae Bathodynnau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn nodi y gallai elw o £1000 awgrymu gweithgarwch masnachol - dywedodd Heddwyn Evans y byddai hyn yn codi pryderon o ystyried y cynnydd mewn prisiau yn ddiweddar.
- Mae monitro gwefannau, nodi bridwyr a phatrymau gweithredu yn cymryd llawer o amser. Mae'r camau gorfodi ychwanegol wedi'u cynnwys yn y ffi. Os bydd angen adnoddau ychwanegol i wneud y gwaith, bydd angen ystyried hyn.
- Mynegwyd pryderon gan aelodau nad oedd eglurder llwyr o ran y gwahaniaeth rhwng y diffiniad o weithgaredd domestig a masnachol.
- Roedd yr aelodau'n teimlo bod cael anifail anwes teuluol yn bwysig, er mwyn addysgu plant am sut i ofalu am anifeiliaid anwes.
- Rhoddodd Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, sicrwydd i'r aelodau mai'r nod oedd targedu pobl heb drwydded a oedd yn amlwg yn gweithredu fel delwyr anifeiliaid anwes ac sy'n elwa o'u gweithredoedd. Roedd cael strwythur trwyddedu a ffioedd ar gyfer y trwyddedau newydd hyn yn orfodol o safbwynt cyfreithiol.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymell yr adroddiad a'r strwythur ffioedd arfaethedig i'w gymeradwyo gan y Cabinet.

**6 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022.

Materion sy'n codi: Dim.

**7 Blaenraglen Gwaith Ddrafft 2022-2023**

CYTUNWYD nodi'r Flaenraglen Waith a gyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:

i. Gweithdy yn benodol ar gyfer cyllideb y gwasanaethau o dan gylch gwaith y pwyllgor (Hydref)
ii. Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i roi gwybod iddi am unrhyw faterion yr hoffent eu harchwilio fel rhan o gylch gwaith y pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hamynedd yn y cyfarfod heddiw gan ymddiheuro am yr anawsterau technegol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 27 Hydref 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol